Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
38/2017

DYDDIAD CYHOEDDI:
24/07/2017

# Asesu cyfraniad Her Ysgolion Cymru i ganlyniadau a gyflawnwyd gan ysgolion Llwybrau Llwyddiant

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-4734-7049-1

# Asesu cyfraniad Her Ysgolion Cymru i ganlyniadau a gyflawnwyd gan ysgolion Llwybrau Llwyddiant

Adroddiad Terfynol

**Christopher Carr, Sarah Brown a Marian Morris (SQW)**

Safbwyntiau’r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw’r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:
Joanne Starkey
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays Caerdydd
CF10 3NQ
0300 025 0377
joanne.starkey@llyw.cymru

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2017
ISBN 978-1-4734-7049-1

© Hawlfraint y Goron

## Cynnwys

Geirfa ........................................................................................................2
Crynodeb Gweithredol ...............................................................................3
Rhagymadrodd .........................................................................................12
Deall y dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion LILI ............................................21
Asesu perfformiad ysgolion LILI yn dilyn cyfranogiad yn HYC .........................34
Cyfraniad canllaw ar lefel rhaglen .....................................................................51
Cyfraniad Cynghorwyr Her ................................................................................59
Cyfraniad Byrddau Gwella Carlam .....................................................................69
Cyfraniad cyllido Her Ysgolion Cymru ...............................................................78
Cyfraniad Her Ysgolion Cymru i'r newidiadau ym mherfformiad ysgolion LILI87
Casgliadau a goblygiadau ..................................................................................96
Cyfeiriadau ........................................................................................................100

## Geirfa

| | |
|---|---|
| BGC | Bwrdd Gwella Carlam |
| CH | Cynghorydd Her |
| Consortia | Consortia Addysg Rhanbarthol |
| DPP | Datblygiad Proffesiynol Parhaus |
| L2C | Lefel 2 Cynhwysol yw 5 TGAU graddau A*-C neu gyfatebol, yn cynnwys TGAU gradd A*-C mewn Mathemateg a naill ai Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf |
| ALl | Awdurdod Lleol |
| LlLl | Ysgolion Llwybrau Llwyddiant |
| AAA | Anghenion Addysgol Arbennig |
| HYC | Her Ysgolion Cymru |
| Profion Cenedlaethol | Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol |
| Clwstwr ysgolion | Grŵp o ysgolion lle ceir tystiolaeth o weithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd |
| CDY | Cynllun Datblygu Ysgol (mewn rhai ysgolion caiff hwn ei alw'n Cynllun Gwella Ysgol) |
| UDA | Uwch Dîm Arwain |

## Crynodeb Gweithredol

1. Cyflwyna'r adroddiad hwn gasgliadau ymchwil a gynhaliwyd gan SQW ar ran Llywodraeth Cymru fel rhan o'r gwerthusiad annibynnol o Her Ysgolion Cymru (HYC). Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar gyfraniad HYC mewn gwella perfformiad ysgolion Llwybrau Llwyddiant (LlLl), a wnaeth elwa gan gyfran o'r cyllido HYC.

2. Cynhaliwyd Her Ysgolion Cymru a LlLl o 2014/15 hyd 2016/17 (tair blwyddyn academaidd). Daw casgliadau'r adroddiad hwn o waith maes manwl a gynhaliwyd yn yr ysgolion LlLl o fis Mai hyd fis Gorffennaf 2016 (h.y. yr ail flwyddyn) ac maent yn adeiladu ar yr ymchwil a gynhaliwyd ym mlwyddyn gyntaf HYC (h.y. mis Mai hyd fis Gorffennaf 2015). Felly, nid yw'r gwerthusiad yn ymdrin â thrydedd blwyddyn, a blwyddyn olaf, Llwybrau Llwyddiant.

3. Ochr yn ochr â thystiolaeth ddogfennol, mae'r adroddiad yn defnyddio cyfweliadau trylwyr gyda Chynghorwyr Her, staff Awdurdodau Lleol a Chonsortia Rhanbarthol, yr uwch dimau arwain (UDA) a staff pob un o'r 39 ysgol LlLl, ysgolion cynradd eu clwstwr a'u hysgolion uwchradd partner. Mae hefyd yn cynnwys mewnwelediadau o arolygon archwiliol peilot a gynhaliwyd gyda disgyblion ym Mlynyddoedd 6, 7 a 9 yn 2014/15 a Blynyddoedd 7, 8 a 10 yn 2015/16.

### Ynglŷn â Llwybrau Llwyddiant

4. Roedd rhaglen HYC, a lansiwyd ym mis Mehefin 2014 ac a gyflwynwyd i ysgolion ym mis Medi 2014, yn ymdrech gydunol gan Lywodraeth Cymru i ymateb i amrywioldeb ym mherfformiad gwahanol ysgolion ar draws Cymru o ran cefnogi datblygiad eu disgyblion, yn arbennig y rheini o gefndiroedd o amddifadedd. Rhoddwyd £40 miliwn ar gael i gefnogi cyflawniad HYC yn ystod dwy flynedd gyntaf y rhaglen. Rhoddwyd cyfran o'r adnoddau ar gael i 40 o ysgolion **Llwybrau Llwyddiant** (LlLl) (y gwnaeth dwy ohonynt uno wedi hynny) a'u clystyrau ehangach (pob un fel arfer yn cynnwys yr ysgolion cynradd oedd yn ei bwydo), a rhoddwyd cyllid ar gael i'r pedwar Consortia Addysg Rhanbarthol er mwyn cynorthwyo i feithrin gallu o fewn y system addysg ehangach.

5. Gan ddefnyddio'r dysgu a welwyd gan fentrau blaenorol o'r math hyn, megis Heriau Llundain a Manceinion Fwyaf, anogwyd ysgolion LlLl, drwy'r rhaglen, i ystyried ansawdd eu harweinyddiaeth a rheolaeth, addysgu a dysgu, ac effeithiolrwydd eu gwaith gyda'r gymuned ehangach. Drwy wneud gwelliannau yn y meysydd hyn, y gobaith oedd y byddai HYC yn cefnogi gwelliant yng nghanlyniadau dysgu disgyblion mewn ysgolion LlLl, yn ogystal

â chreu gwersi o'r datblygiadau hyn er mwyn cynorthwyo i gryfhau gallu'r system addysg gyfan i wella ei hun.

6. Er mwyn eu cynorthwyo i oresgyn y rhwystrau i wella, gallai ysgolion LlLl gyrchu nifer o wahanol fathau o gefnogaeth. Mae'r elfennau allweddol wedi cynnwys:

- cefnogaeth gan **Gynghorydd Her Ysgolion Cymru** penodol i gynorthwyo Uwch Arweinwyr mewn ysgolion LlLl i nodi dulliau ar gyfer goresgyn eu rhwystrau i wella
- y cyfle i wneud cais am **gyllid ychwanegol** gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gweithrediad y strategaeth gwella ysgol
- cefnogaeth gan **Fwrdd Gwella Carlam (BGC)**
- y cyfle i ddatblygu **Cynllun Datblygu Ysgol (Sengl)**

**Dulliau gwella ysgol a fabwysiadwyd gan ysgolion LlLl**

7. Roedd pob un o'r ysgolion LlLl yn wynebu heriau o ran lefelau eu hamddifadedd neu gyrhaeddiad o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol. Daeth cyfuniad o dystiolaeth gwerthusiad 2014/15 i'r casgliad bod y rhesymeg dros gael eu cynnwys fel ysgol LlLl yn amrywio, ac er bod y dulliau a ddefnyddiwyd gan ysgolion LlLl wedi'u hysbysu'n bennaf gan eu trywydd cyn cael eu cynnwys yn HYC, roeddent hefyd wedi'u hysbysu gan berfformiad arweinwyr eu hysgol. Yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn, awgrymodd y tîm gwerthuso dri grŵp cyd-destunol ar gyfer dulliau LlLl:

- **Grŵp A:** Ysgolion yr oedd ansawdd y ddarpariaeth fel petai wedi bod yn **gwaethygu** cyn ymgysylltu â HYC ac a oedd mewn perygl o ddirywiad pellach. Cafodd **wyth** o ysgolion LlLl eu nodi'n ysgolion Grŵp A.
- **Grŵp B:** Ysgolion yr oedd ansawdd y ddarpariaeth fel petai'n **sefydlog** cyn ymgysylltu â HYC ond teimlwyd eu bod angen gwella. Aseswyd **un ar bymtheg** o ysgolion LlLl fel rhai nodweddiadol o ysgolion Grŵp B.
- **Grŵp C:** Ysgolion yr oedd ansawdd y ddarpariaeth wedi **dechrau gwella** cyn ymgysylltu â HYC. Disgrifiwyd **pedair ar ddeg** o ysgolion LlLl fel rhai oedd yn gweddu orau i'r grŵp hwn.

8. Erbyn 2015/16 roedd tystiolaeth o gynnydd yn y ffyrdd yr oedd pob ysgol LlLl yn ystyried ac yn gweithredu strategaethau gwella ysgol, ac yn arbennig mewn **gwella ansawdd athrawon**. Yn gryno:

- roedd pob ysgol LlLl (boed yn Grŵp A, B neu C) nawr yn sôn am raglen o weithgareddau gwella ysgol yn canolbwyntio ar wella ansawdd athrawon, gan adlewyrchu:
  - y flaenoriaeth gynyddol yr oedd cyfweleion yn ei rhoi i'r maes hwn
  - mwy o hyder ymhlith uwch arweinwyr yn eu gallu i roi gweithgareddau gwella ysgol ar waith
- roedd mwy o bwyslais nac yn 2014/15 ar feithrin gallu athrawon unigol a oedd eisoes yn gweithio mewn ysgolion LlLl yn hytrach na recriwtio staff newydd
- roedd ffyrdd o weithio gydag ysgolion partner wedi gwella, gyda mwy o bwyslais ar raglenni DPP ar y cyd a datblygu atebion a rennir i'r heriau a wynebwyd gan y ddwy ysgol
- roedd y pwyslais cynnar ar yr angen i wella ansawdd hunanwerthuso a chynllunio datblygu ysgol yn llai amlwg wrth i systemau o'r fath sefydlu
- roedd pwyslais cynyddol ar wella ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth, gyda llawer o ysgolion yn buddsoddi mwy mewn datblygu arweinwyr canol i sicrhau bod arferion effeithiol yn cael eu rhaeadru i lawr yr ysgol.

**Perfformiad ysgolion LlLl**

9. Mae dadansoddiad o'r data perfformiad ar gyfer ysgolion LlLl yng Nghyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 yn awgrymu bod ystyried y canlyniadau a ragfynegwyd a'r canlyniadau gwirioneddol ar gyfer ysgolion ochr yn ochr ag ysgolion eraill oedd â nodweddion a lefelau cyrhaeddiad blaenorol tebyg yn fwy defnyddiol wrth asesu eu perfformiad cymharol na chymhariaeth gyda phob ysgol. Er bod ysgolion LlLl ar y cyfan yn perfformio'n is na chyfartaledd Cymru mewn pynciau craidd, gwnaeth pob un o'r ysgolion LlLl **gynnydd academaidd** yn y ddwy flynedd ers cyflwyno HYC.

- Roedd ysgolion yn Grŵp A (lle'r oedd ansawdd y ddarpariaeth fel petai wedi bod yn gwaethygu cyn ymgysylltu â HYC) a Grŵp C (lle'r oedd ansawdd y ddarpariaeth wedi dechrau gwella cyn ymgysylltu â HYC) wedi gwneud cynnydd cyflymach nag a fyddai efallai wedi ei ragfynegi, o ystyried eu proffil disgyblion.
- Roedd ysgolion yn Grŵp B (y rheini yr oedd ansawdd y ddarpariaeth fel petai'n sefydlog cyn ymgysylltu â HYC) wedi gwneud y cynnydd y byddai efallai wedi ei ragfynegi, o ystyried eu proffil disgyblion.

10. Gwnaeth ysgolion LlLl lai o gynnydd cychwynnol o ran gwella **presenoldeb**, nag a fyddai wedi ei ragfynegi, yn arbennig yn 2014/15. Fodd bynnag, yn ystod 2015/16:

- Gwnaeth ysgolion yn Grŵp A a Grŵp C ychydig mwy o gynnydd nag a fyddai wedi cael ei ragfynegi, o gofio nodweddion eu disgyblion
- Mae'n ysgolion yn Grŵp B yn dal fel petaent wedi cael anawsterau, gyda lefelau is o bresenoldeb nag efallai y byddai wedi ei ddisgwyl, hyd yn oed heb ymyrraeth LlLl.

11. Teimlai rhanddeiliaid allanol bod gwelliannau wedi eu gwneud i ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn tua pedair o bob pump o'r holl ysgolion LlLl (32 ysgol). Lle na adroddwyd am welliannau o'r fath, yn aml roedd yr ysgolion hyn wedi gweld newidiadau diweddar yn yr uwch dîm arwain. Teimlwyd bod gan yr arweinwyr newydd yn yr ysgolion hyn y potensial i gyflawni'r gwelliannau oedd eu hangen, ond barn y cyfweleion oedd y byddai'n cymryd amser cyn y byddent yn dod yn amlwg.

12. Credai'r cyfweleion yn y rhan fwyaf o ysgolion LlLl bod cynnydd wedi ei wneud mewn gwella ansawdd hunanwerthuso. Yn y rhan fwyaf o achosion, priodolwyd gwelliannau o'r fath i welliant yn hyder arweinwyr i wneud penderfyniadau ynglŷn â gwella ysgol.

**Cyfraniad canllaw ar lefel rhaglen**

13. Ym mis Hydref 2014, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ganllaw newydd ar gyfer rheoli datblygiad **Cynlluniau Datblygu Ysgol** (CDY) ac erbyn 2015/16 roedd gan yr holl ysgolion LlLl gynllun o'r fath ar waith. Roedd hi'n amlwg fodd bynnag bod cyfweleion, er yn ystyried bod eu cynllun yn cydymffurfio â'r canllaw, yn mynegi pryder ynglŷn â'u gallu i adnoddu cynllun dros gylch tair blynedd pan fo cyllid grant yn cael ei dalu'n flynyddol.

14. Dros gyfnod HYC, anogwyd ysgolion LlLl i wella ansawdd eu **gweithgarwch cydweithredu o fewn eu clwstwr o ysgolion** (a ystyriwyd yn gyffredinol i gynnwys ysgolion cynradd lleol/sy'n eu bwydo).

- Erbyn 2016 roedd nifer yr ysgolion LlLl a oedd yn gweithio gyda'u clwstwr wedi cynyddu o ychydig dros ddwy o bob tair yn 2015 i bron pob un (dros bedair o bob pump).
- Mewn ysgolion oedd â hanes o weithio gyda'u clwstwr cyn HYC, roedd ansawdd a swm y gwaith cydweithredu wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd hyn yn cynnwys pwyslais cynyddol ar ddulliau wedi'u cynllunio i gefnogi gwelliannau yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

- Roedd rhwydweithiau cefnogi cymar i gymar wedi eu sefydlu mewn ychydig dan hanner yr ysgolion oedd yn rhan mewn **gweithgarwch cydweithredu clwstwr**. Ar y cyfan roedd y rhwydweithiau hyn yn cynnwys arbenigwr pwnc o ysgol LlLl a dau ymarferydd cynradd o wahanol ysgolion clwstwr. Roedd y rhan fwyaf o'r rhwydweithiau yn dueddol o fod yn bwnc benodol (Cymraeg a/neu Saesneg, mathemateg neu wyddoniaeth) ac roeddent wedi canolbwyntio ar thema benodol (megis marcio llyfrau).

15. Mae ysgolion LlLl hefyd wedi cael eu hannog, lle bo hynny'n briodol, i **gydweithredu gydag ysgolion uwchradd eraill** (gydag ysgolion wedi'u lleoli yng Nghymru ac mewn mannau eraill).

- Cynyddodd cyfran yr ysgolion oedd yn ymddangos eu bod yn gweithio gyda phartneriaid uwchradd o tua tair o bob pump i tua pedair o bob pump. Mewn nifer o achosion, yr ysgogwr ar gyfer canfod partneriaid priodol oedd Cynghorydd ysgol

- Roedd amrywioldeb eang mewn nodau **gweithio mewn partneriaeth** ac roedd y modd anffurfiol y cynhaliwyd llawer o'r gwaith hwn yn golygu mai prin oedd y dystiolaeth o fudd y gwaith mewn cynorthwyo ysgolion LlLl i gyflawni eu hamcanion gwella ysgol ar y cam hwn

**Cyfraniad Cynghorwyr Her**

16. Defnyddiodd y Cynghorwyr lawer iawn o ddisgresiwn yn sut roeddent yn ymgysylltu â'u hysgol(ion). Defnyddiasant y disgresiwn hwn i nodi'r heriau allweddol oedd yn dal perfformiad ysgol yn ôl ac yna gweithredu i fynd i'r afael â'r problemau hyn.

17. Lle nodwyd mai gallu'r Uwch Dîm Arwain oedd y prif rwystr i wella, roedd Cynghorwyr wedi cymryd ystod o rolau i sefydlogi'r ysgol, weithiau y tu hwnt i'r hyn a fyddai wedi ei ragweld gan 'gynghorydd' allanol.

18. Wrth i ysgolion wella, newidiodd y Cynghorwyr eu dull, gan ddod yn fwy o gyfaill beirniadol a chanolbwyntio mwy ar weithgareddau i helpu i wella ansawdd addysgu a dysgu ac ar wella hunanwerthuso, yn arbennig drwy well casglu a rheoli data yn yr ysgol.

19. Yn yr ysgolion a wnaeth gynnydd clir dros y ddwy flynedd, ehangodd y Cynghorwyr ystod eu gwaith i gynnwys gweithgareddau mewnol (yn canolbwyntio ar weithio gydag adrannau y teimlwyd oedd yn llai llwyddiannus neu effeithiol) a gweithgareddau allanol gyda chlystyrau neu ysgolion partneriaeth.

20. Yn gryno, gweithiodd Cynghorwyr fwy mewn partneriaeth gydag ysgolion oedd yn perfformio'n well ac roeddent yn fwy cyfeiriol gydag ysgolion a oedd yn cael anhawster.

21. Soniodd nifer o ysgolion LILI yn ffafriol am werth eu Cynghorydd mewn cefnogi gwelliant ym mherfformiad yr ysgol. Fodd bynnag, mynegodd y rhan fwyaf rai amheuon ynglŷn â sut y gellid ymwahanu gwerth y Cynghorydd oddi wrth ffactorau eraill a oedd ar waith oddi mewn a thu hwnt i'r ysgol.

22. Yn rhai o'r ysgolion mwy heriol, dywedwyd bod presenoldeb y Cynghorydd wedi bod yn **ffynhonnell o sefydlogrwydd a chefnogaeth**. Lle'r oedd arweinwyr yn agored welliant, cafodd y Cynghorydd fwy o gyfle i gynorthwyo'r ysgol i nodi ei phrif heriau a chynllunio ymyriadau priodol.

23. Roedd cryfder y berthynas rhwng y Cynghorydd a'r Pennaeth yn ganolog. Yn yr achosion prin lle nad oedd y Cynghorydd a'r Pennaeth wedi datblygu perthynas dda, cafodd hyn effaith negyddol ar allu'r Cynghorydd i ddylanwadu ar wella ysgol.

**Cyfraniad Byrddau Gwella Carlam (BGC)**

24. Roedd y canfyddiadau o rôl a gwerth BGC yn amrywio, er bod cytundeb cyffredinol ymhlith ystod eang o'r cyfweleion a'r ysgolion ynglŷn â gwerth a thryloywder y craffu a gynigiwyd gan y BGC. Yn ogystal, teimlwyd eu bod yn:

- cynnig teimlad o gyd gyfrifoldeb
- hwyluso datrys problemau
- darparu her a chefnogaeth
- modd o ddatblygu uwch arweinwyr ac arweinwyr canol

25. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod BGC wedi cael effaith anuniongyrchol yn hytrach nag uniongyrchol ar greu newid er mwyn dylanwadu ar berfformiad ysgolion. Mae BGC wedi gweithredu'n nodweddiadol fel mecanwaith cefnogi ar gyfer y Pennaeth a'r uwch dîm arwain yn eu rôl o hunanwerthuso ac ysgogi gwella ysgol.

26. Ar y cyfan mae BGC wedi bod yn fwy effeithiol pan eu bod wedi'u lleoli mewn amgylchedd derbyngar. Felly mae Pennaeth sy'n weithredol, galluog a brwd, gyda pherthynas gadarnhaol â'r Cynghorydd, UDA addawol a phryderus, a system rheoli data gref, i gyd yn nodweddion o ysgolion y mae BGC wedi gallu gweithio'n fwy effeithiol ynddynt.

27. Roedd BGC hefyd yn fwy effeithiol pan oedd gan fynychwyr brofiad perthnasol ac yn llai effeithiol pan gawsant eu hystyried yn elfen ychwanegol o fiwrocratiaeth.

**Cyfraniad cyllido HYC**

28. Roedd llawer iawn o amrywiaeth yn yr ymyriadau penodol y defnyddiodd ysgolion LILI y cyllid HYC ar eu cyfer, gan adlewyrchu cyd-destunau a heriau ysgolion unigol. Roedd ysgolion LILI yn cynnwys ysgolion a oedd yn gweithredu gyda diffyg yn eu cyllideb; seilwaith ysgol a oedd wedi ei esgeuluso’n ddifrifol; hanes o arweinyddiaeth wael yn arwain at gorff staff wedi’i esgeuluso ac wedi digalonni; carfan uwch na’r cyfartaledd o ddisgyblion prydau ysgol am ddim; bod mewn mesurau arbennig ac yn wynebu cyfres o argymhellion Estyn; neu roedd ganddynt berthynas negyddol gyda (neu gefnogaeth amhriodol gan) eu Consortiwm neu ALl.

29. Dangosodd dadansoddiad o ddefnydd cyllid HYC ymhlith ysgolion LILI yn 2014/15 fod pedwar categori bras ar gyfer y rhan fwyaf o’r gwariant: cefnogi ymyriadau ar gyfer disgyblion wedi’u targedu; cyrsiau DPP ar gyfer athrawon; buddsoddiad cyfalaf i wella amgylchedd dysgu’r ysgol a recriwtio staff cymorth ychwanegol.

30. Yn 2015/16 roedd ffocws y gwario mewn meysydd tebyg ond fe’i dylanwadwyd hefyd gan y cynnydd yr oedd ysgolion wedi ei wneud:

- Defnyddiodd ysgolion a oedd yn gallu nodi heriau’n gywir a llunio cynigion addas i fynd i’r afael â hwy y cyllid ar gyfer ymyriadau disgyblion a gweithgareddau cyfoethogi yr oeddent yn disgwyl iddynt arwain at ganlyniad tymor hwy.
- Wrth ddechrau mynd i’r afael ag arweinyddiaeth a rheolaeth, daeth ansawdd yr addysgu a’r dysgu yn flaenoriaeth uwch a neilltuodd ysgolion fwy o adnoddau ar gyfer DPP athrawon ac ymyriadau oedd wedi’u cynllunio i wella’r addysgu a’r dysgu.
- Gwelodd nifer o Benaethiaid y cyllido fel cyfle i fod yn fwy arbrofol nag y byddent wedi bod fel arall, yn cynnwys treialu mentrau newydd. Fodd bynnag, roedd rhai’n teimlo bod y dull hwn yn groes i ffocws Llywodraeth Cymru ar gynaliadwyedd.
- Parhaodd rhai ysgolion i ddioddef ansefydlogrwydd difrifol a lesteiriodd eu gallu i gynhyrchu cynllun neu gais cyllido effeithiol.

31. Cydnabu mwyafrif yr ysgolion na fyddent wedi gallu ariannu eu CDY yn llawn heb gyllid HYC, er mai cymysg oedd y farn ynglŷn ag i ba raddau yr oedd y

cyllido yn gyfrifol am ysgogi gwelliant ysgol. Roedd i ba raddau yr oedd yn cyfrannu at gyflawniad yn erbyn amcanion gwella ysgol yn dibynnu ar ansawdd yr hunanwerthuso a oedd yn tanategu'r Cynllun Datblygu Ysgol, pa mor briodol oedd yr amcanion yn y cynllun, pa mor addas oedd yr ymyriadau a gynlluniwyd a chymhwysedd y Pennaeth a'r UDA.

32. Yn gryno, mae'n ymddangos bod HYC wedi cefnogi llawer o welliannau mewn ysgolion LlLl, er bod ystod o ffactorau mewnol ac allanol eraill (yn cynnwys arweinyddiaeth) wedi chwarae rôl bwysig.

### Cyfraniad cyffredinol HYC

33. Prif nod y gwerthusiad oedd asesu i ba raddau y mae'r gefnogaeth a roddwyd ar gael i ysgolion LlLl wedi bod yn llwyddiannus wrth gefnogi gwelliant mewn perfformiad h.y. ystyried materion canlyniad ac effaith. Nid yw'r ddwy flynedd y bu'r HYC ar waith yn ddigon hir i asesu'n llawn ei heffaith ar 'ganlyniadau caled' (cyrhaeddiad a chynnydd) ar gyfer disgyblion mewn ysgolion LlLl.

34. Yn hytrach, mabwysiadodd y gwerthusiad ddull a hysbyswyd gan gysyniad Dadansoddiad Cyfraniad, a ddefnyddiodd dystiolaeth feintiol ac ansoddol. Gan ddefnyddio'r dull hwn, ystyriodd yr ymchwil natur ac i ba raddau y mae ffactorau allanol wedi cefnogi neu leihau llwyddiannau HYC. Gwnaeth hefyd ystyried beth allai gwneuthurwyr polisi ac eraill ei ddysgu wrth ddatblygu a gweithredu ymyriadau tebyg yn y dyfodol.

35. Mae'r dystiolaeth gan gyfweleion a deunyddiau dogfennol (yn cynnwys adroddiadau Estyn) yn awgrymu'r canlynol:

- roedd ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth wedi gwella yn y mwyafrif o ysgolion LlLl ar ôl cyfranogi yn HYC
- roedd y cynnydd mewn gwella ansawdd systemau a phrosesau hunanwerthuso yn amrywiol. Caiff gallu ysgol i gynnal hunanwerthusiad ei ystyried ar y cyfan fel rhywbeth sydd yn y pen draw yn ddibynnol ar gryfder arweinwyr ysgol
- caiff mynediad at gyllid HYC ei ganmol ar y cyfan am gefnogi newidiadau mewn perfformiad addysgu, gan gyfrannu at gyflwyniad DPP ac, mewn rhai achosion, ei ymestyn. Yn ymarferol, yn aml teimlwyd bod buddsoddiadau o'r fath wedi cyfrannu mwy at y newidiadau mewn ysgolion a oedd cyn hyn wedi bod yn dirywio (Grŵp A) neu'n sefyll yn ei hunfan (Grŵp B) yn hytrach nag mewn ysgolion a oedd eisoes wedi dechrau gwella (ysgolion Grŵp C)

- mewn dwy o bob pump o'r holl ysgolion LlLl, teimlwyd bod mewnbynnau HYC yn bennaf, neu'n gyfan gwbl, gyfrifol am y newidiadau mewn ymgysylltiad disgyblion, gydag ysgolion yn recriwtio staff cymorth yn ganolog i'w dull ar gyfer gwella ymgysylltiad disgyblion. Roedd rhai ysgolion yn optimistaidd ynglŷn â chynaliadwyedd gwelliannau canfyddedig mewn presenoldeb disgyblion, gan obeithio sicrhau bod presenoldeb da yn dod yn rhywbeth arferol. Roedd eraill yn llai gobeithiol ynglŷn â'r posibilrwydd o gynnal cynnydd unwaith y byddai'r cyllid HYC wedi dod i ben.

36. Cyfrannodd HYC at gyflwyniad DPP mewn ysgolion LlLl ac, mewn rhai achosion, cafodd ei ymestyn. Nid yw'n glir hyd yma pa mor drawsnewidiol fu hyn. Nid yw'r rhaglen wedi bod yn gweithredu am gyfnod digon hir i fod wedi arwain at newid mewn diwylliant ysgol gyfan o ran y dulliau ar gyfer addysgu a dysgu, er ei fod wedi bod o fudd i'r rheini sydd wedi cyfranogi mewn gweithgareddau DPP a gweithgareddau cysylltiedig â pherfformiad.

37. **Yn gryno**, rhoddodd y gwerthusiad fewnwelediad cyfoethog i gymhlethdod gwella ysgol, dangosodd werth diagnosis gofalus o drywydd ysgolion unigol, ac amlygodd bwysigrwydd cefnogaeth wedi'i theilwra a gynorthwyodd yn benodol i ddiwallu'r anghenion hynny. Er bod cyfweleion ysgolion yn dueddol o deimlo mai cyllido HYC oedd y prif ffactor mewn galluogi gwelliannau, defnydd deallus ac wedi'i dargedu o'r cyllid a gafodd effaith fwyaf. Roedd gan Gynghorwyr Her rolau amlwg i'w chwarae yn hyn o beth (er na chawsant eu cydnabod yn llawn bob amser).

# 1. Rhagymadrodd

1.1 Cyflwyna'r adroddiad hwn gasgliadau ymchwil a gynhaliwyd gan SQW ar ran Llywodraeth Cymru fel rhan o'r gwerthusiad annibynnol o Her Ysgolion Cymru (HYC). Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar gyfraniad HYC mewn gwella perfformiad ysgolion Llwybrau Llwyddiant (LlLl), a wnaeth elwa gan gyfran o'r cyllido HYC.

1.2 Cynhaliwyd Her Ysgolion Cymru a LlLl o 2014/15 hyd 2016/17 (tair blwyddyn academaidd). Daw casgliadau'r adroddiad hwn o waith maes a gynhaliwyd yn yr ysgolion LlLl o fis Mai hyd fis Gorffennaf 2016 (h.y. yr ail flwyddyn) ac maent yn adeiladu ar yr ymchwil (Carr a Morris, 2015) a gynhaliwyd ym mlwyddyn gyntaf HYC (h.y. mis Mai hyd fis Gorffennaf 2015). Felly, nid yw'r gwerthusiad yn ymdrin â thrydedd blwyddyn, a blwyddyn olaf, Llwybrau Llwyddiant. Lle bo hynny'n briodol, rydym hefyd yn cynnwys canfyddiadau eglurhaol o arolygon a gynhaliwyd gan ddisgyblion ym Mlwyddyn 6 (ysgolion cynradd a oedd yn bwydo) a Blynyddoedd 7, 8, 9 a 10. Gellir gweld cyflwyniad mwy manwl o ganlyniadau'r arolygon 'llais y disgybl' hyn yn Morris, Carr a Hardy (i ddod yn fuan).

## Her Ysgolion Cymru

1.3 Roedd rhaglen HYC, a lansiwyd ym mis Mehefin 2014 ac a gyflwynwyd i ysgolion ym mis Medi 2014, yn ymdrech gydunol gan Lywodraeth Cymru i ymateb i amrywioldeb ym mherfformiad gwahanol ysgolion ar draws Cymru o ran cefnogi datblygiad eu disgyblion, yn arbennig y rheini o gefndiroedd o amddifadedd. Rhoddwyd £40 miliwn ar gael i gefnogi cyflawniad HYC yn ystod y ddwy flynedd gyntaf. Rhoddwyd cyfran o'r adnoddau ar gael i 40 o ysgolion Llwybrau Llwyddiant (LlLl)[1] a'u clystyrau ehangach (pob un fel arfer yn cynnwys yr ysgolion cynradd oedd yn ei bwydo), a rhoddwyd cyllid ar gael i'r Consortia Addysg Rhanbarthol [2] er mwyn cynorthwyo i feithrin gallu o fewn y system addysg ehangach.

1.4 Wedi'i nodi'n wreiddiol gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â'r Consortia, targedwyd cefnogaeth at yr ysgolion hynny a nodwyd fel rhai a oedd yn tanberfformio ac yn wynebu'r rhwystrau mwyaf i wella. Defnyddiodd HYC wersi a ddysgwyd o fentrau blaenorol o'r math, yn arbennig Her

[1] Noder y gwnaeth dwy o'r 40 ysgol wreiddiol uno yn fuan wedi i'r rhaglen ddechrau, gan adael 39 o ysgolion LlLl.

[2] Mae pedwar Consortia Addysg Rhanbarthol: Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (CSCJES); Gwasanaeth Cyflawn i Addysg De Ddwyrain Cymru (SEWEAS), ERW a'r GwE cwbl ddwyieithog. Gelir gweld manylion llawn yr Awdurdodau Cyfranogol ar-lein yn Llywodraethwyr Cymru.

Llundain, a gynhaliwyd o 2003 hyd 2011. Ymunodd dwy ardal newydd, Manceinion Fwyaf a'r Wlad Ddu, a'r fenter yn 2008 ac wedi hynny fe'i galwyd yn Her Dinasoedd (Hutchings *et al*., 2012). Anogwyd ysgolion LlLl i ystyried ansawdd eu harweinyddiaeth a rheolaeth, addysgu a dysgu, ac effeithiolrwydd eu gwaith gyda'r gymuned ehangach. Trwy wneud gwelliannau yn y meysydd hyn, gobeithiwyd y byddai LlLl yn cefnogi gwelliant mewn canlyniadau dysgu disgyblion, yn ogystal â dysgu gwersi i gefnogi'r system addysg ehangach i wella.

1.5 Rhwng mis Mehefin 2014 a diwedd blwyddyn academaidd 2015/2016, gwariwyd £29,280,736 o'r £40 miliwn a neilltuwyd i gefnogi gweithrediad HYC ar gefnogaeth i ysgolion LlLl (roedd bron i bedair rhan o bump o hwn ar gymorth refeniw). Gan fod yn ystyriol o wahanol anghenion yr ysgolion hyn, roedd cefnogaeth yn cynnwys nifer o wahanol elfennau. Y disgwyliad oedd y byddai'r cyfuniad o ymyriadau yn cefnogi gwelliant ym mherfformiad pob ysgol. Disgrifir yr elfennau allweddol isod.

*1. Cynghorwyr Her Ysgolion Cymru*

1.6 Clustnodwyd Cynghorydd Her Ysgolion Cymru (a elwir yn Gynghorydd wedi hyn) i bob ysgol LlLl. Roedd disgwyl i'r Cynghorwyr chwarae rôl weithredol mewn cefnogi prosesau gwella eu hysgolion. Wedi'u recriwtio gan Lywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â'r Consortia, roedd y Cynghorwyr yn darparu hyd at 25 diwrnod o gefnogaeth broffesiynol i bob ysgol LlLl bob blwyddyn.

1.7 Er mwyn darparu rhyngwyneb rhwng y Cynghorwyr a Llywodraeth Cymru, clustnodwyd hefyd swyddog cyswllt penodol i bob ysgol LlLl. Rhoddodd aelod penodol o'r Grŵp Hyrwyddwyr HYC gefnogaeth ychwanegol [3]. Mewn cyfarfodydd misol, a gadeiriwyd gan yr Athro Mel Ainscow (Hyrwyddwr penodedig Llywodraeth Cymru ar gyfer HYC), cafodd y Cynghorwyr gyfle i rannu arfer effeithiol a thrafod sut y gallai HYC gael yr effaith orau. Fel rhan o'u rôl mewn monitro perfformiad, roedd yr Hyrwyddwyr yn gyfrifol am sicrhau ansawdd gwaith Cynghorwyr unigol.

*2. Cyllid Her Ysgolion Cymru*

1.8 Roedd cyfle i ysgolion LlLl wneud cais am gyllid ychwanegol i'w cynorthwyo i oresgyn eu rhwystrau i wella. Gan fod yn ystyriol o'r gwahanol heriau oedd yn wynebu pob ysgol LlLl, roedd hi'n ofynnol i Uwch Arweinwyr (mewn partneriaeth â'u Cynghorydd a gyda chefnogaeth gan eu Hyrwyddwr) i

[3] Mae'r Grŵp Hyrwyddwyr, a gadeirir gan yr Athro Mel Ainscow yn cynnwys Dewi Lake, Debbie Lewis, Syr Alasdair MacDonald ac Alan Tudor Jones. Gwaith y grŵp oedd monitro perfformiad y rhaglen a sicrhau y caiff yr effaith gorau posibl

gyflwyno ceisiadau yn flynyddol. Roedd yn rhaid i bob cais ddangos sut y byddai cyllid HYC yn cyfrannu at gynllun datblygu cyffredinol ysgol ac ychwanegu at (yn hytrach na dyblygu) weithgaredd wedi'i gynllunio. Ni osodwyd nenfwd ar gyfer ceisiadau am gyllid, er y gofynnwyd i Uwch Arweinyddion ystyried cynaliadwyedd unrhyw weithgareddau a gefnogwyd gan y cyllid. Llywodraeth Cymru oedd yn cadarnhau ceisiadau unigol, gydag arian yn cael ei dalu drwy'r Consortiwm Addysg perthnasol. Y Bwrdd Gwella Carlam ym mhob ysgol oedd â'r cyfrifoldeb yn y man cyntaf am fonitro gwariant HYC. Y Consortia (gyda phob un ohonynt â Swyddog Cyswllt HYC penodedig) oedd yn goruchwylio taliad priodol cyllid HYC.

*3. Bwrdd Gwella Carlam*

1.9 Fel amod o'u cyfranogiad yn HYC, roedd hi'n ofynnol i ysgolion LlLl sefydlu Bwrdd Gwella Carlam (BGC). Awgrymodd canllaw gan Lywodraeth Cymru y dylai'r Bwrdd gyfarfod yn fisol ac y dylai fod â chynrychiolaeth yn cynnwys Pennaeth yr ysgol LlLl (a ddylai, lle bo hynny'n briodol, hefyd gadeirio'r cyfarfod), Cadeirydd Llywodraethwyr, cynrychiolwyr Awdurdod Lleol, y Cynghorydd penodedig, a Phennaeth ysgol gynradd o fewn yr un clwstwr o ysgolion. Bwriad BGC oedd dal Uwch Arweinwyr i gyfrif ym mhob ysgol LlLl am weithredu'r strategaeth gwella ysgol yr oeddent wedi ei dewis a sicrhau bod unrhyw gyllid ychwanegol a gyrchwyd trwy HYC yn cael ei wario'n effeithiol (Llywodraeth Cymru, 2014).

*4. Cynllun Datblygu Ysgol*

1.10 Roedd yn rhaid i bob ysgol LlLl hefyd (gyda chymorth eu Cynghorydd) sicrhau bod eu Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) yn gyson â chanllaw newydd gan Lywodraeth Cymru, cyn iddo ddod yn ofyniad gorfodol ym mis Medi 2015. Nododd y canllaw y dylai'r cynllun roi eglurhad cynhwysfawr o sut oedd yr ysgol yn bwriadu goresgyn ei rhwystrau i wella. Yn y cynlluniau roedd disgwyl i ysgolion nodi eu blaenoriaethau a'u targedau tymor byr a thymor hwy (cynaliadwy), y dulliau fyddai'n cael eu defnyddio, ac ar ba sail y byddai perfformiad yr ysgol yn cael ei asesu yn erbyn canlyniadau a ragfynegir. Roedd disgwyl i ysgolion hefyd gostio'r gweithgareddau a gynigiwyd yn y cynllun (yn ddelfrydol gyda chyfeiriad at ffynhonnell y cyllid a fyddai'n cael ei ddefnyddio i'w cefnogi).

**Ysgolion Llwybrau Llwyddiant**

1.11 Er mai'r bwriad oedd targedu ysgolion mwy *'heriol'*, wrth ddewis ei hysgolion LlLl cydnabu Llywodraeth Cymru yn glir y ffaith bod gwahanol ysgolion yn debygol o wynebu *'gwahanol heriau'* (Llywodraeth Cymru, 2014a). Er mwyn

adlewyrchu hyn, defnyddiwyd amrywiaeth o ddangosyddion i greu rhestr gychwynnol o ysgolion LlLl posibl. Gan ddefnyddio **cyfartaledd tair blynedd**, defnyddiodd Lywodraeth Cymru ddata perfformiad ysgol i nodi'r rhestr hir hon o ysgolion, y dewiswyd y 40 terfynol ohoni mewn ymgynghoriad â Consortia[4].

1.12 Datgelodd ystyriaeth o berfformiad hanesyddol ysgolion LlLl bod amrywioldeb yn natur a lefel yr her a wynebwyd gan ysgolion LlLl cyn eu cynnwys yn HYC. Nid yw archwiliad o ddata perfformiad ym mlwyddyn yr ymyrraeth yn rhoi digon o fewnwelediad i pam fod rhai ysgolion yn rhan o'r cynllun. Yn 2014, er enghraifft, pan oedd cyfartaledd cenedlaethol disgyblion a oedd yn cyrraedd Lefel 2 Cynhwysol yng Nghyfnod Allweddol 4 (L2C) yn 55.4%, roedd gan un ysgol LlLl gyfran amlwg uwch o ddisgyblion (70.7%) yn cyflawni'r lefel hon. Roedd y gyfran isaf o ddisgyblion a oedd yn cyflawni'r meincnod L2C mewn ysgol LlLl yn 21.5%, gwahaniaeth o 49.2 pwynt canran o gymharu â'r ysgol LlLl oedd yn perfformio orau a 33.9 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd lefelau amddifadedd economaidd gymdeithasol yr un mor amrywiol. Yn 2014, er enghraifft, pan oedd cyfartaledd cenedlaethol y disgyblion a oedd yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn 17.5%, roedd 43.0% o'r disgyblion mewn un ysgol LlLl yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, gan awgrymu lefelau uchel o amddifadedd. Yn yn yr ysgol LlLl a oedd yn dioddef y lleiaf o amddifadedd roedd 11.4% o'r disgyblion yn gymwys (6.1 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol).

1.13 Daeth cyfuniad o dystiolaeth o'r gwerthusiad yn 2014/15 i'r casgliad bod y rhesymeg ar gyfer cynhwysiant yn amrywio ac er bod y dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion LlLl wedi'u hysbysu'n bennaf gan eu trywydd cyn eu cynnwys yn HYC, cawsant hefyd eu hysbysu gan berfformiad eu harweinwyr ysgol. Yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn, awgrymodd y tîm gwerthuso dri grŵp cyd-destunol ar gyfer dulliau LlLl:

- **Grŵp A:** Ysgolion yr oedd ansawdd y ddarpariaeth fel petai wedi bod yn **gwaethygu** cyn ymgysylltu â HYC ac a oedd mewn perygl o ddirywiad pellach. Cafodd **wyth** o ysgolion LlLl eu nodi'n ysgolion Grŵp A.
- **Grŵp B:** Ysgolion yr oedd ansawdd y ddarpariaeth fel petai'n **sefydlog** cyn ymgysylltu â HYC ond teimlwyd eu bod angen gwella. Aseswyd **un ar bymtheg** o ysgolion LlLl fel rhai nodweddiadol o ysgolion Grŵp B.
- **Grŵp C:** Ysgolion yr oedd ansawdd y ddarpariaeth wedi **dechrau gwella** cyn ymgysylltu â HYC (er eu bod yn dal llawer yn is na'r

[4] Yn dilyn y broses ddethol ysgolion LlLl wreiddiol, mae dwy o'r ysgolion hyn wedi uno. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y 39 sy'n weddill.

cyfartaledd cenedlaethol. Disgrifiwyd **pedair ar ddeg** o ysgolion LlLl fel rhai oedd yn gweddu orau i'r grŵp hwn.

### Nodau a dyluniad y gwerthusiad

1.14 Prif nod y gwerthusiad oedd asesu i ba raddau y mae'r gefnogaeth a roddwyd ar gael i ysgolion LlLl wedi bod yn llwyddiannus mewn cefnogi gwelliant yn eu perfformiad h.y. ystyried materion canlyniad ac effaith. Fodd bynnag, wrth ddatblygu dull priodol i gyflawni'r nod hwn, cydnabuwyd o'r dechrau gyfyngiadau defnyddio dulliau traddodiadol, arbrofol neu lled-arbrofol mewn ymateb i gymhlethdod yr ymyrraeth a gwahaniaethau yn y dulliau a ddefnyddiwyd gan ysgolion LlLl.

1.15 Yn hytrach, mabwysiadodd y gwerthusiad ddull a hysbyswyd gan theori Dadansoddiad Cyfraniad (y mae ei gefnogwyr allweddol yn cynnwys John Mayne (2011)). Mae'r gwerthusiad yn osgoi unrhyw feintoliad amlwg (y gallai rhywun ddadlau sy'n amhriodol) y priodolir HYC i unrhyw newid ym mherfformiad ysgolion LlLl o blaid mesur 'meddalach' o'i gyfraniad (gan ddefnyddio tystiolaeth feintiol ac ansoddol). Gan ddefnyddio'r dull hwn, ystyriodd yr ymchwilwyr natur ac i ba raddau y mae ffactorau allanol wedi cefnogi neu leihau llwyddiant HYC. Ystyriwyd hefyd beth allai gwneuthurwyr polisi ac eraill ddysgu ar gyfer datblygu a gweithredu ymyriadau tebyg yn y dyfodol.

*Nodau ac amcanion y gwerthusiad*

1.16 Fel y nodir yn y canllaw lefel rhaglen a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru (2014a), byddai gwelliant mewn canlyniadau dysgu disgyblion yn ddymunol, ond ni all (ac yn wir ni ddylai) fod yr unig ddeimensiwn a ddefnyddir i asesu perfformiad ysgol. Oherwydd hyn roedd y gwerthusiad wedi ceisio deall unrhyw newidiadau mewn canlyniadau dysgu disgyblion o fewn cyd-destun newidiadau mewn meysydd allweddol eraill, megis:

- **arweinyddiaeth a rheolaeth**, yn cynnwys strategaethau i wella sgiliau a chymwyseddau Uwch Arweinwyr a newidiadau mewn prosesau a gweithdrefnau
- **addysgu a dysgu**, yn cynnwys technegau a ddefnyddir i nodi a chefnogi gwelliannau mewn gwybodaeth pwnc ac arfer addysgeg, a chefnogi defnydd mwy effeithiol o asesiad ffurfiannol a chrynodol
- **ymgysylltiad disgyblion**, yn cynnwys strategaethau a fabwysiadwyd i wella lles a phresenoldeb disgyblion a lleihau achosion o ymddygiad negyddol ynghylch yr ysgol.

1.17 Mae'r gwerthusiad yn ceisio deall unrhyw wahaniaethau mewn perfformiad a chanfod beth sydd wedi cyfrannu at unrhyw welliannau a nodwyd yn yr ysgolion LILI, gan gydnabod bod amrywioldeb yn yr angen a swm/math y gefnogaeth a dderbyniwyd ganddynt.

*Dyluniad yr ymchwil*

1.18 Defnyddiwyd model rhesymeg trosfwaol i hysbysu dyluniad yr ymchwil ar gyfer yr astudiaeth (cafodd y model SQW gwreiddiol ei gynnwys yn yr adroddiad gwerthuso cyntaf). Yn ystod y gwerthusiad diweddarwyd a mireiniwyd y model a nodwyd rhai cysyniadau newid, yn ymwneud â strategaeth, darpariaeth a manteision y rhaglen LILI. Fel y nodir yn Ffigur 2-1, mae'r model hwn yn crynhoi:

- **cysyniadau gwaelodol newid** ar gyfer HYC (yn cynnwys y byddai mynediad at raglen gefnogi bwrpasol o fewn fframwaith cyffredin yn cynorthwyo i nodi rhwystrau i gynnydd mewn ysgolion LILI a chefnogi gwelliannau mewn arweinyddiaeth a rheolaeth, addysgu a dysgu ac ymgysylltu â'r gymuned)
- y **tybiaethau** polisi ac arfer gwaelodol i'r ymyrraeth (mae nifer o dybiaethau, yn cynnwys gallu ysgolion LILI i weithio'n effeithiol gydag ysgolion cynradd clwstwr, yn tanategu lefel llwyddiant HYC )
- y gwahanol **fewnbynnau** sy'n deillio o gyflwyniad HYC (yn cynnwys mynediad at gefnogaeth gan Gynghorydd a'r cyfle i wneud cais am gyllid ychwanegol)
- y berthynas ddisgwyliedig rhwng y mewnbynnau a'r **allbynnau** a ragwelir, megis y modd y cafodd cyllid HYC ei ddefnyddio
- y **canlyniadau a ragwelwyd** (tymor byr a hirdymor), a allai gynnwys gwelliannau yn ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion LILI, ansawdd yr addysgu a'r dysgu, ac mewn ymgysylltiad disgyblion
- yr **effaith** a ragamcanwyd ar gyfer yr ymyriadau, yr oedd disgwyl iddynt, ar y dechrau, gynnwys gwelliant yng nghanlyniadau dysgu disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 (yn arbennig cyfran y disgyblion oedd yn cyrraedd Lefel 2 Cynhwysol) a lleihad yn y bwlch rhwng perfformiad disgyblion a oedd yn gymwys am brydau ysgol am ddim a'u cyfoedion.

**Ffigur 1-1: Model Rhesymeg Cryno ar gyfer Her Ysgolion Cym**

| Cyd-destun | Nodau ac amcanion | Mewnbynnau | Gweithgareddau | Allbynnau | Canlyniadau | Effeithiau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| • Lefel cyrhaeddiad/safonau addysgol isel mewn ysgolion gydag amgylchiadau economaidd-gymdeithasol gwael<br>• Cydweithredu prin rhwng ysgolion<br>• Strategaethau gwella ysgol presennol yn cynnwys y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol | • Gwella ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth gan arwain at well hunanwerthuso a chynllunio gwelliant<br>• Gwella ansawdd athrawon, wedi'i gefnogi gan gynnydd yn ansawdd /amlder cydweithredu cymar i gymar<br>• Gwella canlyniadau ar gyfer yr holl ddysgwyr a lleihau effaith amddifadedd ar gyflawniad disgybl | • Cyllido ac arbenigedd i gefnogi hyd at 40 o ysgolion uwchradd (ac ysgolion cynradd clwstwr). Mae'r elfennau allweddol yn cynnwys:<br>• Canllaw ar lefel rhaglen<br>• Tîm o Gynghorwyr Her Ysgolion Cymru<br>• Argaeledd cyllido cyfalaf/refeniw<br>• Cyswllt gyda'r Consortia Addysg Rhanbarthol ac ati | • Cefnogaeth gan Gynghorwyr Her Ysgolion Cymru<br>• Rhoi Cynlluniau Datblygu Ysgol (CDY) ar waith gan ddefnyddio Cyllid HYC<br>• Monitro perfformiad ysgol yn rheolaidd gan Fyrddau Gwella Carlam (BGC) | • CDYau wedi'u cwblhau<br>• Cyfarfodydd BGC<br>• Staff yn cael hyfforddiant neu gefnogaeth | • Cynnydd mewn hyder /lefelu sgiliau ymhlith uwch arweinwyr/athrawon dosbarth<br>• Gwelliannau yn ansawdd yr arweinyddiaeth a rheolaeth<br>• Gwelliannau yn ansawdd yr addysgu | • Gwella canlyniadau dysgu ar gyfer pobl ifanc yng Nghyfnod Allweddol 3 a 4.<br>• Culhau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad disgyblion difreintiedig a'u cyfoedion<br>• Gwell ymgysylltu disgyblion |

**Theori newid – Strategaeth**

- Mae ysgolion sydd mewn amgylchiadau mwy heriol angen cefnogaeth ychwanegol er mwyn codi cyrhaeddiad a goresgyn problemau
- Mae angen i gefnogaeth o'r fath dargedu dulliau arweinyddiaeth, strategaethau addysgu a dysgu, ac ymgysylltiad disgyblion

**Theori newid – Darpariaeth**

- Bydd cefnogaeth benodol gan ddefnyddio mewnbwn arbenigol o fewn fframwaith cyffredin yn cynorthwyo i nodi rhwystrau at gynnydd, yn arwain at well addysgu, dysgu a llywodraethu ac yn hybu gwelliant cyflym

**Theori newid – Manteision**

- Bydd gwell addysgu a dysgu yn arwain at:
  - Well canlyniadau ar gyfer disgyblion difreintiedig
  - Gwell canlyniadau ar gyfer yr holl ddisgyblion
  - Gwell ymgysylltiad disgyblion
  - Bydd gwell llywodraethu yn arwain at well raddau arolwg

Ffynhonnell: SQW

**Ffynonellau tystiolaeth**

1.19 Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar y dystiolaeth o ail flwyddyn HYC mewn ysgolion LILI ac yn edrych ar aeddfedrwydd cynyddol y rhaglen. Yn ychwanegol at y casgliad o ddata ansoddol manwl, mae'n cynnwys dadansoddiad o gyrhaeddiad a phresenoldeb. Mae'n defnyddio dull Dadansoddiad Cyfraniad i ddwyn ynghyd y data ansoddol a meintiol er mwyn rhoi mewnwelediadau i gyfraniad cymharol cefnogaeth HYC i newid mewn ysgolion LILI. Cafwyd y data ar gyfer y cam hwn o'r astudiaeth werthuso (2015/16) o:

- adolygiadau desg o ddogfennau oedd ar gael yn gyhoeddus a dogfennau penodol HYC, Cynlluniau Datblygu Ysgol ac adroddiadau Cynghorwyr. Yn ychwanegol at y dogfennau a adolygwyd ar gyfer 2014/15 ac yr ailymwelwyd â hwy y flwyddyn hon (yn cynnwys Ysgol ar dudalen a Chynlluniau Datblygu Ysgol), archwiliodd y tîm ymchwil ystod eang o ddogfennau penodol i'r ysgolion yn cynnwys adroddiadau BGC, adroddiadau Estyn, gwybodaeth a anfonwyd ar rieni, adroddiadau hunanwerthuso ac adroddiadau tracio.
- cyfweliadau manwl gydag 14 o Gynghorwyr Her HYC[5]
- Cyfweliadau wedi'u rhan-strwythuro gyda saith cynrychiolydd awdurdod lleol a chonsortia
- ymweliadau â phob clwstwr LILI. Cwblhawyd 182 o gyfweliadau wedi'u rhan-strwythuro yn ystod yr ymweliadau, ac roeddent yn cynnwys:
  - penaethiaid/Uwch Arweinwyr ac aelodau eraill o staff mewn ysgolion LILI, eu hysgolion cynradd clwstwr a'u hysgolion partner
  - aelodau eraill o BGC gweithredol
  - cadeiryddion cyrff llywodraethu ysgolion
- dwy don o arolwg archwiliadol a gynhaliwyd gyda disgyblion ym Mlynyddoedd 6, 7 a 9 yn 2014/15 ac ym Mlynyddoedd 7, 8 a 10 yn 2015/16. Ar draws y ddwy don roedd 5,782 o ymatebwyr, a chafodd 782 ohonynt eu tracio a gwnaethant lenwi'r holiadur yn y ddwy flynedd (cyfanswm o 6,364 o ymatebion).

[5] Noder y bu rhai newidiadau yn y Cynghorwyr Her ar gyfer ail flwyddyn y prosiect (Gweler Pennod 5). Cafodd rhai o'r rheini a gyfwelwyd yn 2014/15 eu hail-gyfweld yn 2015/16, roedd eraill yn rhai newydd.

*Strwythur yr adroddiad*

1.20 Mae'r penodau sy'n weddill o'r adroddiad hwn yn archwilio:

- y dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion LlLl wedi iddynt gael eu cynnwys yn HYC, gan ystyried nodweddion tebyg a gwahanol yn y dulliau a fabwysiadwyd ganddynt ac archwilio'r rhesymau am y dulliau hyn (Pennod 2)
- y cynnydd a wnaed gan ysgolion LlLl ers cyflwyno HYC, gan archwilio canlyniadau ar gyfer disgyblion (yn bennaf cyrhaeddiad, presenoldeb, ond hefyd yn archwilio newid mewn agwedd), a'r canlyniadau ar gyfer yr ysgolion mewn perthynas ag arweinyddiaeth a rheolaeth ac ansawdd yr addysgu (Pennod 3)
- y rôl a chwaraewyd gan ganllaw ar lefel rhaglen (Pennod 4), Cynghorwyr Her (Pennod 5), Byrddau Gwella Carlam (Pennod 6), a chyllido HYC (Pennod 7) yn y newidiadau a wnaed mewn ysgolion LlLl
- cyfraniad cyfunol pob un o'r elfennau hyn o HYC mewn cefnogi gwelliannau mewn arweinyddiaeth a rheolaeth, hunanwerthuso, ansawdd addysgu, ymgysylltiad disgyblion, canlyniadau dysgu a gwelliant cyffredinol (Pennod 8)
- y dysgu o'r rhaglen y dylid ei ystyried mewn perthynas ag agweddau ar wella ysgol (Pennod 9).

## 2. Deall y dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion LILI

**Crynodeb o'r casgliadau allweddol**

Erbyn 2015/16 roedd tystiolaeth o gynnydd yn y ffyrdd yr oedd ysgolion LILI yn edrych ar ac yn gweithredu strategaethau gwella ysgol ac yn arbennig o ran **gwella ansawdd athrawon**. Yn gryno:

- roedd pob ysgol LILI nawr yn dweud bod ganddynt raglen o weithgareddau gwella ysgol a oedd yn canolbwyntio ar wella ansawdd athrawon, gan adlewyrchu
  - y flaenoriaeth gynyddol yr oedd cyfweleion yn ei rhoi i'r maes hwn
  - mwy o hyder ymhlith uwch arweinwyr yn eu gallu i roi gweithgareddau gwella ysgol ar waith
- roedd mwy o bwyslais nac yn 2014/15 ar feithrin gallu athrawon unigol a oedd eisoes yn gweithio mewn ysgolion LILI, yn hytrach na thynnu staff newydd i mewn
- roedd ffyrdd o weithio gydag ysgolion partner wedi gwella, gyda mwy o bwyslais ar raglenni DPP ar y cyd a datblygu atebion a rennir i'r heriau a wynebwyd gan y ddwy ysgol
- roedd y pwyslais cynnar ar yr angen i wella ansawdd hunanwerthuso a chynllunio datblygu ysgol yn llai amlwg wrth i systemau o'r fath ddod yn rhai sefydledig
- roedd pwyslais cynyddol ar wella ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth, gyda nifer o ysgolion yn buddsoddi mwy yn natblygiad arweinwyr canol i sicrhau bod arferion effeithiol yn cael eu rhaeadru i lawr yr ysgol.

2.1 Mae'r adran hon yn adolygu'r dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion LILI wedi iddynt gael eu cynnwys yn HYC, yn ystyried unrhyw nodweddion tebyg neu wahanol o ran y dulliau y maent wedi eu mabwysiadu ac yn archwilio'r rhesymau dros y rhain. Gan ddefnyddio adborth gan randdeiliaid allweddol mewn ysgolion LILI, gwnaethom ystyried a oedd ysgolion LILI yn rhannu model gwella ysgol cyffredin ac i ba raddau y mae hyn yn gyson â'r model a gynigiwyd yn yr adroddiad gwerthuso cyntaf (Carr C a Morris M, 2016).

### Cysyniadu'r dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion LILI

2.2 Dangosodd dadansoddiad o ddata gwaith maes o 2014/15 bod ysgolion LILI wedi datblygu dulliau cyffredin i oresgyn eu rhwystrau i wella. Fodd bynnag, roedd gwahanol lefelau o fuddsoddiad mewn gwahanol fathau o weithgarwch.


Er enghraifft, roedd y buddsoddiad cymharol mewn gweithgareddau a gynlluniwyd i gefnogi gwelliannau yn effeithiolrwydd arweinwyr ysgol yn wahanol i'r un a ddefnyddiwyd ar gyfer gweithgareddau a gynlluniwyd i gefnogi gwelliannau mewn ansawdd athrawon (Carr C a Morris M, 2016).

2.3 Yn seiliedig ar y data oedd ar gael ar y cam hwnnw, gellir egluro gwahaniaethau o'r fath yn rhannol gan natur (a difrifoldeb) anghenion datblygu'r ysgol a'r tybiaethau clir ynglŷn ag effeithiolrwydd cymharol gwahanol weithgareddau gwella ysgol. Yn allweddol ymhlith y rhain roedd y canlynol:

- byddai gwelliannau mewn arweinyddiaeth a rheolaeth yn cynorthwyo i nodi amcanion gwella ysgol priodol
- byddai gwelliannau yn ansawdd yr addysgu yn cefnogi gwelliant mewn ymgysylltiad disgyblion
- byddai cynnydd mewn ymgysylltiad disgyblion yn cefnogi gwelliant yng nghanlyniadau dysgu disgyblion (Carr C a Morris M, 2016)

2.4 Wrth ystyried adborth gan randdeiliaid allweddol mewn ysgolion LILI yn 2015/16, bu'n bwysig ystyried i ba raddau yr oedd y dulliau a fabwysiadwyd yn gyson â'r rheini a fabwysiadwyd yn 2014/15 ac i ba raddau y mae'r model gwella ysgol (fel y'i cyflwynir yn Ffigur 2.1) yn parhau i fod yn ddefnyddiol wrth egluro ymddygiad ysgolion.

**Ffigur 2-1: Cysyniadu'r dulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion LILI**



### Amcanion gwella ysgol

2.5 Yn gyson ag arfer effeithiol (gweler Estyn, 2014), roedd gofyn i ysgolion LILI gynhyrchu cynllun datblygu ysgol (CDY) er mwyn cyrchu cyllid HYC. Roedd disgwyl i'r cynllun hwn nodi amcanion gwella ysgol (AGY) a'r gweithgaredd a fyddai'n cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â hwy. Erbyn 2015/16, roedd gan bob ysgol LlLl gynllun o'r fath ar waith.

2.6 Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd yr AGY oedd wedi'u nodi yn y cynllun presennol yn gyson â'r rheini a adolygwyd yn 2014/15. Mae dilyniant o'r fath yn bwysig mewn asesu perfformiad cyffredinol ysgolion LlLl ac er mwyn profi i ba raddau yr oedd y tybiaethau a oedd yn tanategu'r dulliau a fabwysiadwyd yn ddilys. Er enghraifft, pe bai uwch arweinydd wedi dewis gwneud newidiadau mawr i'w ddull ar gyfer gwella ysgol o un flwyddyn i'r llall, byddai'n anodd asesu i ba raddau yr oedd y naill ddull yn effeithiol/aneffeithiol. Pe bai nifer sylweddol o ysgolion yn gwneud newidiadau o'r fath, byddai'n anodd asesu i ba raddau yr oedd unrhyw ddull yn fwy neu'n llai llwyddiannus o ran cefnogi gwelliant.

2.7 Yn ymarferol, mae'r nifer cymharol fechan o ysgolion LlLl (chwech) lle gwnaeth uwch arweinwyr newidiadau o'r fath yn golygu na chafwyd heriau mawr wrth ddadansoddi. Mae'n bwysig, fodd bynnag, ystyried y rhesymau pam fod uwch arweinwyr wedi gwneud newidiadau o'r fath yn eu dull ar gyfer gwella ysgol a beth all hyn ei ddweud wrthym am effeithiolrwydd HYC yn yr ysgolion hyn.

2.8 Mewn pump o'r chwe ysgol a wnaeth newidiadau mawr i'w AGY ers iddynt gael eu cynnwys yn HYC, dywedodd y cyfweleion mai cael arolwg Estyn siomedig oedd prif ysgogwr hyn. Roedd yr argymhellion a wnaeth yr arolygwyr i'r ysgolion hyn wedi bod yn sail i gynllun gweithredu ôl-arolwg (hyd yn oed pan nad oedd hyn yn orfodol[6]). Ym mhob achos, roedd y cynllun hwn wedi disodli'r CDY fel yr ysgogwr ar gyfer gweithgarwch gwella ysgol. Lle'r oedd Estyn wedi gwneud argymhellion a oedd yn gofyn i newidiadau gael eu gwneud i AGY, mae'n bwysig ystyried pa mor briodol oedd eu AGY gwreiddiol. Yn benodol, a ellid fod wedi gwneud mwy yn 2014/15 i gynorthwyo ysgolion LlLl o'r fath i ddeall eu heriau'n gliriach a datblygu AGY a fyddai wedi mynd i'r afael â hwy'n fwy effeithiol.

[6]Mae Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgol) (Cymru) 2014, yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff llywodraethu ailedrych ar gynllun datblygu ysgol yn dilyn arolwg. Mae'n rhaid llunio Cynllun Gweithredu ôl-arolwg lle rhoddir ysgol mewn categori sy'n gofyn am welliant sylweddol neu mewn mesurau arbennig (gweler adran 39 Deddf Addysg 2005)

*Gwella canlyniadau dysgu disgyblion*

2.9 O gofio lefel uchel y dilyniant rhwng yr AGY ym mlwyddyn 1 a 2 HYC, nid yw'n syndod bod cyfweleion yn fwyaf aml yn cyfeirio at AGY yn ymwneud â gwella canlyniadau dysgu disgyblion (dywedodd cyfweleion mewn 29 o'r 39 ysgol bod hwn yn amcan allweddol eu CDY). Dywedodd cyfweleion yn 2014/15 eu bod wedi blaenoriaethu gwella canlyniadau dysgu disgyblion Cyfnod Allweddol 4, ond erbyn 2015/16 roeddent hefyd yn dangos diddordeb ychwanegol mewn targedu disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3 (18 o'r 29 ysgol a oedd wedi nodi canlyniadau dysgu disgyblion fel amcan).

2.10 Efallai y croesawir y cynnydd mewn blaenoriaeth canlyniadau dysgu disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3 fel arwydd bod ysgolion LlLl yn ceisio cefnogi gwelliannau tymor canolig i dymor hwy (yn y gobaith y bydd gwella'r cynnydd a wneir gan ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3 yn arwain at welliant yn eu canlyniadau yng Nghyfnod Allweddol 4 yn y pen draw). Mae'n bwysig cydnabod mai'r mathau o weithgareddau a gefnogir, nid dim ond y Cyfnod Allweddol y cânt eu darparu ynddo, sy'n pennu'r cyfnod amser y bydd yr effeithiau'n debygol o gael eu cyflawni a'u cynaliadwyedd.

2.11 Er enghraifft, mae gan ddatblygiad a chyflwyniad rhaglen bontio traws-cyfnod ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7 (boed hi'n canolbwyntio ar gwricwlwm parhaus neu les economaidd gymdeithasol) sy'n parhau i gael ei gweithredu wedi diwedd y cyllido HYC, y potensial i gael effaith dros y tymor hwy. Efallai, fodd bynnag, y disgwylir i ddosbarthiadau dal i fyny ar gyfer disgyblion Blwyddyn 9 arwain at well cyrhaeddiad dim ond ymhlith y rheini sy'n eu derbyn. Oni bai y gwneir newidiadau mwy sylfaenol i ddarpariaeth addysgu a dysgu drwy'r ysgol, yna efallai y bydd dal angen dosbarthiadau o'r fath ar gyfer disgyblion Blwyddyn 9, ac efallai na fydd y gweithgarwch hwn yn gynaliadwy heb gyllido parhaus. Mae'n bwysig felly ystyried y math o weithgarwch a ariannir a lefel y buddsoddiad sydd ar gael, ac i ganolbwyntio ar y gweithgareddau hynny a fydd yn arwain at newid hirdymor, nid dim ond enillion yn y tymor byr.

*Cynnydd mewn ymgysylltiad disgyblion*

2.12 Yn unol â'r pwyslais yng nghanllaw lefel rhaglen Llywodraeth Cymru ar gefnogi lles disgyblion (yn arbennig ymhlith disgyblion o gefndiroedd o amddifadedd), roedd ysgolion LlLl gan amlaf yn nodi o leiaf un AGY oedd wedi'i gysylltu i gefnogi gwella lles, ymddygiad, cymhelliant neu bresenoldeb disgyblion (yr ydym, er mwyn symleiddio pethau, wedi'u galw'n 'ymgysylltiad disgyblion'). Yn ddiddorol, yn 2015/16 roedd blaenoriaeth ar gyfer y math hwn o AGY wedi tyfu, gyda chyfweleion yn nodi gwella ymgysylltiad disgyblion fel blaenoriaeth allweddol yn 20 o'r ysgolion LlLl, cynnydd ar y 13 a oedd wedi gwneud hynny yn 2014/15.

2.13 Fel y trafodwyd, mewn perthynas â blaenoriaethu clir canlyniadau dysgu disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3, gallai'r cynnydd hwn yn nifer yr ysgolion sy'n blaenoriaethu AGY ymgysylltiad disgyblion awgrymu diddordeb cynyddol mewn newid diwylliant ac ethos ysgol gyda'r nod o gefnogi gwelliant tymor canolig i dymor hwy mewn ymgysylltiad disgyblion. Wedi dweud hynny, gallai yn yr un modd fod yn arwydd o agenda mwy cul wedi'i anelu at wella presenoldeb disgyblion yn y tymor byr; defnyddiodd rhai ysgolion y LlLl i gefnogi penodiad swyddog presenoldeb tymor penodol. Mae hi'n bwysig felly i ystyried natur y gweithgareddau gwella ysgol wrth farnu i ba raddau y maent yn debygol o gefnogi canlyniad cynaliadwy. Mae dod i ddealltwriaeth o'r fath yn debygol o fod yn arbennig o bwysig o gofio'r cyhoeddiad yn 2017 na fyddai HYC yn parhau ar ddiwedd 2017/18.

*Gwella arweinyddiaeth a rheolaeth*

2.14 Fel y trafodwyd yn Carr a Morris (2016), roedd cyfweleion yn tua hanner yr ysgolion LlLl yn 2014/15 yn teimlo bod gwella ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn eu hysgol yn brif flaenoriaeth. Yn 2015/16, roedd cyfran y cyfweleion a ddywedodd mai dyma'r achos wedi gostwng i ychydig dros ddwy ym mhob pump (16 ysgol). Hefyd, yn yr ysgolion hyn symudodd y pwyslais o ganolbwyntio ar wella sgiliau a gallu uwch arweinwyr i wella rhai'r arweinwyr canol a'r tîm arwain estynedig. Gellid ystyried bod newid o'r fath yn ddangosydd cadarnhaol bod yr uwch arweinwyr yn teimlo bod yr arweinwyr canol yn dangos y priodweddau a fyddai'n galluogi i'w hysgol ffynnu yn y dyfodol a/neu eu bod yn barod i dderbyn y syniad o strategaeth arweinyddiaeth fwy datganoledig. Wrth archwilio adborth gan randdeiliaid allanol, rydym hefyd wedi gorfod ystyried i ba raddau y teimlir bod barn uwch arweinwyr ynglŷn â chryfder arweinyddiaeth yn eu hysgol yn gadarn.

2.15 Pwysleisir yr angen i archwilio'r safbwyntiau hyn wrth edrych ar flaenoriaethu cymharol arweinyddiaeth a rheolaeth fel agwedd o gynllunio datblygiad ysgolion LlLl. Yn 2014/15, nododd uwch arweinwyr mewn chwech o'r wyth ysgol Grŵp A (yr ysgolion hynny yr ystyriwyd i fod mewn mwyaf o berygl o ddirywio cyn cyfranogi yn HYC) bod gwella arweinyddiaeth a rheolaeth yn flaenoriaeth iddynt hwy. Erbyn 2015/16, roedd nifer yr uwch arweinwyr yn yr ysgolion hyn a oedd yn parhau i dybio ei fod yn flaenoriaeth wedi lleihau i ddwy o'r wyth ysgol. Mae'n bwysig ystyried a yw gwella arweinyddiaeth a rheolaeth yn cael ei flaenoriaethu'n briodol mewn ysgolion LlLl. Mae hi hefyd yn hollbwysig deall y rhesymeg ar gyfer gwahanol lefelau blaenoriaeth; a yw hyn yn adlewyrchu symudiad oddi wrth wella sgiliau a chymhwysedd y tîm rheoli, neu fwy o ffocws ar sicrhau bod datblygiad i'w gael yn y systemau ehangach, er enghraifft. Dyma'n arbennig yw'r achos lle na wnaeth y

dystiolaeth gefnogi oedd ar gael dangos unrhyw welliant mewn canlyniadau ysgol.

*Gwella addysgu a dysgu*

2.16 Er y bu dirywiad amlwg mewn blaenoriaethu gwella arweinyddiaeth a rheolaeth, roedd hi'n ymddangos bod cynnydd amlwg yn nifer yr ysgolion lle gwnaeth cyfweleion nodi'r angen i wella addysgu a dysgu fel blaenoriaeth allweddol. Yn 2014/15, ychydig dros un rhan o dair o'r uwch arweinwyr a holwyd a oedd yn ystyried hyn yn flaenoriaeth (Carr C a Morris M, 2016). Yn 2015/16 dywedodd uwch arweinwyr yn dros hanner yr holl ysgolion LlLl mai dyma'r achos.

2.17 Yn ddiddorol, gwelwyd y cynnydd hwn yn bennaf mewn ysgolion yr oedd yr ymchwil cynharach wedi eu nodi fel rhai cymharol sefydlog ond nad oedd yn perfformio cystal â'r disgwyl, o gofio nodweddion y disgyblion y maent yn eu derbyn (ysgolion Grŵp B). Fel y nodwyd gan un uwch arweinydd mewn ysgol o'r fath, efallai bod y newid mewn ffocws yn adlewyrchu'r cynnydd a oedd eisoes wedi ei wneud erbyn 2014/15 o ran *'rhoi systemau a phrosesau priodol ar waith er mwyn gallu nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella addysgu a dysgu'* (Uwch Arweinydd, ysgol LlLl). Dywedodd staff mewn llai na hanner yr wyth ysgol yn Grŵp A (yr ysgolion a ystyriwyd mewn perygl o ddirywiad pellach) mai un o'u prif flaenoriaethau fu gwella'r addysgu a'r dysgu. Gellir dadlau na fu digon o amser iddynt gyrraedd y cam hwn, er bod gwella addysgu a dysgu yn cael ei ystyried ar y cyfan gan randdeiliaid allanol fel un o'r ffyrdd mwyaf cynaliadwy o wella perfformiad cyffredinol ysgol yn yr hirdymor.

**Gweithgareddau gwella ysgol**

2.18 Roedd disgwyl i uwch arweinwyr amlinellu gweithgareddau a fyddai'n cefnogi cyflawniad pob AGY a nodwyd mewn CDY. Nododd y canllaw a gynhyrchwyd i gyd-fynd â'r Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) (2014) y dylai uwch arweinwyr, mewn cynllun cryf, sicrhau bod yr amserlen ar gyfer cyflawni'r amcanion yn glir a hefyd nodi'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer eu gweithredu (Llywodraeth Cymru, 2014b). Er mwyn deall perfformiad ysgolion LlLl o fewn HYC, mae'n bwysig nodi a yw'r gweithgareddau a roddwyd ar waith gan ysgolion LlLl wedi adlewyrchu cwmpas a maint yr AGY.

2.19 Yn y dasg hon, mae'n bwysig cydnabod yr anawsterau a wynebir mewn monitro gwariant yn fanwl (yn cynnwys HYC a chyllid o ffynonellau eraill) oherwydd yr amrywioldeb yn y ffyrdd y mae ysgolion LlLl wedi dewis adrodd ar hyn. Bu hyn yn arbennig o heriol lle cefnogwyd gweithgareddau gan ddefnyddio cyllid refeniw ac adnoddau mewn nwyddau o sawl ffynhonnell. O ganlyniad, ni fydd hi'n bosibl gwneud cymhariaeth systematig o wariant. Yn

hytrach, mae'r gwerthusiad yn canolbwyntio ar y pwysau cymharol a roddir i wahanol fathau o weithgareddau gan gyfweleion mewn ysgolion.

*Ansawdd addysgu*

2.20 Erbyn 2015/16 roedd pob ysgol LILI yn adrodd ar raglen o weithgareddau gwella ysgol a oedd yn canolbwyntio ar ansawdd athrawon, gan adlewyrchu'r flaenoriaeth gynyddol yr oedd cyfweleion yn ei rhoi i'r maes hwn. Yn flaenorol, yn 2014/15, roedd llai na dwy ran o dair o'r ysgolion LILI wedi dweud bod hyn yn flaenoriaeth.

2.21 Ers 2014/15 bu mwy o bwyslais ar gynaliadwyedd gweithgareddau. Ar y dechrau, roedd y pwyslais mewn nifer o'r ysgolion ar brynu systemau TG newydd er mwyn cynorthwyo gydag ymarfer yn yr ystafell ddosbarth ac ychwanegu staff cymorth er mwyn gwella'r amgylchedd addysgu a dysgu. Erbyn 2015/16 roedd mwy o ganolbwyntio ar sicrhau bod yr hyn a roddwyd ar waith yn gynaliadwy a'i fod yn cyfrannu'n uniongyrchol at welliant yn yr ystafelloedd dosbarth.

2.22 Er enghraifft, roedd rhai ysgolion wedi archwilio systemau seiliedig at TG ar gyfer gwelliant yn yr ystafell ddosbarth, megis mynediad at feddalwedd IRIS Connect (offeryn seiliedig ar fideo i gefnogi DPP rhyngweithiol a modelu strategaethau addysgu). Dywedodd cyfweleion ei bod wedi bod yn anodd gwneud defnydd effeithiol o offer o'r fath ar y dechrau, ond erbyn 2015/16 roedd ganddynt strategaethau ar waith i wneud defnydd mwy effeithiol ohonynt. Fel y nododd un Uwch Arweinydd: *'llynedd gwnaethom brynu mynediad at feddalwedd IRIS (Connect), ond roedd hi'n eithaf anodd i ddechrau ar gynllun peilot. Eleni rydym wedi ceisio gwneud defnydd o'r system fel rhan o'n strategaeth ar gyfer gwella ansawdd gwersi'* (Uwch Arweinydd, ysgol LILI)

2.23 Yn 2014/15 dywedodd cyfweleion mewn tua hanner yr ysgolion LILI eu bod yn defnyddio cyllid HYC i gefnogi swyddi staff addysgu neu staff cymorth newydd. Erbyn 2015/16 dywedwyd hynny gan gyfweleion mewn llai na chwarter yr ysgolion, gan ddangos ymwybyddiaeth gynyddol o'r angen am gynaliadwyedd. Byddai swyddi a ariannwyd yn y modd hwn mewn perygl wedi diwedd HYC. Mae hi'n bosibl, wrth gwrs, y byddai rhai cyfweleion ddim yn ymwybodol mai fel hyn y defnyddiwyd cyllid HYC yn eu hysgol. Fodd bynnag, mae'n ymddangos mai'r stori gyffredinol oedd bod mwy o bwyslais wedi ei roi ar feithrin gallu athrawon unigol a oedd eisoes yn gweithio mewn ysgolion LILI (cyfeiriodd staff fwy at ddefnyddio Athrawon Rhagorol fel mentoriaid, er enghraifft) yn hytrach na dod â staff newydd i mewn o rywle arall.

2.24 Cyfeiriodd y cyfweleion mewn ysgolion yn aml at raglenni DPP ehangach, gan sôn yn benodol am weithgareddau ar y cyd gydag ysgolion partner. Nododd uwch arweinwyr nad oedd gweithio ar y cyd wedi bod yn llwyddiannus bob amser yn y gorffennol; fel y dywedodd un uwch arweinydd mewn ysgol bartner, i ddechrau roedd eu staff wedi gweld eu rôl fel darparu arweiniad a chefnogaeth i'r ysgol LlLl, ac nad oedd y berthynas wedi bod yn bartneriaeth gytbwys. Ers hynny, roedd yr agwedd tuag at weithio gyda'i gilydd wedi newid, gyda mwy o bwyslais ar ddatblygu atebion a rennir i'r heriau yr oedd y ddwy ysgol yn eu hwynebu. Erbyn 2015/16 roedd staff y ddwy ysgol yn dweud eu bod wedi elwa gan weithgareddau a oedd yn gofyn am ymrwymiad y ddau barti. Ar adeg pan fo Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i annog gwaith cymar i gymar ac ysgol i ysgol (Llywodraeth Cymru, 2014c) mae'r adborth hwn yn un i'w groesawu.

*Arweinyddiaeth a rheolaeth*

2.25 Er gwaethaf y lleihad amlwg yn lefel y flaenoriaeth a roddir i wella arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr AGY, roedd y graddau yr oedd ysgolion LlLl yn buddsoddi mewn gweithgareddau i gefnogi'r canlyniad hwn ar y cyfan yn debyg dros y blynyddoedd. Dywedodd cyfweleion mewn tua pedair o bob pump o'r holl ysgolion LlLl, yn 2014/15 a 2015/16, eu bod wedi buddsoddi mewn gweithgareddau i wella gallu staff a/neu gynllunio datblygu ysgol a hunanwerthuso.

2.26 Fodd bynnag, gwelwyd newid mewn pwyslais. Ar y dechrau roedd ffocws clir ar fuddsoddi mewn hunanwerthusiad ysgolion, er mwyn nodi anghenion a'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu. Yn 2014/15, dywedodd cyfweleion mewn tua dwy o bob tair o'r holl ysgolion LlLl bod uwch arweinwyr wedi buddsoddi mewn gweithgareddau a oedd wedi'u bwriadu i wella ansawdd hunanwerthuso a chynllunio gwella ysgol. Erbyn 2015/16 roedd hyn wedi gostwng i tua hanner. Mewn cyferbyniad, roedd nifer y gweithgareddau a oedd yn canolbwyntio ar gefnogi gwelliannau mewn sgiliau/gallu uwch arweinwyr ac arweinwyr canol wedi cynyddu. Yn 2014/15 roedd cyfweleion mewn tua dwy ran o dair o'r holl ysgolion LlLl wedi buddsoddi mewn gweithgareddau o'r fath, ac roedd hyn wedi cynyddu i tua hanner ohonynt erbyn 2015/16.

2.27 Roedd y pwyslais a roddwyd i wahanol weithgareddau yn amrywio yn ôl y math o ysgol. Ni ddywedodd yr un o'r cyfweleion yn ysgolion Grŵp A (y rheini y teimlwyd eu bod mewn perygl o ddirywio cyn eu cyfranogiad yn HYC) eu bod wedi targedu hunanwerthuso yn 2015/16. Yn hytrach, roeddent wedi canolbwyntio ar aildrefnu a recriwtio i'w huwch dîm arwain (gyda rhai ysgolion

yn ceisio cynyddu maint eu tîm rheoli), gan awgrymu bod gallu a sgiliau arweinyddiaeth yn parhau'n flaenoriaeth ganolog iddynt.

2.28 Mewn ysgolion eraill, roedd uwch arweinwyr yn dadlau bod y systemau a'r prosesau hunanwerthuso yr oeddent wedi eu rhoi ar waith yn 2014/15 erbyn hyn yn dechrau darparu ffynhonnell reolaidd o dystiolaeth, gan eu galluogi i roi rhaglen o weithgareddau gwella ysgol ar waith a oedd yn mynd i'r afael ag anghenion penodol eu hysgol. Fel y dadleuodd un uwch arweinydd, nid yr her oedd cael tystiolaeth ar gyfer y gwerthusiad (fel yr oedd yn flaenorol) ond yn hytrach i sicrhau bod gan uwch arweinwyr ac arweinwyr canol y gallu i'w dehongli mewn ffyrdd a oedd yn arwain at weithredu a gwelliant wedi'i gefnogi.

*Gwella ymgysylltiad disgyblion*

2.29 Yn 2014/15 a 2015/16 rhoddodd y cyfweleion ym mhob un o'r 39 ysgol LlLl weithgareddau ar waith i gefnogi gwella ymgysylltiad disgyblion, er nad oeddent wedi ei nodi fel AGY. Roedd amrywioldeb yn y modd yr oedd ysgolion yn diffinio amcanion ymgysylltu disgyblion, er mai'r ffocws mwyaf mynych oedd ar wella presenoldeb disgyblion. Fel y nodwyd yn 2014/15, roedd cyfweleion wedi defnyddio cyllid HYC, er enghraifft, i recriwtio staff cymorth, megis swyddog presenoldeb neu staff cymorth ymddygiad. Fodd bynnag, yr hyn a ddaeth yn amlwg yn 2015/16 oedd bod nifer o'r uwch arweinwyr o'r farn bod cymorth o'r fath nawr yn '*rhan o'r hyn rydym yn ei wneud'* (Uwch Arweinydd, ysgol LlLl) yn hytrach na gweithgaredd gwella ysgol ynddo'i hun.

2.30 Mae'r farn honno'n amlygu un o'r heriau ar gyfer ysgolion LlLl yn y dyfodol. Dywedodd nifer o'r uwch arweinwyr eu bod eisiau cynnal lefel y gefnogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i ddisgyblion (yn arbennig y rheini o gefndiroedd o amddifadedd). Fodd bynnag, pan oeddent yn cyllido rolau staff cymorth *yn gyfan gwbl* drwy'r HYC, roeddent yn cydnabod y byddai problem mewn cynnal cymorth o'r fath. Fel y dywedodd un uwch arweinydd: *'Ni allwch ddianc rhagddo, unwaith y daw HYC i ben bydd yn rhaid i ni wneud penderfyniadau anodd ynglŷn â beth fyddwn ni'n gallu parhau i'w wneud'* (Uwch Arweinydd, ysgol LlLl)

*Gwella canlyniadau dysgu disgyblion*

2.31 Yn 2015/16 roedd tystiolaeth bod mwyafrif yr ysgolion LlLl wedi buddsoddi mewn gweithgareddau oedd â'r nod o hybu cyrhaeddiad disgyblion, yn arbennig y rheini ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11. Dywedodd cyfweleion yn tua hanner yr holl ysgolion LlLl eu bod yn cynnig rhaglen o ymyriadau dal i fyny mewn Saesneg a Mathemateg, er enghraifft. Wrth geisio esbonio pam eu

bod wedi blaenoriaethu gweithgareddau o'r fath, dywedodd nifer o'r cyfweleion, fel y gwnaethant wrth siarad am weithgareddau oedd wedi'u hanelu at wella ymgysylltiad disgyblion, eu bod yn cydnabod bod gweithgareddau o'r fath yn offeryn pwysig i helpu'r disgyblion presennol i gyrraedd eu potensial (hyd yn oed os nad oeddent yn ddigon da i gefnogi gwelliant ysgol hirdymor).

2.32 Caiff y canfyddiad y gellid ystyried ymyriadau dal i fyny fel elfennau gwella ysgol *'braf i'w cael'* yn hytrach na hanfodol ei atgyfnerthu drwy ystyried y mathau o ysgolion y cafodd gweithgareddau o'r math hyn eu cefnogi ynddynt. Yn benodol, roedd dros ddwy ran o dair o holl ysgolion Grŵp C (y rheini oedd fel petaent yn gwella cyn eu cynnwys yn HYC) wedi cefnogi gweithgareddau o'r fath. Fel y nodwyd gan un uwch arweinydd mewn ysgol Grŵp C *'mae'r rhaglen dal i fyny yn ein helpu ni i gynyddu cyflymder gwelliant, heb y cyllid byddem yn dal i wneud gwelliannau ond byddai'n cymryd mwy o amser i weld y canlyniadau.* (Uwch Arweinydd mewn ysgol LILI)

2.33 Roedd llai na hanner yr holl ysgolion Grŵp A a Grŵp B, lle mai prin oedd y gwelliant cyn cyflwyniad LILI, wedi dewis buddsoddi mewn gweithgareddau o'r fath, gan awgrymu, i nifer, bod agweddau mwy sylfaenol o wella ysgol yr oedd angen iddynt ganolbwyntio arnynt, o gofio'r adnoddau oedd ar gael.

**Deall y dewisiadau a wnaed gan ysgolion LILI**

2.34 Wrth edrych ar y dewisiadau a wnaed gan ysgolion LILI yn dilyn eu cyfranogiad yn HYC, mae'n glir y bu peth newid mewn pwyslais ers dechrau HYC. Nid yw hynny'n golygu bod ysgolion wedi troi cefn ar eu blaenoriaethau gwreiddiol, nac yn teimlo eu bod wedi cyflawni eu hamcanion. Yn 2015/16, er enghraifft, parhaodd ysgolion i fuddsoddi'n drwm mewn gweithgareddau oedd wedi'u cynllunio i wella ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgol. Roedd tystiolaeth bod y buddsoddiad hwn yn cael ei ddatganoli, gyda llawer o ysgolion yn buddsoddi mwy mewn datblygu arweinwyr canol (Penaethiaid Adran gan amlaf) gyda'r nod o sicrhau bod ymarfer effeithiol yn cael ei raeadru i lawr yr ysgol. Mewn adolygiad o'r strwythur rheoli mewn un ysgol, roedd y Cynghorydd Her wedi nodi '*strwythur darniog a heb ei ddiffinio'n dda, heb unrhyw gytundeb ar brotocolau'* (Cynghorydd HYC, ysgolion LILI) fel rhwystr penodol i wella. Erbyn 2015/16 roedd cynnydd wedi'i wneud, gydag arweinwyr canol, yn hytrach na'r Uwch Dîm Arwain, yn cymryd cyfrifoldeb am arsylwi gwersi.

2.35 Soniodd yr adroddiad gwerthuso cyntaf am lefel isel y buddsoddiad yr oedd hi'n ymddangos bod ysgolion LILI yn ei wneud mewn gwella ansawdd athrawon. Erbyn 2015/16 gwelwyd cynnydd amlwg yn nifer yr ysgolion a oedd yn ystyried hyn i fod yn flaenoriaeth, yn ogystal â chynnydd yn y rheini oedd

yn rhoi rhaglen o weithgareddau ar waith i gyflawni'r amcan hwn. Mae hyn yn dangos y cynnydd mewn hyder a ddangosir gan nifer o uwch arweinwyr yn eu gallu i roi rhaglen o weithgareddau gwella ysgol ar waith.

2.36 Roedd graddau uchel o flaenoriaethu ar gyfer gweithgareddau oedd â'u nod o wella ymgysylltiad disgyblion (o ran eu cael i fynychu'r ysgol). Fel y nodwyd gan un uwch arweinydd *'dydyn ni ddim gweld presenoldeb fel problem i'r swyddog* [ar ei ben ei hun, presenoldeb gwael] [mae'n] *effeithio ar bawb'* (Uwch Arweinydd mewn LlLl ysgol). Drwy ddechrau mynd i'r afael â phresenoldeb gwael y disgyblion hynny a oedd yn triwanta'n rheolaidd, teimlai staff y gallent ddechrau cael dylanwad ar newid tymor hwy yn ethos yr ysgol. Fel y dywedwyd gan un uwch arweinydd *'rydym wedi dechrau dangos i ddisgyblion ein bod yn poeni. Disgyblion gyda chymhelliant yw sail cymuned ddysgu'* (Uwch Arweinydd mewn ysgol LlLl).

2.37 Mae canfyddiad o'r fath yn wrthgyferbyniol i lefel y gweithgaredd sydd wedi'i dargedu at wella canlyniadau dysgu disgyblion hyd yma. Er gwaethaf y pwyslais a roddwyd ar wella cyrhaeddiad, roedd y pwyslais cyffredinol a roddodd staff ar weithgareddau oedd wedi'u cynllunio i dargedu disgyblion unigol yn is. Fel y nodir uchod, er bod tua hanner yr holl ysgolion wedi cynnig rhyw fath o raglen dal i fyny i ddisgyblion Blwyddyn 10 a/neu Blwyddyn 11, roedd tystiolaeth i awgrymu yr ystyriwyd gweithgareddau o'r fath fel rhai '*i'w blaenoriaethu dim ond pan fo cyllido yn llai o broblem'* (Uwch Arweinydd mewn ysgol LlLl).

2.38 I gloi, roedd amrywioldeb disgwyliedig ar draws yr ysgolion LlLl yn y flaenoriaeth a roesant i wahanol fathau o AGY. Fodd bynnag, er efallai bod ysgolion wedi blaenoriaethu rhai amcanion hirdymor yn eu cynlluniau (megis gwella cyrhaeddiad disgyblion), roedd eu buddsoddiad wedi hynny mewn gweithgareddau gwella ysgol yn aml yn dangos blaenoriaethau tymor byr neu dymor canolig gwahanol (megis gwella arweinyddiaeth, hunanwerthuso neu ansawdd addysgu), gan adlewyrchu'r gwahaniaethau mewn cyd-destunau ysgolion.

2.39 Er gwaethaf yr amrywioldeb hwn, mae'n bosibl gweld sylfeini model cyffredin ar gyfer gwella ysgol (fel y cysyniadir yn Ffigur 2.1). Ceir hefyd dystiolaeth bod uwch arweinwyr, mewn ysgolion sydd ar wahanol gamau o'u datblygiad, wedi gwneud dewisiadau sy'n gyson â'r cysyniadau newid sy'n tanategu'r model a bod y dulliau a roddwyd ar waith gan ysgolion LlLl wedi bod yn driw i hyn. Y cwestiwn yw a ydyw gweithrediad effeithiol gweithgareddau wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfradd y cynnydd a wnaed gan yr ysgolion hyn.

2.40 Mae'r penodau sy'n weddill yn yr adroddiad hwn yn edrych ar fewnbynnau a meysydd gweithgaredd o dan y LlLl, yn ystyried unrhyw allbynnau (a

chanlyniadau) cysylltiedig ac yn archwilio i ba raddau y mae'n bosibl nodi beth sydd wedi arwain at newid, i bwy a pham.

# 3. Asesu perfformiad ysgolion LILI yn dilyn cyfranogiad yn HYC

**Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol**

Mae dadansoddiad o'r data perfformiad ar gyfer ysgolion LILI yng Nghyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 yn awgrymu bod ystyried y canlyniadau a ragfynegwyd a'r canlyniadau gwirioneddol ar gyfer ysgolion ochr yn ochr ag ysgolion eraill sydd â nodweddion tebyg, ac sydd â lefelau tebyg o gyrhaeddiad blaenorol, yn ddefnyddiol wrth asesu eu perfformiad cymharol.

Er bod ysgolion LILI ar y cyfan yn perfformio'n is na chyfartaledd Cymru mewn pynciau craidd (fel y mae hi wedi bod yn hanesyddol) mae pob un o'r ysgolion LILI wedi gwneud **cynnydd academaidd** ers cyflwyniad HYC.

- Gwnaeth ysgolion yn Grŵp A (lle'r oedd hi'n ymddangos bod ansawdd darpariaeth wedi bod yn gwaethygu cyn ymgysylltu â HYC) a Grŵp C (lle'r oedd ansawdd darpariaeth wedi dechrau gwella cyn ymgysylltu â HYC) fwy o gynnydd a chynnydd cyflymach na fyddai efallai wedi ei ragfynegi, o gofio eu proffil disgyblion.
- Gwnaeth ysgolion yn Grŵp B (y rheini yr oedd hi'n ymddangos bod ansawdd darpariaeth yn sefydlog cyn ymgysylltu â HYC) gynnydd gwastad fel y byddai wedi cael ei ragfynegi, o gofio eu proffil disgyblion.

Gwnaeth ysgolion LILI lai o gynnydd cychwynnol mewn gwella **presenoldeb** nag a fyddai wedi'i ragfynegi, yn arbennig yn 2014/15. Fodd bynnag, yn ystod 2015/16:

- Gwnaeth ysgolion yn Grŵp A a Grŵp B ychydig mwy o gynnydd nag a ragfynegwyd o'r data
- Mae ysgolion yn Grŵp B fel pe byddent yn dal i fod wedi cael trafferthion, gyda lefelau is o bresenoldeb nag a fyddai efallai wedi ei ddisgwyl, hyd yn oed heb ymyrraeth LILI.

Roedd rhanddeiliaid allanol o'r farn bod gwelliannau wedi eu gwneud i ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth mewn tua pedair o bob pump o'r holl ysgolion LILI (32 ysgol). Pan na adroddwyd ar welliannau o'r fath, nodweddion yr ysgolion hyn yn gyffredinol oedd newidiadau diweddar yn yr uwch dîm arwain. Teimlwyd bod gan yr arweinyddiaeth newydd yn yr ysgolion hyn y potensial i sicrhau'r gwelliannau oedd eu hangen, ond teimlai cyfweleion y byddai'n cymryd amser cyn y byddent yn dod yn amlwg.

Credai cyfweleion yn y rhan fwyaf o ysgolion LILI bod cynnydd wedi'i wneud mewn gwella ansawdd hunanwerthuso. Yn y rhan fwyaf o achosion, priodolwyd gwelliannau o'r fath i hyder yr arweinwyr i wneud penderfyniadau ynglŷn â gwella ysgol.

3.1 Mae archwiliad o'r data canlyniadau ar gyfer y 39 ysgol LILI yn amlygu'r pwyntiau hyn:

- Mae lefel uchel o gyfnewidioldeb ar draws yr ysgolion o ran cyrhaeddiad a phresenoldeb (cyn ac wedi ymyrraeth).
- Ar bob canlyniad 'caled' (megis L2C a sgoriau wyth wedi'u capio), ac ar gyfer pob is-grŵp, mae perfformiad ysgolion LILI yn parhau ar y cyfan yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

3.2 Fodd bynnag, mae hyn yn cuddio'r gwir welliant a wnaed gan nifer o'r ysgolion oedd yn cyfranogi, gyda'i gilydd ac mewn perthynas â gwahanol grwpiau disgyblion. Mae hefyd yn pwysleisio'r angen i archwilio'r newidiadau mewn perfformiad disgyblion a welwyd mewn perthynas â man cychwyn pob ysgol ac mewn perthynas â'r gweithgareddau a roddwyd ar waith er mwyn gweithredu eu cynllun datblygu ysgol.

**Gwerthuso effaith LILI ar ganlyniadau disgyblion**

3.3 Wrth werthuso effaith LILI, mae hi wedi bod yn bwysig i gydnabod dau brif bwynt:

- Pwynt 1: Nid oedd hi'n bosibl defnyddio dull gwerthuso lle profwyd cynnydd ysgolion LILI yn erbyn cynnydd mewn set debyg o ysgolion lle na fu'r ymyrraeth ynddynt. Ni ellir defnyddio'r sefyllfa wrthffeithiol hwnnw, sy'n ceisio asesu effaith ymyrraeth yng ngoleuni beth allai fod wedi digwydd pe bai HYC heb gael ei roi ar waith.
    - Yn gyntaf, un elfen o raglen Her Ysgolion Cymru ehangach yw LILI, lle mae gan bob ysgol yng Nghymru fynediad at rywfaint o gefnogaeth (drwy'r consortia a Chynghorwyr Her) i alluogi eu hysgol i wella.
    - Yn ail, mae'r HYC ei hun yn un o nifer o strategaethau a rhaglenni cenedlaethol presennol sy'n canolbwyntio ar wella ysgol,[7], ar ganfod a lledaenu arfer gorau mewn addysgu a dysgu[8] ac ar hyrwyddo gwell canlyniadau mewn pynciau craidd[9].
    - Yn drydydd, dewiswyd y 39 ysgol (40 yn wreiddiol, cyn i ddwy ysgol LILI uno) a gynhwyswyd yn y rhaglen oherwydd eu bod y

[7] Gweler y Model Gweithio Rhanbarthol
[8] Megis y Cynllun Braenaru Ymarferwyr Arweiniol a Datblygol
[9] Yn cynnwys y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

rhai oedd yn yr amgylchiadau mwy heriol; felly, nid oedd grŵp cymharu y gellid ei nodi ar y dechrau.

- Pwynt 2: Roedd pob ysgol LILI yn wynebu heriau gwahanol. Felly, roeddent wedi blaenoriaethu gwahanol feysydd ar gyfer gwella, oedd yn eu tro â goblygiadau ynglŷn â'r graddau y gellid disgwyl gwelliannau mewn canlyniadau disgyblion. Fel y nodwyd ym Mhennod 2, roedd dadansoddiad cychwynnol o ddata gweinyddol a gwybodaeth rhanddeiliaid yn awgrymu ei bod hi'n ymddangos bod tri chategori cyffredinol o ysgolion, pob un â dull gwella ysgol cysylltiedig. Y grwpiau hyn roddodd y fframwaith cymharol ar gyfer y dadansoddiad:

  - Ysgolion Grŵp A - lle'r oedd y canlyniadau yn y tair blynedd cyn LILI yn dangos eu bod yn dirywio ac mewn perygl o ddirywio ymhellach. Roedd y dulliau gwella yn yr ysgolion hyn yn *tueddu* i ganolbwyntio ar wella gallu a sgiliau'r uwch dîm arwain.

  - Ysgolion Grŵp B - lle'r oedd y canlyniadau disgyblion yn y tair blynedd cyn LILI yna awgrymu bod yr ysgol yn sefydlog ond ddim yn gwneud fawr o gynnydd. Roedd y dulliau gwella yn yr ysgolion hyn yn *tueddu* i symud tuag at weithgareddau i wella eu hunanwerthuso.

  - Ysgolion Grŵp C - lle'r oedd canlyniadau disgyblion yn y tair blynedd cyn LILI yna awgrymu bod yr ysgol yn gwneud cynnydd, ond ei bod yn dal y tu ôl i'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd y dulliau gwella yn yr ysgolion hyn yn *tueddu* i symud tuag at weithgareddau i wella ymgysylltiad disgyblion, ond hefyd yn rhoi pwyslais ar wella ansawdd yr addysgu a gwella gallu arweinwyr canol.

3.4 Mae'r ddau brif bwynt hwn (diffyg gwir sefyllfa wrthffeithiol a'r gwahanol ffocws ar gyfer gwella ysgol) yn golygu bod asesiad realistig o wir effeithiolrwydd a chynaliadwyedd tymor hwy y dulliau a fabwysiadwyd gan (a gydag) ysgolion LILI dim ond yn debygol i gael ei wireddu dros nifer o flynyddoedd a thu hwnt i hyd oes y gwerthusiad. Er hyn mae'n bwysig ystyried a yw'r dulliau y maent wedi eu mabwysiadu, yn y tymor byr, yn ymddangos fel petaent yn galluogi ysgolion i symud tuag ar eu targed tymor hwy. Wrth gynnal y dadansoddiad hwn, ysgogwyd yr ymchwil wedi gan yr angen i ystyried nid yn unig newidiadau yn y trywydd perfformiad (ac i bwy) ond hefyd i ba raddau y mae'r ysgolion LILI yn perfformio'n well neu'n waeth nag a fyddai wedi cael ei ragfynegi o gofio proffil eu carfannau a oedd yn cyfranogi (yng Nghyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4).

*Cyd-destun*

3.5 Hysbyswyd dynodiad cychwynnol ysgolion LILI gan gyfanswm data cyrhaeddiad ac economaidd gymdeithasol dros gyfnod o dair blynedd, 2010/11 hyd 2012/13, wnaeth hysbysu dynodiad cychwynnol ysgolion LILI. Yn y cyfnod tair blynedd hwnnw, nodweddion mwyafrif yr ysgolion hyn oedd cyfradd uchel o gyfnewidioldeb yng nghyfran disgyblion llwyddiannus (y rheini oedd yn cyflawni'r lefelau disgwyliedig yng Nghyfnod Allweddol 3 neu Gyfnod Allweddol 4). Rhwng 2010/11 a 2012/13, roedd un ysgol LILI wedi gweld dirywiad blwyddyn ar ôl blwyddyn yng nghyfran y disgyblion llwyddiannus, tra bod 12 wedi gweld cynnydd blwyddyn ar ôl blwyddyn (er ar lefel cryn dipyn is na'r cyfartaledd cenedlaethol). Mewn ysgolion eraill nid oedd darlun clir cyn HYC, gyda rhai ysgolion wedi gweld gwelliannau mesuradwy mewn un flwyddyn a dirywiadau sylweddol yn y llall (neu i'r gwrthwyneb).

3.6 Mae'n bwysig cadw mewn cof wahaniaethau o'r fath mewn perfformiad blaenorol wrth ystyried beth allai olygu canlyniad llwyddiannus ar gyfer unrhyw ysgol benodol. Mewn ysgol LILI lle'r oedd lefelau cyrhaeddiad disgyblion yn dirywio cyn HYC, byddai'n rhesymol i ddisgwyl y dylai'r lefel cyrhaeddiad o leiaf sefydlogi yn dilyn cyfranogiad yn HYC. Fodd bynnag, mewn ysgol yr oedd ei pherfformiad wedi bod yn sefydlog dros gyfnod o dair blynedd, ni fyddai parhau gyda'r sefydlogrwydd hwnnw dros gyfnod HYC wedi bod yn ddangosydd rhesymol o lwyddiant. Mewn ysgol lle'r oedd lefelau cyrhaeddiad wedi bod yn gwella'n raddol cyn HYC, byddai rhywun yn disgwyl y byddai cyfradd gwelliant *efallai'n* cynyddu wedi dwy flynedd.

3.7 Mae'n werth archwilio hyn drwy gyfeirio at beth data perfformiad ar gyfer canlyniadau Lefel 2 Cynhwysol (L2C)[10] y gwahanol grwpiau o ysgolion. Mae hyn yn dangos bod gan bob un o'r tri grŵp o ysgolion (A, B & C), yn y pedair blwyddyn academaidd cyn gweithrediad HYC, gyfran gymharol uchel o ddisgbylion a fethodd gyflawni Lefel 5 neu 6 (y lefel ddisgwyliedig) yng Nghyfnod Allweddol 3 mewn Cymraeg a/neu Saesneg a mathemateg.[11] Ar gyfartaledd, ar draws y pedair blynedd cyn HYC, roedd 33% o'r disgyblion yn ysgolion Grŵp A, 31% o'r rheini yn Grŵp B a 29% o'r rheini yn Grŵp C yn aflwyddiannus mewn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn 14 oed. Roedd cyfran yr un disgyblion a aeth wedyn ymlaen i gyflawni L2C yn isel: dim ond pedwar y cant o ddisgyblion ym mhob achos oedd yn llwyddiannus mewn cyrraedd y disgwyliadau yng Nghyfnod Allweddol 4.

[10] Mae L2I yn golygu cyflawni pump TGAU, yn cynnwys Cymraeg/Saesneg a mathemateg ar raddau A* i C.
[11] Mesurir cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 3 gan ddefnyddio asesiadau athrawon ar lefel pwnc.

3.8 Er bod cyfran y disgyblion aflwyddiannus yng Nghyfnod Allweddol 3 wedi dirywio yn y blynyddoedd diwethaf, gan adlewyrchu'r darlun cenedlaethol,[12] nid yw cyfran y trawsnewid (o fod yn is na'r lefel ddisgwyliedig yng Nghyfnod Allweddol 3 i gyrraedd lefel ddisgwyliedig yng Nghyfnod Allweddol 4) wedi newid yn y ddwy flynedd ers cyflwyniad HYC a LILI. Ymhlith y garfan o ddisgyblion a symudodd o Gyfnod Allweddol 3 i Gyfnod Allweddol 4 yn y cyfnod hwnnw, parhaodd y gyfradd trawsnewid ar gyfer y disgyblion hynny na wnaeth gyflawni'r lefel ddisgwyliedig yng Nghyfnod Allweddol 3 ond a aeth ymlaen i gyflawni L2C, ar bedwar y cant ar gyfer yr holl ysgolion LILI. Mae hyn yn awgrymu, efallai nad oedd y disgyblion oedd â'r cyrhaeddiad isaf (y rheini oedd wedi methu cyrraedd y lefel ddisgwyliedig) wedi bod yn flaenoriaeth ar gyfer dwy flynedd gyntaf y prosiect, hyd yn oed pan fo ymgysylltiad disgyblion yn ffocws ar gyfer yr AGY.

3.9 Cefnogir hyn gan adolygiad o'r gyfradd trawsnewid, ar ôl cyflwyno HYC, ymhlith y garfan o ddisgyblion a oedd cyn hyn wedi cyflawni'r lefelau disgwyliedig yng Nghyfnod Allweddol 3, lle gwelwyd rhai newidiadau nodedig iddynt yng nghyfanswm y llwyddiant yng Nghyfnod Allweddol 4. Er bod perfformiad cyffredinol mewn ysgolion LILI yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi parhau'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, roedd newidiadau cadarnhaol yng nghyfran y disgyblion oedd yn symud yn llwyddiannus o Gyfnod Allweddol 3 (ar neu'n uwch na'r lefel ddisgwyliedig) i Gyfnod Allweddol 4 (cyflawni L2C). Roedd hyn yn gwahaniaethu yn ôl math ysgolion, gyda'r gwelliannau gorau i'w gweld ymhlith yr ysgolion hynny oedd wedi bod yn cael trafferthion cyn hyn. Ymhlith yr ysgolion yn Grŵp A, gwelwyd cynnydd gan dri y cant (o 57% i 60%) yng nghyfran y disgyblion yn symud o gyfartaledd Lefel 5 neu Lefel 6 mewn Cymraeg a/neu Saesneg a mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 3 i gyflawni L2C yng Nghyfnod Allweddol 4. Gwelwyd cynnydd hefyd gan ddau y cant mewn ysgolion yn Grŵp B (o 63% i 65%) a gan un y cant mewn ysgolion yn Grŵp C (o 67% i 68%). Mae hyn yn awgrymu bod yr ysgolion LILI yn dod yn fwy effeithiol mewn galluogi disgyblion a fyddai efallai ar y ffin ar gyfer L2C yn flaenorol i lwyddo yng Nghyfnod Allweddol 4.

3.10 Fodd bynnag, mae edrych ar y ffigurau hyn ar eu pen eu hunain yn anwybyddu'r effaith carfan 'ehangach'. Mae llawer o ymchwil a wnaed ers y 1990au wedi dangos bod trywydd cyfanswm cyrhaeddiad (gan hyd yn oed gynnwys cyrhaeddiad blaenorol) yn annigonol fel mesur o gynnydd neu effaith ymyrraeth (gweler, er enghraifft, Crawford *et al.*, 2014). Ochr yn ochr â

[12] Gweler adroddiad gwerthusiad NLNP (sydd i ddod). Mewn ysgolion LILI, cynyddodd cyfanswm y disgyblion llwyddiannus yng Nghyfnod Allweddol 3 ar draws y tri grŵp o ysgolion. Yn yr ysgolion a oedd yn Grŵp A, roedd cynnydd gan bump y cant (o 67% i 72%), a chynnydd gan bump pwynt canran yn Grŵp B (o 69% i 74%) a chynnydd gan chwe phwynt canran mewn ysgolion yn Grŵp C (o 71% i 77%).

darpariaeth mae angen ystyried hefyd broffil y carfannau perthnasol. Mae hyn yn cynnwys cyffredinolrwydd ffactorau megis lefel yr angen addysgol a lefel yr anfantais economaidd gymdeithasol ymhlith disgyblion, y gwelwyd o ymchwil flaenorol eu bod yn gysylltiedig â lefelau is o gyrhaeddiad.

*Dull a fabwysiadwyd*

3.11 O gofio'r cyfnod byr y bu'r ysgolion LlLl yn gweithredu ac o gofio'r diffyg sefyllfa wrthffeithiol naturiol, mabwysiadodd yr ymchwil ddull a oedd yn defnyddio model rhagfynegi ystadegol i ddatblygu g*wrthffeithiol cyfunol*. Y cam cyntaf mewn adeiladu'r modelau rhagfynegi hwn oedd defnyddio data'r Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion[13] i ddatblygu cyfres o fodelau er mwyn nodi'r ffactorau a oedd fel petaent yn ystadegol gysylltiedig â pherfformiad yr ysgolion LlLl.[14]

3.12 Ymgorfforwyd y ffactorau hyn i fodelau rhagfynegi 'amodol'. Gwnaeth y modelau hyn ragamcaniadau yn seiliedig ar berfformiad posibl yn y dyfodol, gan ystyried perfformiad y gorffennol a nodweddion lefel ysgol a oedd yn hysbys. Roedd y nodweddion hyn yn cynnwys cyfran y disgyblion a oedd yn gymwys am brydau ysgol am ddim neu oedd ag anghenion addysgol arbennig. Roedd y modelau hefyd yn rheoli ar gyfer newidiadau ym mherfformiad yr holl ysgolion. Roedd hyn er mwyn adlewyrchu'r tuedd i gyrhaeddiad gynyddu ar draws pob ysgol ac i roi'r arwydd gorau posibl o berfformiad ysgolion LlLl mewn cymhariaeth â chyfartaledd Cymru gyfan.

3.13 Roedd y dadansoddiad cychwynnol a gynhaliwyd yn ystyried canlyniadau cyrhaeddiad mewn Cymraeg a/neu Saesneg a mathemateg, yn ogystal â L2C a Sgoriau Pwyntau wedi'u Capio. Fodd bynnag, ni ellid adeiladu modelau rhagfynegi ar gyfer yr holl ganlyniadau hyn:

- Cymraeg oedd prif iaith yr addysgu mewn tair o'r ysgolion LlLl, a oedd yn annigonol i greu modelau rhagfynegi cadarn ar gyfer y Gymraeg fel iaith gyntaf. Yn 2016, roedd canlyniadau cyrhaeddiad wedi'u tracio (o Gyfnod Allweddol 2 hyd Gyfnod Allweddol 4) ar gael ar gyfer dim ond 153 o ddisgyblion a oedd yn sefyll arholiad Cymraeg iaith gyntaf.
- Er y defnyddiwyd cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg a mathemateg fel dangosydd procsi o'r potensial i gyflawni L2C (gweler y cyfraddau trawnsnewid uchod) mae'r Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio ar gael fel dangosydd yng Ngyfnod Allweddol 4 yn unig ac nid oes

[13] Cronfa Ddata Genedlaethol i Disgyblion ar yr ysgolion LlLl o 2010/11 hyd 2015/16
[14] Cafodd y modelau hyn eu cyfyngu i'r newidynnau ysgol a lefel disgyblion y gellir eu hynysu oddi wrth datasetiau gweinyddol

rhagyfnegydd clir yng Nghyfnod Allweddol 3, felly ni ellid creu unrhyw fodelau rhagfynegi ar gyfer y mesur hwnnw.

3.14 Unwaith y crëwyd y modelau, cymharwyd perfformiad a ragfynegwyd ar gyfer yr ysgolion gyda'u perfformiad gwirioneddol er mwyn gweld a oedd yr ysgolion LILI wedi dilyn y trywydd disgwyliedig neu wedi gwella arno. Roedd y dull hwn yn offeryn pwerus i archwilio'r gwelliannau mewn ysgolion LILI, er ei bod hi'n bwysig cydnabod mai 'amcangyfrifiad gorau' yn seiliedig ar y data oedd ar gael oedd rhagfynegiadau yn y bôn. Lle'r oedd cyrhaeddiad blaenorol wedi bod yn gyfnewidiol (fel ag yr oedd mewn nifer o ysgolion LILI), mae'n anochel bod dibynadwyedd y rhagfynegiad yn is.

3.15 Wrth ddehongli pob rhagfynegiad mae'n bwysig nodi'r dibynadwyedd ystadegol ac i ba raddau y mae unrhyw wahaniaeth rhwng y perfformiad gwirioneddol a'r perfformiad disgwyliedig yn ystadegol arwyddocaol. Mae'r cyfyngau hyder ar gyfer pob model (sy'n dangos yr ystod o werthoedd lle gallai gwir werth y rhagfynegiad fod) yn eang iawn, hyd yn oed ar lefel 95%. Mae hyn oherwydd bod angen i fodelau rhagfynegi yn gyffredinol gael ychydig mwy o flynyddoedd o ddata ôl-ymyrraeth na'r ddwy oedd ar gael ar gyfer LILI. Nid yw'r rhan fwyaf o ganfyddiadau'r dadansoddiad hwn, fel y gellid disgwyl, yn ystadegol arwyddocaol oherwydd eu bod yn gorwedd o fewn y cyfwng hyder. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu nad ydynt yn addysgol arwyddocaol, ac mae'r data'n dangos tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, patrymau cynnydd ac effeithiau clir. Er gwaethaf diffyg arwyddocâd ystadegol ar y cam cynnar hwn, gwneir sylwadau am y canfyddiadau, gan ei bod yn bwysig eu hystyried ochr yn ochr â'r canfyddiadau gwerthuso eraill a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Dros amser gellir bwydo rhagor o ddata i'r modelau ar gyfer yr ysgolion hyn, a byddai hyn yn galluogi i arwyddocâd y casgliadau gael ei brofi.

*Canfyddiadau cyrhaeddiad*


3.16 Crëwyd pum model rhagfynegi gwahanol ar gyfer cyrhaeddiad, gyda phob un yn defnyddio gwerth pum mlynedd o ddata cyn lansiad LILI er mwyn cynorthwyo i 'esmwytho' peth o'r cyfnewidioldeb mewn perfformiad ysgolion. Gan ystyried y gwahaniaethau yn eu dulliau LILI, cafodd yr ysgolion eu grwpio yn ôl y fframwaith dadansoddiadol (Grwpiau A, B ac C). Mae pob un o'r modelau yn cyflwyno data ar gyfer holl ysgolion uwchradd Cymru yn ogystal â'r rhagfynegiad amodol ar gyfer yr ysgolion LILI yn y grŵp perthnasol (A, B neu C), a'u perfformiad gwirioneddol yn 2014/2015 a 2015/2016. Mae'r modelau hefyd yn dangos y cyfwng hyder 95% ar gyfer y data.

3.17 Mae'r modelau a drafodir isod yn edrych yn gyntaf ar gyrhaeddiad (gan ddechrau gyda'r dangosydd allweddol L2C) yna presenoldeb.

#### Lefel 2 Cynhwysol

3.18 Fel y nodir yn Ffigur 3-1, mae perfformiad yr ysgolion LILI yn parhau'n is na pherfformiad holl ysgolion Cymru. Mae'r rhagamcaniad ar gyfer ysgolion yn **Grŵp A** (y llinell goch doredig) yn awgrymu, o gofio perfformiad blaenorol yr ysgol a nodweddion carfanau yn 2014/2015 a 2015/2016, y dylai cyfran y disgyblion a oedd yn cyflawni L2C fod wedi cynyddu. Mae perfformiad gwirioneddol yr ysgolion (y llinell goch ddi-dor) yn dangos bod, ar gyfartaledd, y cynnydd ar y dechrau'n arafach nag a ragfynegwyd, ond yna cynyddodd yn gyflym, gan fynd heibio i'r rhagfynegiad amodol ar gyfer 2015/2016. Er nad yw'r gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol (mae'n dal o fewn y cyfwng hyder 95%), mae'n dangos bod ysgolion Grŵp A wedi perfformio ychydig bach yn well nag a fyddai wedi ei ragfynegi yn 2016 a'u bod ar drywydd sy'n mynd at i fyny.

**Ffigur 3-1: Cyfran y disgyblion mewn ysgolion LILI yng Nghyfnod Allweddol 4 a oedd yn cyrraedd Lefel 2 Cynhwysol (blynyddoedd academaidd 2009/10 hyd 2015/16)**




Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o ddata StatsCymru.

3.19 Perfformiodd yr ysgolion yn Grŵp C (yr ysgolion a oedd wedi bod yn gwneud cynnydd cyn cyflwyniad LILI) yn unol â rhagfynegiad y model, gyda'r gwelliannau disgwyliedig yn cael eu cyfateb gan berfformiad gwirioneddol. Gwnaeth ysgolion yn Grŵp B, fodd bynnag, rywfaint o gynnydd tuag at


gyfartaledd Cymru gyfan, ond gwnaethant *lai* o gynnydd nag a fyddai'n ddisgwyliedig, o gofio perfformiad blaenorol a nodweddion disgyblion.

3.20 Mae'r stori a ddywed y tri model hwn yn awgrymu bod ysgolion ym mhob grŵp yn gwneud cynnydd yng Nghyfnod Allweddol 4, gydag ysgolion yn Grŵp A ac C yn cyfateb i neu ar y blaen i'r gyfradd a ragfynegwyd ar eu cyfer. Mae'r darlun sy'n ymddangos yn awgrymu y *gallai* cyfranogiad yn LILI ar gyfer ysgolion yn Grŵp A fod wedi cyflymu cyfradd y cynnydd tuag at y cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer L2C (er nad yw'n bosibl priodoli hynny'n unionyrchol).

**Saesneg a mathemateg Cyfnod Allweddol 4**

3.21 Perfformiodd ysgolion yn Grŵp B yn unol â'r rhagfynegiadau ar eu cyfer mewn TGAU Saesneg Iaith, tra y bu i ysgolion yn Grwpiau A ac C wella ar y canlyniadau a ragfynegwyd ar gyfer cyfran y disgyblion a oedd yn cyflawni TGAU Graddau A* i C (gweler Ffigur 3-1). Perfformiodd yr ysgolion yn Grŵp C ar lefel ychydig is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Roeddent wedi gwneud mwy o gynnydd mewn Saesneg Iaith nag efallai a ddisgwyliwyd o gofio nodweddion eu carfannau. Aeth ysgolion yn Grŵp A y tu hwnt i'r lefel a ragfynegwyd ar gyfer eu cyrhaeddiad; er nad yw'r canfyddiadau (fel sy'n ddisgwyliedig) yn ystadegol arwyddocaol, maent y dangos cynnydd clir yn y cyfeiriad cywir.


**Ffigur 3-2: Cyfran y disgyblion mewn ysgolion LILI sy'n cyflawni Graddau A* i C mewn TGAU Saesneg Iaith**




Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o ddata StatsCymru

3.22 Mewn mathemateg, cymerodd yr ysgolion yn Grŵp A fwy o amser i gyrraedd y lefel a ragfynegwyd ar eu cyfer, tra bod y gyfradd cynnydd mewn ysgolion yn Grwpiau B ac C yn arafach na'r disgwyl (gweler Ffigur 3-3).

**Ffigur 3-3: Cyfran y disgyblion mewn ysgolion LILI sy'n cyflawni Graddau A* i C mewn TGAU mathemateg**




Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o ddata StatsCymru


*Cynnydd yng Nghyfnod Allweddol 3*

3.23 Mae cynnydd mewn Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 3 wedi bod yn arafach na'r cynnydd yng Nghyfnod Allweddol 4, yn arbennig ar gyfer ysgolion Grwpiau A a B, lle'r oedd llawer o'r ymdrech gynnar (fel y nodwyd yn yr adroddiad cynharach) ar ddisgyblion ym Mlynyddoedd 10 ac 11. Gwnaeth ysgolion yn Grŵp A, yr oedd y rhagfynegiad amodol ar eu cyfer yn awgrymu y byddai'r gwelliannau yng Nghyfnod Allweddol 3 a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol yn parhau (i lefel uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol), ddirywio yn ystod blwyddyn gyntaf LILI cyn gwneud cynnydd yn 2015/16. Er i ysgolion yn Grŵp B barhau i wella wedi cyflwyniad LILI, roedd cyfradd y gwelliant yn arafach nag a ragfynegwyd ar sail twf blaenorol a'u carfan disgyblion. Parhaodd ysgolion yn Grŵp C y patrwm yr oeddent wedi ei ddangos yng Nghyfnod Allweddol 4 (o gynnydd ar lefel uwch na'r gyfradd a ragfynegwyd).

3.24 Mae patrwm y cynnydd yn erbyn canlyniadau a ragfynegwyd yn dangos gwelliant cymharol cadarnhaol mewn cyrhaeddiad ymhlith pob grŵp o

ysgolion a gellir dadlau ei fod yn well dangosydd perfformiad na gwerth unigol ar gyfer ysgolion LlLl.


**Ffigur 3-4: Cyfran y disgyblion mewn ysgolion LlLl sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 3**




Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o ddata StatsCymru

3.25 Roedd y sefyllfa ar gyfer mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 3 yn fwy calonogol. Roedd perfformiad yr ysgolion ym mhob un o'r tri grŵp o ysgolion LlLl yn well na'r lefelau a ragfynegwyd.

**Ffigur 3-5: Cyfran y disgyblion mewn ysgolion LILI sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 3**




Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o ddata StatsCymru

3.26 Mae'r ymarferiad hwn wedi dangos:

- **bod yr holl ysgolion LILI wedi gwneud cynnydd** ers cyflwyno'r HYC a bod cynnydd, mewn rhai achosion, wedi bod yn gyflymach (a hyd yn oed yn fwy) nag y byddai efallai wedi ei ragfynegi, o gofio proffil eu disgyblion
- **bod ystyried y canlyniadau a ragfynegwyd a'r rhai gwirionedd** ar gyfer ysgolion ochr yn ochr ag ysgolion eraill sydd â nodweddion tebyg, ac sydd â lefelau tebyg o gyrhaeddiad blaenorol, yn ddefnyddiol wrth asesu eu perfformiad perthynol.

3.27 Archwilir i ba raddau y mae LILI wedi cyfrannu at y gwelliannau hyn ym Mhennod 8.


*Ymgysylltiad disgyblion*

3.28 Er bod llawer o ysgolion LILI wedi buddsoddi mewn dulliau sydd â'r nod o wella cyfraddau presenoldeb disgyblion, nid cyfraddau presenoldeb yw'r unig fesur na'r mesur mwyaf priodol ar gyfer ymdrechion ehangach sydd wedi'u hanelu at wella cymhelliant a lles disgyblion. Heb fesur 'caled' arall i weld newidiadau mewn perfformiad yn yr ysgolion LILI, mae'n werth edrych ar

bresenoldeb. Yn dilyn y model a fabwysiadwyd ar gyfer cyrhaeddiad, crëwyd modelau rhagfynegi i archwilio'r lefelau presenoldeb disgwyliedig a gwirioneddol yn y 39 o ysgolion LILI.

3.29 Mae'r modelau (gweler Ffigur 3-6) yn awgrymu bod llai o gynnydd wedi'i wneud, yn y flwyddyn gyntaf wedi LILI, mewn gwella presenoldeb ym mhob un o'r grwpiau nag a ragfynwegwyd. Er bod ysgolion yn Grŵp B wedi parhau i'w chael hi'n anodd yn yr ail flwyddyn (gyda lefelau presenoldeb is nag a fyddai'n ddisgwyliedig), mae ysgolion yn Grŵp A a Grŵp C fel petaent wedi cael mwy o lwyddiant yn yr ail flwyddyn. Mae tystiolaeth o arolygon y disgyblion fel petai'n cefnogi'r gwelliant hwn. Adroddodd disgyblion ysgolion yn yr amgylchiadau mwyaf heriol (Grŵp A) lefelau uwch o driwantiaeth personol a bod yn hwyr i'r ysgol na'u cyfoedion mewn ysgolion eraill yn 2014/15. Fodd bynnag, nid oedd llawer o'r gwahaniaethau (yn arbennig parthed triwantiaeth) i'w gweld bellach yn 2015/16, a'r un oedd y cyfrannau cyffredinol ar gyfer disgyblion yn sôn am driwantiaeth a bod yn hwyr i'r ysgol ym mhob math ysgol. Mae'n ddiddorol nodi, ym mhob cyrch arolwg, bod y disgyblion hyn hefyd yn dueddol o sôn am lefelau uwch o driwantiaeth a bod yn hwyr ymhlith eu ffrindiau nag oeddent mewn perthynas â hwy eu hunain.

**Ffigur 3-6: Cyfran y sesiynau hanner diwrnod a fynychwyd gan ddisgyblion mewn ysgolion LILI**




Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o ddata StatsCymru. noder bod yr echelin wedi'i chwympo rhwng sero ac 80% er mwyn gallu gweld yr amrywioldeb yn y data.

3.30 O'i ystyried ochr yn ochr â'r adborth gan ysgolion LlLl, mae darlun ychydig yn wahanol i'w weld. Yn benodol, roedd mwyafrif yr ysgolion LlLl (34) yn dadlau bod tystiolaeth i awgrymu bod gweithgareddau ymgysylltiad disgyblion yn dechrau cael effaith gadarnhaol. Fodd bynnag, dywedodd deg cyfwelai na fyddent yn disgwyl gweld gwelliannau o'r fath yn nata gweinyddol yr ysgol am nifer o flynyddoedd. Fel y nodwyd gan un uwch arweinydd, *'rydym yn dechrau newid agwedd rhai disgyblion sydd wedi dadrithio ond mae angen i chi wneud gwahaniaeth mawr er mwyn gweld hynny'n gweithio yn yr ystadegau presenoldeb'* (Uwch Arweinydd mewn ysgol LlLl)

**Gwella ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth**

3.31 Defnyddir cyrhaeddiad disgyblion yn eang fel y mesurydd mwyaf dangosol o ba mor effeithiol yw ysgol mewn diwallu anghenion ei disgyblion. Fodd bynnag, yng nghyd-destun ysgolion LlLl, mae'n debygol y byddwn yn gwybod am effaith lawn y newidiadau dim ond dros y tymor canolig i hirdymor. Felly, dylid ystyried dimensiynau eraill perfformiad sy'n debygol o fod yn rhagfynegydd gwelliant yn y dyfodol ac mae ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn greiddiol i hyn.

3.32 Mae diffyg data canlyniadau cyson yn rheolaidd i fesur newidiadau yn y maes hwn neu'n wir hyd yn oed iaith gyffredin er mwyn gwneud hyn. Nid oes amheuaeth bod Estyn, yn dilyn arolwg, yn cynhyrchu'r ffynhonnell fwyaf dibynadwy o dystiolaeth. Fodd bynnag, er bod 20 arolwg o'r fath wedi eu cynnal ar ysgolion LlLl ers lansio HYC, dim ond saith a gynhaliwyd yn 2016. Er bod ystyried canfyddiadau timau arolygu yn yr ysgolion hyn yn fan defnyddiol i ddechrau, dim ond darlun rhannol o berfformiad ysgolion LlLl a geir ganddynt.

3.33 Yn nodedig, o'r saith ysgol a arolygwyd yn 2016, gosodwyd pump mewn categori is ar gyfer arweinyddiaeth ac ar gyfer hunanwerthuso nac yn eu harolwg diwethaf. O'r ddwy ysgol sy'n weddill, roedd un yn ysgol 'newydd' a heb gael ei harolygu o'r blaen; gosodwyd y llall yn yr un categori ag yr oedd ynddo yn flaenorol. Yn yr un modd, o'r saith ysgol a arolygwyd yn 2016, gosodwyd pump mewn categori is ar gyfer y ddau faes hwn nac yn eu harolwg diwethaf.

3.34 Ar y wyneb, gallai hyn gael ei weld fel canlyniad a ddylai beri pryder. Fodd bynnag, mae'n werth cadw mewn cof, o'r pum achos lle gosodwyd ysgolion mewn categori is nac yn flaenorol, cynhaliwyd eu harolwg diwethaf yn 2011, tua thair blynedd cyn dechrau'r rhaglen. Yn ymarferol, mae'n bosibl pe bai'r ysgolion hyn wedi eu harolygu yn 2013 (cyn dechrau'r HYC) y byddai rhai wedi cael eu gosod mewn categori is ar yr adeg honno. Yn ogystal, mae'n werth cydnabod y bu llawer o newidiadau i'r fframwaith arolygu (sydd i newid

eto yn 2017) ac roedd llawer o'r cyfweleion o'r farn bod hyn wedi ei gwneud hi'n anoddach i gynnal neu'n wir wella ar eu graddiad.

3.35 I'r gwrthwyneb, roedd adborth gan randdeiliaid allanol yn fwy cadarnhaol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid hyn bod gwelliannau wedi eu gwneud i ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth mewn tua pedair o bob pump o'r holl ysgolion LILI (32). Dadleuodd cyfweleion mewn cyfran debyg o ysgolion LILI bod gwelliannau tebyg wedi eu gwneud yn ansawdd yr hunanwerthuso. Efallai nad yn annisgwyl, yn y rhan fwyaf o achosion priodolwyd gwelliannau o'r fath i welliant yn hyder arweinwyr i wneud penderfyniadau ynglŷn â gwella ysgol. Er efallai na fydd newidiadau o'r fath yn trosi'n effeithiol i well canlyniad mewn arolwg Estyn yn y tymor byr, maent yn awgrymu bod nifer o ysgolion LILI yn symud i'r cyfeiriad cywir yn y tymor hwy, a gallai hyn gael ei gydnabod mewn arolygiadau Estyn yn y dyfodol.

3.36 Yn y nifer cymharol fechan o ysgolion LILI (tua un o bob pump) lle teimlai rhanddeiliaid allanol nad oedd gwelliannau wedi eu gwneud i arweinyddiaeth a rheolaeth, roedd y rhan fwyaf yn dadlau ei bod yn rhy gynnar i ddweud bod y rhain wedi (neu byddai'r rhain yn) digwydd. Yn aml roedd ysgolion o'r fath wedi gweld newid diweddar yn yr uwch dîm arweinyddiaeth. Er y teimlwyd yn gyffredinol bod gan arweinyddiaeth newydd yn yr ysgolion hyn y potensial i gyflawni'r gwelliannau y gallai fod eu hangen, byddai'n cymryd amser cyn y byddent yn dod yn amlwg.

3.37 Roedd hi'n werth nodi bod cyfweleion mewn ysgolion Grŵp A (y rheini y tybiwyd eu bod mewn perygl o ddirywio cyn dechrau HYC) yn dweud yn fynych fod llawer mwy o gynnydd wedi ei wneud yn eu hysgol nag a nodwyd gan gyfweleion mewn ysgolion eraill. Er nad yw hyn yn peri syndod o gofio y dywedwyd bod arweinyddiaeth a rheolaeth yn flaenoriaeth allweddol mewn ysgolion o'r fath, mae hi fodd bynnag yn galonogol y teimlwyd bod cynnydd wedi bod ers cyfranogi yn HYC. Mae hyn yn debygol o fod yn arbennig o bwysig o gofio y caiff ei gydnabod yn eang y byddai gwelliannau o'r fath yn ysgogwr allweddol ar gyfer gwelliannau mewn elfennau eraill o fywyd yr ysgol.

### Gwella ansawdd addysgu

3.38 Fel yn 2014/15, er mwyn cefnogi hunanwerthuso a chynllunio gwella ysgol, roedd ysgolion LILI wedi rhoi amrywiaeth o systemau a phrosesau ar waith i gefnogi asesiad ansawdd addysgu. Roedd y rhain yn cynnwys rhaglen reolaidd o sesiynau arsylwi ar wersi a gynhaliwyd gan uwch arweinwyr ac arweinwyr canol. Mewn nifer o ysgolion LILI, cafodd canlyniadau arsylwi ar wersi o'r fath eu triongli gyda'r rheini ar gyfer craffu ar lyfrau a chasgliadau data (a gynhyrchwyd yn aml bob tymor).

3.39 Rhoddodd gweithgareddau o'r fath nifer o wahanol ffynonellau tystiolaeth i gyfweleion eu hystyried wrth drafod newidiadau mewn ansawdd athrawon yn eu hysgol. Wedi dweud hynny, mewn nifer o ysgolion LlLl dywedodd cyfweleion mai'r flaenoriaeth allweddol oedd gwella dibynadwyedd y penderfyniadau a wnaed gan arweinwyr canol ac uwch arweinwyr wrth gynnal gweithgareddau rheoli perfformiad unigol. O ganlyniad, roeddent o'r farn y byddai defnyddio data o'r fath i geisio deall unrhyw newid mewn perfformiad cyffredinol athrawon yn anghywir. Er enghraifft, daeth un Cynghorydd her a oedd yn gweithio mewn ysgol a oedd wedi nodi yn ei hunanwerthusiad bod 80% o'r gwersi yn 'dda', â gweithiwr proffesiynol i mewn i werthuso ansawdd yr addysgu. Amlygodd farn y gweithiwr allanol, bod llawer llai o wersi yn dda a bod arweinyddiaeth ganol yn 'wael', y bwlch rhwng yr hyn yr oedd yr ysgol yn ei deimlo oedd yn digwydd a realiti'r sefyllfa.

3.40 Er gwaethaf hyn, awgrymodd y rhan fwyaf (31) o ysgolion LlLl bod ganddynt dystiolaeth anecdotaidd sy'n awgrymu bod ansawdd y gwersi a gyflwynwyd gan athrawon yn eu hysgolion wedi gwella yn dilyn cyfranogiad yn HYC. Priodolwyd gwelliannau o'r fath yn fynych i effeithiolrwydd DPP mewn meithrin hyder ymarferwyr ac arwain at wersi mwy pwrpasol a oedd yn defnyddio ystod o ddulliau addysgeg.

3.41 Mae'r adborth gan ddisgyblion yn awgrymu bod rhai newidiadau cadarnhaol yn yr amgylchedd addysgu a dysgu mewn ysgolion LlLl. Soniodd disgyblion ym mhob un o'r grwpiau a holwyd (Blynyddoedd, 7, 8 a 10) am ystod eang o strategaethau addysgeg rhyngweithiol yn 2015/16 ac nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol yn y cyfleoedd a adroddwyd rhwng grwpiau blwyddyn, fel oedd wedi bod yn 2014/15[15]. Dangosodd ymatebion disgyblion hefyd gynnydd ystadegol arwyddocaol yn amrywiaeth y dulliau ystafell ddosbarth a ddefnyddiwyd gan eu hathrawon o gymharu â'r ymatebion i'r arolwg gan fyfyrwyr ysgolion uwchradd yn Nhon 1 (erbyn 2015/16 roedd llai o fyfyrwyr yn dal i feddwl bod yn well gan athrawon iddynt weithio ar eu pen eu hunain, er enghraifft).

3.42 Mae'n werth ystyried, fodd bynnag, a yw annog ymarferwyr i ddewis o ystod eang o ddulliau addysgeg yn briodol ym mhob sefyllfa. Yn wir, dywedodd rhai cyfweleion mewn ysgolion Grŵp A a B bod y math hwn o ddull ddim ond yn llwyddiannus pan ellid dibynnu ar ymarferwyr i wneud penderfyniadau da ynglŷn â pha ddull fyddai'n addas mewn amgylchiadau penodol. Roeddent yn dadlau y byddai'n cael mwy o effaith yn eu hysgolion, lle'r oedd ansawdd sylfaenol yr ymarfer yn annigonol, i gyflwyno cyfres o *'reolau cyffredin neu rai na ellid eu dadlau'* (Uwch Arweinydd mewn ysgol LlLl). Dim ond unwaith yr

[15] Er bod ymwybyddiaeth o ymwelwyr allanol yn fwy mynych ymhlith y myfyrwyr iau

oedd y rhain wedi eu gwreiddio yn ymarfer eu hysgol yr oeddent yn credu y byddent yn annog y math o ddull arbrofol yr oeddent hwy'n dadlau oedd ei angen i fynd ag ysgol o *'dda i ragorol'* (Uwch Arweinydd mewn ysgol LILI).

**Asesu perfformiad cyffredinol ysgolion LILI**

3.43 I grynhoi, roedd tystiolaeth bod pob un o'r ysgolion LILI (ond yn arbennig y rheini yn Grŵp C) wedi gwneud rhywfaint o gynnydd mewn codi cyrhaeddiad disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 a Chyfnod Allweddol 3, er bod i ba raddau yr oedd y cynnydd hwnnw cystal neu'n well nag a ragfynegwyd yn amrywio. Caiff cyfraniad canfyddedig LILI i welliannau mewn cyrhaeddiad disgyblion ei archwilio mewn rhagor o fanylder ym Mhennod 8

3.44 Mae llai o gynnydd y gellid arsylwi arno wedi ei wneud mewn gwella presenoldeb disgyblion; er bod ysgolion yn Grŵp A a Grŵp C wedi gwneud cynnydd mwy diweddar, nid oedd presenoldeb mewn ysgolion Grŵp B wedi gwella ar y gyfradd a fyddai efallai wedi ei rhagfynegi, gan adlewyrchu'r amser rhagarweiniol hir rhwng cyflwyno ymyriadau a gweld gwelliannau cyfansymiol.

3.45 Roedd staff mewn ysgolion yn tueddu i fod yn fwy optimistaidd ynglŷn â lefel y gwelliant na'r rhanddeiliaid allanol, a oedd yn fwy gofalus ynglŷn â honni datblygiadau o'r fath. Caiff y graddau y mae staff a rhanddeiliaid allanol yn teimlo bod LILI wedi cyfrannu at gynnydd (a'r meysydd y gwnaethant weld cynnydd o'r fath) ei archwilio ym mhenodau nesaf yr adroddiad hwn.

# 4. Cyfraniad canllaw ar lefel rhaglen

**Canfyddiadau allweddol**

Ym mis Hydref 2014 cyflwynodd Llywodraeth Cymru ganllaw yn rheoli datblygiad **Cynlluniau Datblygu Ysgol** (CDY).

- Erbyn 2015/16 roedd gan yr holl ysgolion LILI CDY ar waith.
- Fodd bynnag, mae hi'n werth nodi, er bod cyfweleion yn teimlo bod eu cynllun yn cydymffurfio â'r canllaw, gwnaethant fynegi pryder ynglŷn â'u gallu i adnoddu cynllun dros gylch tair blynedd pan fyddai cyllid grant yn cael ei dalu'n flynyddol.

Yn ystod cyfnod HYC, anogwyd ysgolion LILI i wella ansawdd eu **gweithgarwch cydweithredu o fewn eu clwstwr ysgol** (a oedd fel arfer yn cynnwys ysgolion cynradd lleol/sy'n bwydo).

- Erbyn 2016 roedd nifer yr ysgolion LILI oedd yn gweithio â'u clwstwr wedi cynyddu o ychydig dros ddwy o bob pump yn 2015 i bron y cyfan ohonynt (pedair o bob pump).
- Mewn ysgolion lle'r oedd hanes o weithio gyda'u clwstwr cyn HYC, roedd ansawdd a swm y gwaith cydweithredu wedi cynyddu dros y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys pwyslais cynyddol ar ddulliau oedd wedi'u bwriadu i gefnogi gwelliannau yn ansawdd yr addysgu a dysgu.
- Sefydlwyd rhwydweithiau cymar i gymar mewn ychydig dan hanner yr ysgolion oedd yn rhan mewn **gweithgarwch cydweithredu clwstwr**. Yn aml roedd y rhwydweithiau hyn yn cynnwys arbenigwr pwnc o ysgol LILI a dau ymarferydd ysgol gynradd o wahanol ysgolion y clwstwr. Roedd y rhan fwyaf o'r rhwydweithiau yn tueddu i fod yn bwnc-benodol (Cymraeg a/neu Saesneg, mathemateg neu wyddoniaeth) ac wedi canolbwyntio ar thema benodol (megis marcio llyfrau).

Mae ysgolion LILI hefyd wedi'u hannog, lle bo hynny'n briodol, i **gydweithredu gydag ysgolion uwchradd eraill** (ysgolion wedi eu lleoli yng Nghymru ac mewn mannau eraill).

- Cynyddodd cyfran yr ysgolion a oedd fel petaent yn gweithio gyda phartneriaid uwchradd o tua tair o bob pump i tua pedair o bob pump. Mewn nifer o achosion, yr ysgogiad oedd yn gyfrifol am ganfod partneriaid priodol oedd y Cynghorydd ysgol.
- Roedd amrywioldeb eang mewn nodau **gweithio mewn partneriaeth** ac roedd y dull anffurfiol a ddefnyddiwyd i gynnal llawer o'r gwaith yn golygu nad oedd llawer o dystiolaeth, ar y cam hwn, o fudd y gwaith o ran cynorthwyo ysgolion LILI i gyflawni eu hamcanion gwella ysgol.

4.1 Ers lansio HYC yn 2014, mae Llywodraeth Cymru wedi annog ysgolion LlLl i hyrwyddo ystod o wahanol ymddygiadau/ymarfer drwy gynhyrchu canllaw ar lefel rhaglen. Yn yr adran hon rydym yn ystyried cyfraniad y canllaw hwn i gefnogi newidiadau o'r fath. Yn benodol, rydym yn archwilio cyfraniad gwybodaeth a chanllaw yn ymwneud â:

- cynllunio datblygu ysgol
- defnydd cyllid HYC
- gweithio gydag ysgolion clwstwr
- gweithio gydag ysgolion partner eraill

**Cynllunio Datblygu Ysgol**

4.2 Ym mis Hydref 2014 cyflwynodd Llywodraeth Cymru ganllaw newydd yn rheoli datblygiad Cynlluniau Datblygu Ysgol (CDY), gan nodi y dylai pob ysgol (yn cynnwys ysgolion LlLl) fod â chynllun cydymffurfio ar waith erbyn mis Medi 2015. Mewn gwaith maes a gynhaliwyd yn 2014/215, roedd hi'n amlwg bod gan fwyafrif yr ysgolion LlLl naill ai gynllun o'r fath ar waith yn barod neu eu bod yn y broses o greu un. Fodd bynnag, hyd yn oed pan oedd ysgolion LlLl wedi datblygu cynllun, dywedodd y cyfweleion eu bod wedi wynebu heriau i gyflawni'r meini prawf a nodir yn y canllaw. Roedd y rhain yn cynnwys sicrhau bod y cylch cynllunio wedi'i adnoddu'n llawn, a bod y cydbwysedd priodol rhwng yr angen i fodloni amcanion gwella ysgol cenedlaethol a lleol (Carr & Morris, 2016).

4.3 Yn 2015/16, roedd gan yr holl ysgolion LlLl CDY ar waith. Fodd bynnag, roedd hi'n amlwg, er bod cyfweleion yn teimlo bod eu cynllun yn cydymffurfio â'r canllaw, eu bod wedi dehongli'r canllaw mewn ffyrdd gwahanol, yn cynnwys sut yr oedd y CDY yn cysylltu i ddogfennau cynllunio eraill ar lefel adran. Parhaodd cyfweleion i fynegi pryder ynglŷn â'u gallu i adnoddu cynllun dros gylch tair blynedd pan dalwyd cyllid grant yn flynyddol.

4.4 Yn ymarferol, mae'r graddau y mae canllaw Llywodraeth Cymru wedi arwain at newidiadau yn y modd yr oedd uwch arweinwyr yn edrych ar gynllunio datblygu ysgol yn gyfyngedig. Yn wir, roedd hi'n ymddangos mai dim ond mewn chwe ysgol LlLl yr oedd y canllaw cenedlaethol wedi dylanwadu ar gynnwys y CDY ac, ym mhob achos, roedd yr effaith fel petai'n gymharol fychan. Er enghraifft, dywedodd uwch arweinwyr mewn dwy o ysgolion LlLl bod y canllaw wedi gwneud iddynt ganolbwyntio ar gynaliadwyedd gweithgareddau a gynlluniwyd ac i ba raddau y gellid cyflawni'r amcanion pe bai'r cyllid grant oedd ar gael yn cael ei leihau yn y dyfodol. Mewn dwy ysgol

arall awgrymodd y cyfweleion bod y templed a ddarperir yn y canllaw wedi cynorthwyo'r ysgol i ailstrwythuro eu cynllun datblygu ysgol. Dywedwyd bod strwythur newydd y CDY yn fwy effeithiol fel dogfen fyw y gallai uwch arweinwyr/arweinwyr canol fyfyrio arni'n rheolaidd o gymharu â'r cynlluniau blaenorol yr oeddent wedi eu dyfeisio.

4.5 Roedd tair o'r chwe ysgol yn rhai Grŵp B (y rheini oedd yn ymddangos yn gymharol sefydlog cyn LILI) ac roedd un yn ysgol Grŵp C (lle'r oedd tystiolaeth o welliant cyn cyflwyno HYC). Roedd y ddwy oedd yn weddill o'r chwech yn ysgolion Grŵp A, lle'r oedd tystiolaeth i awgrymu eu bod yn dirywio cyn cael eu dynodi'n ysgolion LILI (a'u bod yn ymddangos mewn perygl o ddirywio ymhellach). Efallai y gellid bod wedi disgwyl y byddai canllaw CDY yn fwy perthnasol a defnyddiol i ysgolion Grŵp A yn hytrach na'r rheini a ymddangosai i fod yn Grŵp B neu Grŵp C (gweler Pennod 1) ond mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod yr ysgolion hyn wedi eu dylanwadu gan ffactorau heblaw am ddeunyddiau canllaw Llywodraeth Cymru.

4.6 Mewn pedair o'r wyth ysgol Grŵp A arall, nododd y cyfweleion, lle gwnaed newidiadau i'r CDY, bod y rhain yn adlewyrchu adborth gan Estyn, y Consortia neu eu Cynghorydd. Er bod y newidiadau a wnaed yn ymddangos yn gyson â chyfeiriad y teithio a nodwyd yng nghanllaw Llywodraeth Cymru, mae'n bwysig cydnabod nad oedd y canllaw ei hun, o gofio lefelau cymharol uchel yr angen a wynebwyd gan yr ysgolion hyn, yn chwarae rôl gyfranogol fawr mewn cynllunio.

**Defnydd cyllid HYC**

4.7 Er mwyn helpu ysgolion LILI i gyflawni eu hamcanion gwella ysgol, anogodd Llywodraeth Cymru hwy i wneud cais am gyllid pwrpasol, a weinyddir yn flynyddol. Gofynnwyd i uwch arweinwyr gyflwyno cais ar ddechrau tymor yr haf am naill ai gyllid cyfalaf neu refeniw. Y gobaith ar y cychwyn oedd y byddai ysgolion yn gwneud cais drwy rannu eu CDY drafft i ddangos y cysylltiad rhwng y cynlluniau a'r cyllido. Yn ymarferol, mae'n ymddangos y gwelodd nifer o ysgolion LILI nad oedd hyn yn bosibl oherwydd yr amseriad ac, yn hytrach, roeddent wedi datblygu cais ar wahân.

4.8 Yn 2014/15 a 2015/16 anogwyd uwch arweinwyr i wneud cais am gyn gymaint (neu cyn lleied) o gyllid ag yr oeddent yn teimlo oedd yn gymesur i fodloni anghenion eu hysgol. Dangosodd adborth gan gyfweleion yn 2014/15 eu bod, er yn cydnabod yr angen i ysgolion gael eu dal i gyfrif am ddefnydd arian cyhoeddus, yn llai argyhoeddedig bod y mecanwaith cyllido grant a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn gwbl briodol (Carr & Morris, 2016).

4.9 Yn dilyn adborth gan uwch arweinwyr, yn 2016/17 penderfynodd Llywodraeth Cymru ddarparu dyraniad dangosol i bob ysgol. Roedd y cyfweleion mewn ychydig dan chwarter yr ysgolion yn gadarnhaol ar y cyfan ynglŷn â'r dull ar gyfer y rownd gyllido hon, ond roedd cyfweleion mewn dros chwarter yn dadlau bod y broses a'r amseru wedi tynnu oddi wrth effaith cyffredinol y cyllido. Roedd rhai cyfweleion yn cyfeirio'n benodol at flwyddyn derfynol y cyllido (pan olygodd etholiadau ac oedi mewn rhyddhau cyllideb ddrafft yr hydref bod gallu Llywodraeth Cymru i gynllunio a chymeradwyo'r cyllid wedi ei oedi), ond roedd rhai'n cyfeirio at flynyddoedd cynharach a'r gwahaniaeth mewn amseriad cynllunio ysgol a chylchoedd cyllido.

4.10 Er enghraifft, mewn pedair ysgol roedd cyfweleion yn feirniadol o'r ffaith eu bod wedi derbyn cadarnhad o'u dyraniad cyllido ar gyfer y flwyddyn ganlynol dim ond ar ddiwedd tymor yr haf. Fel y nodwyd gan un Pennaeth: *'cyrhaeddodd ein cynllun am 4.30pm ar ddiwrnod olaf y tymor. Mae'n anodd iawn i reoli'n effeithiol ymyrraeth pan fo cadarnhad yn cyrraedd mor hwyr, yn enwedig gan fod rhai aelodau o'r staff cymorth a oedd yn dibynnu ar gyllid HYC eisoes wedi dechrau ar eu gwyliau haf heb wybod a oedd ganddynt swydd ym mis Medi ai peidio'* (Pennaeth mewn ysgol LlLl). Eglurodd Pennaeth arall yr angen ymarferol am hysbysiad cynharach, gan ddweud: *'gall swm y cyllid a dderbynnir gael goblygiadau mawr ar ymarferoldeb y cynllun* [CDY] *yn ei gyfanrwydd. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod llawer o'r gweithgareddau yn y cynllun yn gysylltiedig â'i gilydd. Os na fydd cyllid ar gyfer un ohonynt yn dod caiff oblygiadau ar gyfer rhai eraill. Yn ymarferol, bu'n rhaid i ni fod yn greadigol yn y modd y caiff cyllido ei ddefnyddio er mwyn darparu ar gyfer hyn* (Uwch Arweinydd mewn ysgol LlLl).

4.11 Cwestiynodd cyfweleion mewn tair ysgol arall pa mor ddigonol oedd y cyllid a'r cydbwysedd rhwng cyllido cyfalaf a refeniw. Fel y dywedodd un uwch arweinydd, *'mae cyllid HYC wedi caniatáu i ni gamu'n ôl o ymyl y dibyn… [ond] prin wedi crafu'r wyneb o'r hyn sydd ei angen i wneud i'r ysgol weithio mae lefel y buddsoddiad hyd yma'.* Dywedodd un arall: *'O gofio cyflwr yr Awdurdod Lleol [cyllid] rydym wedi bod yn ffodus i gyrchu cyllid cyfalaf. Fodd bynnag, poer yn y môr yw hwn o gymharu â phan fyddwch chi'n ystyried cyflwr rhai o flociau'r ysgol. Allwn ni ddim fforddio rhoi cot o baent ar y waliau.'* (Pennaeth mewn Ysgol LlLl).

4.12 Mae'n bwysig cydnabod nad oedd y profiad hwn yn un cyffredinol. Fel y nodwyd gan un Uwch Arweinydd, *'yn dilyn y* [lleihad mewn niferoedd disgyblion] *mae cyllid HYC wedi caniatáu i ni symud pethau yn eu blaenau a chefnogi staff mewn ffordd na fyddem wedi gallu ei fforddio* [fel arall]*'* (Uwch Arweinydd mewn ysgol LlLl).

4.13 Mae'r enghreifftiau hyn yn amlygu nifer o wahanol faterion, yn cynnwys i ba raddau y mae cyllid LlLl wedi'i alinio'n gywir gyda chylchoedd cynllunio ac i ba raddau y mae amgylchiadau ysgol yn effeithio ar lefel a math yr angen.

**Gweithio mewn clwstwr**

4.14 Dros gyfnod yr HYC, anogwyd ysgolion LlLl i wella ansawdd eu gweithgarwch cydweithredu o fewn eu clwstwr ysgolion (a ystyrir yn gyffredinol i gynnwys ysgolion cynradd lleol/sy'n bwydo). (Llywodraeth Cymru, 2014b). Yn tanategu'r dull hwn a awgrymir oedd y disgwyliad y byddai gweithio'n well mewn clwstwr yn sicrhau bod budd HYC yn cael ei rannu ar draws y dirwedd addysg ehangach.

4.15 Yn 2016, ac yn gyson â dyheadau nifer o'r cyfweleion yn 2015, roedd tystiolaeth i awgrymu bod nifer yr ysgolion LlLl oedd gweithio gyda'u clwstwr wedi cynyddu o bron i ddwy ym mhob tair ysgol i bron pob un (pedair o bob pump). Yn ychwanegol at hyn, mewn ysgolion oedd wedi gweithio gyda'u clwstwr cyn HYC, dywedodd y cyfweleion bod ansawdd (ac yn wir swm) y gwaith cydweithredu wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf.

4.16 Yn ogystal, roedd pwyslais cynyddol ar ddulliau oedd wedi'u cynllunio i **gefnogi gwelliannau yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu**. Roedd nifer o ddulliau cyffredin y gellid eu gweld. Roedd y rhain yn cynnwys:

- **Recriwtio/rhyddhau staff i gefnogi gweithio mewn clwstwr**: Mewn bron i ddwy o bob pump o'r ysgolion LlLl roedd tystiolaeth bod staff wedi cael eu recriwtio i gefnogi gweithio mewn clwstwr neu fod staff (fel arfer o'r ysgolion LlLl) wedi cael amser i wneud y rôl hon. Er bod yr amcanion penodol yn amrywio rhwng un clwstwr â'r llall, roedd nodau cyffredin yn cynnwys gwella'r ansawdd addysgu a dysgu mewn pynciau craidd. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y pwyslais fel petai ar wella sgiliau ymarferwyr cynradd. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, roedd staff wedi hwyluso cyfleoedd i staff cynradd ac uwchradd ryngweithio a rhannu arfer effeithiol mewn diwallu anghenion disgyblion (yn arbennig y rheini o gefndiroedd o amddifadedd).
- **Sefydlu rhwydweithiau cefnogi cymar i gymar:** Mewn ychydig dan hanner yr ysgolion hynny a oedd yn rhan mewn gweithgarwch cydweithredu, roedd uwch arweinwyr wedi cytuno i adnoddu datblygiad 'rhwydweithiau cefnogi cymar i gymar' neu (fel y disgrifiwyd yn aml gan y cyfweleion) *'triadau athrawon'*. Fel arfer roedd y rhain yn cynnwys arbenigwr pwnc o ysgol LlLl a dau ymarferydd cynradd o wahanol ysgolion clwstwr. Roedd y rhan fwyaf o rwydweithiau'n dueddol o fod yn bwnc benodol (Cymraeg a/neu Saesneg, mathemateg neu

wyddoniaeth) ac yn canolbwyntio ar thema benodol megis marcio llyfrau.

- **Alinio cynlluniau gwaith Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3:** Mewn naw clwstwr, dywedodd cyfweleion bod hyn wedi ei wneud yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3. Yn y rhan fwyaf o glystyrau roedd hyn yn rhywbeth parhaus, ac mewn rhai achosion roedd gwaith o'r fath wedi cael peth llwyddiant cynnar. Mewn un clwstwr, roedd tystiolaeth bod athrawon Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7, yn dilyn cytundeb yr uwch dîm arwain ym mhob ysgol clwstwr, yn mynd i gynnal cynllun peilot o gynllun gwaith newydd a ddatblygwyd ar y cyd mewn gwersi Saesneg a mathemateg. Wedi'u cynllunio i osgoi'r hyn a ddisgrifiodd un cyfwelai fel *'y cyfnod llusgo hwnnw ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 8'* ac yn seiliedig ar y fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, bwriad y cynlluniau gwaith oedd *'cefnogi dull trawsgwricwlaidd ar gyfer addysgu llythrennedd a rhifedd'.* Roedd yr uwch reolwyr yn teimlo y byddai'r broses ddysgu yn gwella drwy alinio'n well y cynnwys a addysgwyd i bob grŵp blwyddyn a defnyddio dulliau addysgeg tebyg.

4.17 Roedd peth pwyslais ar **gymedroli asesiadau athrawon** yng Nghyfnod Allweddol 2, er y dywedodd rhai cyfweleion bod y cymedroli traws-gyfnod hwn (a oedd yn groes i'r hyn yr oeddent wedi bod yn ei wneud yn flaenorol) nawr yn dod yn arfer safonol. Fel y nodwyd gan un Uwch Arweinydd: *'Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae gwelliant mewn cymedroli wedi golygu bod myfyrwyr nawr yn dod* [i'r ysgol LlLl] *gyda chanlyniadau llawer mwy cywir'.* Roedd ffocws ar gefnogi **gweithgareddau pontio**, wedi'u targedu at gefnogi lles cymdeithasol ac emosiynol disgyblion wrth iddynt symud i Flwyddyn 7, yn amlwg mewn clystyrau a oedd yn gysylltiedig i ychydig dan draean o'r ysgolion LlLl.

4.18 Er gwaethaf tystiolaeth sy'n awgrymu cynnydd mewn gweithio clwstwr dros y flwyddyn ddiwethaf, dim ond ychydig o'r cyfweleion oedd yn gallu darparu tystiolaeth galed i ddangos effaith gweithgaredd. Nid yw hyn yn syndod o gofio'r amser byr y mae'r gweithgaredd wedi bod yn digwydd. Bydd canlyniadau nifer o'r gweithgareddau cysylltiedig â'r cwricwlwm i gefnogi pontio effeithiol ond yn dod yn amlwg unwaith y bydd disgyblion wedi symud, ac efallai y gwelir y gwir effaith dim ond unwaith y bydd disgyblion yn cyrraedd diwedd Cyfnod Allweddol 3.

4.19 Pan ofynnwyd iddynt ystyried y prif ysgogwr a oedd yn gyfrifol am gynnydd mewn gweithio clwstwr, nododd y cyfweleion mai'r prif un oedd argaeledd cyllid HYC i gefnogi'r math hwn o weithgaredd. Fel y nodwyd gan un uwch arweinydd, *'allwch chi ddim dianc rhag y realiti, sef arian. Mae yna lawer o*

*bethau yr hoffwn eu gwneud, ond gwn na fyddai ysgolion eraill yn gallu eu gwneud'* (Uwch Arweinydd mewn ysgol gynradd). Mae'r ddibyniaeth amlwg hon ar gyllid HYC i gefnogi rhyddhau staff yn awgrymu y gallai problem godi o ran cynaliadwyedd gweithio mewn clwstwr tymor hwy ar ôl i gyllid HYC ddod i ben. Roedd cyfweleion yn gallu nodi canlyniadau meddal (yn cynnwys mwy o ddealltwriaeth traws-gyfnod), ond er mwyn argyhoeddi ysgolion i barhau i gefnogi eu gweithio clwstwr, o gofio pwysau arall ar amser, efallai y bydd angen i ysgolion weld effaith ar ganlyniadau 'caled' ar gyfer disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth**

4.20 Yn gyson ag uchelgais Llywodraeth Cymru i gefnogi datblygiad system ysgolion hunan-wella (gweler Crudas, 2015), anogwyd ysgolion LlLl, pan fo hynny'n briodol, i gydweithio gydag ysgolion uwchradd eraill (wedi'u lleoli yng Nghymru ac mewn mannau eraill).

4.21 Mae'n werth nodi, ers y don gyntaf o waith maes, mae cyfran yr ysgolion sy'n gweithio gyda phartneriaid uwchradd wedi cynyddu o tua tair o bob pump i tua pedair o bob pump. Fel yn 2015, roedd mwyafrif yr ysgolion yn gweithio gyda nifer o bartneriaid, gyda phwyslais ar ddatblygu cysylltiadau oedd naill ai â 'maes arbenigedd' yr oedd yr ysgolion LlLl yn teimlo y gallent elwa ganddo neu'n 'fater/her a rennir' y gallent gydweithio arno/arni i ddatblygu ateb a rennir. Mewn nifer o achosion, nododd y cyfweleion bod y cysylltiadau cryfaf wedi eu datblygu gydag ysgolion LlLl eraill.

4.22 Mewn nifer o achosion, yr ysgogiad tu ôl i ganfod partner priodol oedd Cynghorydd ysgol. Roedd y cyfweleion wedi datblygu perthynas gydag ysgolion LlLl eraill yr oedd eu Cynghorydd wedi bod yn gweithio gyda hwy ac, mewn rhai achosion, roedd ysgolion LlLl wedi datblygu perthynas gydag ysgol yr oedd eu Cynghorydd wedi bod yn uwch arweinydd ynddi'n flaenorol.

4.23 Efallai nad yn syndod, roedd nodau'r berthynas gydweithredu a ddatblygwyd gan ysgolion LlLl yn amrywiol, yn aml yn dibynnu ar hynafedd ac arbenigedd yr ymarferwyr oedd yn gysylltiedig. Er enghraifft, er bod rhai ysgolion wedi ceisio datblygu ansawdd eu dull ar gyfer hunanwerthuso, roedd eraill wedi canolbwyntio ar wella ansawdd addysgu Bagloriaeth Cymru.

4.24 O gofio bod cymaint o amrywioldeb yn nodau gweithio mewn partneriaeth a'r modd anffurfiol y gwnaed llawer o'r gwaith hwn, nid yw efallai'n syndod bod tystiolaeth ynglŷn â budd y gwaith yma (mewn helpu ysgolion LlLl i gyflawni eu hamcanion gwella ysgol) yn brin ar y cam hwn. Wrth i Lywodraeth Cymru barhau i annog ysgolion i gynyddu amlder a gwella ansawdd gweithgarwch cydweithio (boed hynny mewn partneriaeth â chymheiriaid neu mewn

clystyrau) efallai y bydd hi’n bwysig ystyried a oes angen mwy o eglurder o ran nodau i gynorthwyo ysgolion i nodi buddiannau posibl (a gwirioneddol).

# 5. Cyfraniad Cynghorwyr Her

**Canfyddiadau Allweddol**

Defnyddiodd y Cynghorwyr lawer o ddisgresiwn yn y modd yr oeddent yn ymgysylltu â'u hysgol(ion). Gwnaethant ddefnyddio'r disgresiwn hwn i nodi'r heriau allweddol oedd yn dal perfformiad ysgol yn ôl ac yna gweithredu i fynd i'r afael â'r problemau.

- Lle nodwyd mai gallu'r Uwch Dîm Arwain presennol oedd y prif rwystr i wella, roedd Cynghorwyr wedi cymryd ystod o rolau i sefydlogi'r ysgol, weithiau y tu hwnt i'r hyn y gellid fod wedi ei ragweld gan 'gynghorydd' allanol.
- Wrth i ysgolion wella, newidiodd y Cynghorwyr eu dull, gan ddod yn fwy o gyfaill beirniadol a chanolbwyntio mwy ar weithgareddau i gynorthwyo i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu ac ar wella hunanwerthuso, yn arbennig drwy well casglu a rheoli data yn yr ysgol.
- Yn yr ysgolion a wnaeth gynnydd clir dros y ddwy flynedd, ehangodd y Cynghorwyr ystod eu gwaith i gynnwys gweithgareddau mewnol (canolbwyntio gwaith gydag adrannau a ystyriwyd yn llai llwyddiannus neu effeithiol) a gweithgareddau allanol gyda chlystyrau neu ysgolion partneriaeth.

Yn gryno, gweithiodd Cynghorwyr fwy mewn partneriaeth gydag ysgolion oedd yn perfformio'n well ac roeddent yn fwy cyfeiriol gydag ysgolion oedd yn cael trafferthion.

Soniodd nifer o ysgolion LILI yn ffafriol am werth eu Cynghorydd mewn cefnogi gwelliant ym mherfformiad yr ysgol. Mynegodd y mwyafrif rywfaint o amheuon ynglŷn â sut y gellid ymwahanu gwerth y Cynghorydd oddi wrth ffactorau eraill sydd ar waith o fewn a thu hwnt i'r ysgol.

Mewn rhai o'r ysgolion mwy heriol, dywedwyd bod presenoldeb y Cynghorydd wedi bod yn ffynhonnell sefydlogrwydd a chefnogaeth. Lle'r oedd yr arweinwyr yn barod i dderbyn gwelliant, roedd gan y Cynghorydd well cyfle i gynorthwyo'r ysgol i nodi ei phrif heriau a chynllunio ymyriadau priodol.

Roedd cryfder y berthynas rhwng y Cynghorydd a'r Pennaeth yn ganolog. Lle nad oedd y Cynghorydd a'r Pennaeth wedi datblygu perthynas dda, cafodd hyn effaith negyddol ar allu'r Cynghorydd i ddylanwadu ar welliant ysgol.

5.1 Clustnodwyd Cynghorydd Her Ysgolion Cymru (Cynghorydd) i bob ysgol LlLl. Rôl y Cynghorydd oedd cefnogi'n weithredol welliant ysgol yn ei ysgol(ion) LlLl. Recriwtiwyd Cynghorwyr yn seiliedig ar gefndir cryf ym myd addysg, gyda'r rhan fwyaf yn gyn Benaethiaid neu'n Uwch Arweinwyr. Roedd gan Gynghorwyr hyd at 25 o ddiwrnodau o gefnogaeth broffesiynol ar gael i bob ysgol LlLl bob blwyddyn ond defnyddiwyd y lwfans hwn yn hyblyg.

5.2 Ar draws y 39 ysgol LlLl, bu cyfradd resymol o ddilyniant a sefydlogrwydd ymhlith dyraniad y Cynghorwyr Her, gyda mwyafrif yr ysgolion yn cael yr un Cynghorydd dros ddwy flynedd HYC. Clustnodwyd Cynghorydd newydd i tua un o bob tair ysgol yn ystod 2015/16, gyda'r newidiadau'n cael eu gwneud ar sail meysydd arbenigedd, salwch, ymddeoliad neu, mewn rhai achosion, yr angen i gydbwyso eu baich gwaith. Roedd ysgolion a gadwodd yr un Cynghorydd fel petaent yn gwerthfawrogi'r dilyniant, o ran y berthynas yr oeddent wedi ei sefydlu a/neu ddealltwriaeth Cynghorydd o'u hysgol. Daeth asesiad o'r Cynghorwyr ym mlwyddyn gyntaf HYC i'r casgliad bod gan y rhai mwyaf effeithiol sgiliau rhyngbersonol cryf a'u bod wedi datblygu perthynas dda gyda'r Pennaeth a'r Uwch Dîm Arwain. Roedd hyn hefyd yn wir yn 2015/16, gyda pherthynas gadarnhaol yn cael ei chryfhau ymhellach gan ddealltwriaeth gynyddol y Cynghorydd o'r ysgol. Dywedodd un Pennaeth, "*Roedd sôn ar ddechrau'r flwyddyn am ail-drefnu rhai o'r Cynghorwyr Her rhwng ysgolion, ond teimlai'r uwch dîm arwain na fyddent yn cytuno i newid y Cynghorydd Her. Roeddent wedi meithrin perthynas waith dda gydag ef ac nid oeddent am weld newid.*" (Pennaeth ysgol LlLl)

5.3 Lle'r oedd ysgolion wedi gweld newid mewn Cynghorydd, y teimlad cyffredinol oedd bod y Cynghorydd newydd yn gallu darparu gwell cefnogaeth. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn well oherwydd bod y Pennaeth a'r Cynghorydd yn gallu datblygu gwell perthynas, Mewn achosion eraill, roedd hyn oherwydd bod llwyth gwaith y Cynghorydd blaenorol fel petai wedi cyfyngu ar ein gallu i gefnogi'r ysgol mewn ffordd a oedd yn gymesur â disgwyliadau'r Pennaeth. Mewn ysgolion lle teimlwyd bod Cynghorwyr yn methu rhoi digon o amser i ysgolion, y farn oedd bod eu cyfraniad yn llai effeithiol.

5.4 Fodd bynnag, soniodd ysgolion hefyd am "*ychydig o darfu*" a achoswyd gan y trosglwyddo o un Cynghorydd i un arall a'r amser oedd ei angen i sefydlu perthynas newydd. Roedd o leiaf un ysgol yn ymwybodol ei bod yn mynd i gael trydydd Cynghorydd ym mlwyddyn olaf HYC. O gofio'r pwyslais yr oedd y rhan fwyaf o Benaethiaid yn ei roi ar feithrin perthynas gyda'u Cynghorydd, roedd y lefel hon o newid yn destun pryder. Roedd dilyniant yn weddol uchel yn yr ysgolion Grŵp A, er bod dwy o'r wyth wedi gweld newid yn eu Cynghorydd, gan adlewyrchu'r angen i gydbwyso llwyth gwaith a rhoi digon o amser i'r ysgolion.

5.5 Mae'r adran hon yn ystyried cyfraniad Cynghorwyr i gefnogi newidiadau mewn ysgolion LlLl, yn benodol:

- y dulliau a fabwysiadwyd gan Gynghorwyr i gefnogi ysgolion LlLl
- y rhesymau dros amrywioldeb yn y dulliau a ddefnyddiwyd
- y graddau yr ystyrir bod Cynghorwyr wedi cefnogi newidiadau mewn ysgolion LlLl
- effeithiolrwydd gwahanol ddulliau mewn cefnogi gwelliant ym mherfformiad ysgolion LlLl.

**Mathau o ddulliau a chysondeb dulliau gyda pherfformiad blaenorol ysgol**

5.6 Ym mlwyddyn gyntaf HYC (2014/15), defnyddiodd y Cynghorwyr dri dull penodol i wella'r ysgolion LlLl a glustnodwyd iddynt, er bod rhai wedi cyfuno'r dulliau hyn yn dibynnu ar y cyd-destun penodol a chynnydd yr ysgol yn ystod y flwyddyn. Y rhain oedd:

- Model 1: **canolbwyntio ar wella arweinyddiaeth a rheolaeth**. Lle'r oedd gallu'r Uwch Dîm Arwain presennol wedi'i nodi fel y prif rwystr i wella, roedd y Cynghorwyr wedi cymryd nifer o rolau er mwyn sefydlogi'r ysgol, weithiau y tu hwnt i'r hyn y byddai wedi ei ragweld gan 'gynghorydd' allanol.
- Model 2: canolbwyntio ar wella ysgol a chynllunio. Mewn ysgolion a ystyriwyd eu bod yn sefydlog, ond lle teimlwyd bod angen cefnogaeth ychwanegol ar Uwch Arweinwyr os oedd yr ysgol yn mynd i wella, mabwysiadodd y Cynghorwyr rôl **cyfaill beirniadol**, gan ganolbwyntio'n aml ar gefnogi Uwch Arweinwyr i wella ansawdd eu seilwaith **hunanwerthuso**.
- Model 3: pwyslais ar **gefnogaeth arbenigwr** ar gyfer gwella ysgol a chynllunio. Mewn ysgolion a ystyriwyd i fod wedi dechrau gwella cyn eu cynnwys yn HYC, yn aml roedd Cynghorwyr wedi cymryd rôl fwy cyfyngedig, gan wneud dyletswyddau mwy penodol a mwy cul.

5.7 Roedd rôl Cynghorwyr yn 2015/16 ar y cyfan yn disgyn i'r un categorïau, gyda Chynghorwyr yn pwysleisio'r angen i fodelu a rhannu arfer da. Roedd y ffocws yn llai ar arloesedd (er bod llawer o'r gweithredu yn newydd i'r ysgolion unigol) nag ar ddulliau effeithiol ar gyfer gwella ysgol. Ar gyfer Cynghorwyr oedd naill ai'n newydd i HYC neu'n newydd i'r ysgol, roedd angen iddynt adolygu potensial yr ysgol ar gyfer gwella, yn arbennig gallu'r Pennaeth a'r Uwch Dîm Arwain, oherwydd mai dyma'r prif lwybr i Gynghorydd ddylanwadu ar drywydd

datblygiad yr ysgol. Lle'r oedd y Pennaeth neu'r UDA yn llai effeithiol, mabwysiadodd y Cynghorwyr Fodel 1, gan ganolbwyntio ar wella arweinyddiaeth a rheolaeth fel rhag-amod ar gyfer gwella ysgol yn ehangach. Lle'r oedd ysgolion mewn sefyllfa i wella neu eu bod eisoes yn gwella, defnyddiodd y Cynghorwyr ddull a oedd yn agosach i Fodel 2 (y cyfaill beirniadol) neu Fodel 3 (cefnogaeth arbenigol) neu gyfuniad o'r ddau.

5.8 Ar gyfer Cynghorwyr a barhaodd gyda'r un ysgol am yr ail flwyddyn, yn nodweddiadol nid oedd angen Model 1 oherwydd y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn gyntaf. Mewn rhai ysgolion heriol iawn (neu lle'r oedd ysgolion wedi profi cynnwrf ychwanegol yn ystod blwyddyn 2015/16), gellid dal gweld Model 1 er bod cefnogaeth wedi'i hymestyn yn gyffredinol y tu hwnt i'r Pennaeth a'r UDA ymhellach i lawr i arweinwyr canol.

5.9 Mewn ysgolion eraill, roedd tuedd i weld symudiad tuag at rôl cyfaill beirniadol neu gefnogaeth arbenigol, yn dibynnu ar y cynnydd a wnaed a'r amgylchiadau allanol. Roedd tystiolaeth bod Cynghorwyr yn newid eu dull pan fo ysgolion yn gwneud yn well, boed o ran lleihau'r amser a dreuliwyd yn yr ysgol neu'n bod yn llai cyfeiriol gyda'r Pennaeth. Roedd y gefnogaeth yr oeddent yn ei chynnig yn tueddu i ganolbwyntio mwy ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu ac ar wella hunanwerthuso, yn arbennig drwy well casglu a rheoli data. Yn yr ysgolion a oedd wedi gwneud cynnydd clir, ehangodd y Cynghorwyr ystod eu gwaith i gynnwys gweithgareddau mewnol (yn canolbwyntio gwaith gydag adrannau y tybiwyd eu bod yn llai llwyddiannus neu effeithiol) a gweithgareddau allanol gyda chlystyrau neu ysgolion partneriaeth. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o ysgolion roedd y Cynghorwyr yn parhau i gynnal rhai gweithgareddau'n ymwneud ag arweinyddiaeth a rheolaeth, gyda chyfweleion yn gweld bod sylw parhaus yn y maes hwn yn bwysig er mwyn cynnal a gwella perfformiad ysgol.

5.10 Mabwysiadodd y Cynghorwyr wahanol ddulliau strategol ond roedd fel petai dewislen graidd o weithgareddau yr oedd yr holl Gynghorwyr yn dewis ohoni. Roedd y defnydd penodol a'r pwysau a roddwyd i'r gweithgareddau hyn yn amrywio yn ôl nodau cyffredinol y Cynghorydd yn ei waith gyda'r ysgol. Yn y bôn, addasodd y Cynghorwyr eu dull yn ôl y prif heriau a nodwyd gan yr ysgol. Roedd y ddewislen o weithgareddau yn cynnwys:

- **Rheoli/arwain y BGC**: Roedd Cynghorwyr mewn ysgolion ar draws y tri grŵp (A, B ac C) yn ymwneud yn agos yn y BGC, gan awgrymu nad oedd rheolaeth o'r fath wedi'i gysylltu'n llwyr i lefelau datblygiad. Yn fwyaf cyffredin, disgrifiwyd y cyfarfodydd BGC fel proses ar gyfer annog tryloywder, monitro perfformiad a chefnogi'r ysgol yn ei hymdrechion i wella. Mewn rhai achosion teimlwyd bod gan y Cynghorwyr disgwyliadau rhy uchel o'r mynychwyr. "*Mae'r cynllunio a'r gwerthuso sy'n digwydd mewn cyfarfodydd BGC yn drylwyr iawn. Mae'r*

*Cynghorydd Her yn craffu'n ofalus iawn ar bopeth ac mae'n rhaid i'r holl athrawon/arweinwyr ddod i'r sesiynau wedi paratoi'n iawn*" (Uwch Arweinydd, Cynradd Clwstwr ac Aelod BGC). Lle'r oedd y Pennaeth a'r UDA yn llai cryf, roedd y broses hon yn dueddol o gael ei hysgogi yn fwy gan y Cynghorydd nac arweinwyr yr ysgol. Teimlwyd bod y cyfarfodydd hefyd yn fforwm allweddol i randdeiliaid allweddol, megis Cadeirydd Llywodraethwyr a Phenaethiaid clwstwr cynradd, i ryngweithio gyda'r Cynghorydd. Roedd yr elfen hon yn dueddol o gael ei gwerthfawrogi'n fwy mewn ysgolion a oedd yn gwneud yn well, fel ffordd o roi cyhoeddusrwydd am eu gwelliant i'r unigolion hyn.

- **Cefnogi CDY yr ysgol**: roedd faint o gysylltiad oedd gan y Cynghorydd yn natblygiad CDY yn dibynnu'n rhannol ar allu a hyder y Pennaeth a'r UDA i gymryd y rôl hon ac yn rhannol ar y berthynas rhwng y Pennaeth a'r Cynghorydd. Roedd hi'n ymddangos bod continwwm, o gadarnhau cynnwys y cynllun, drwy gynghori a hysbysu, i ysgrifennu cynnwys y cynllun. Yn nodweddiadol, roedd ysgolion a oedd yn gwneud mwy o gynnydd yn fwy tebygol i nodi bod y Cynghorydd wedi eu cynorthwyo i fireinio neu wneud mân addasiadau i'w CDY, lle'r oedd ysgolion a oedd yn dal i gael trafferthion yn derbyn mwy o fewnbwn neu drosolwg. Fodd bynnag, nid oedd rôl Cynghorydd yn dibynnu yn unig ar allu'r Pennaeth i gynhyrchu cynllun cadarn. Mewn rhai achosion soniodd y cyfweleion y byddai Pennaeth gwan yn cadw perchnogaeth ar y CDY yn hytrach na derbyn mewnbwn gan Gynghorydd. Roedd rhai Penaethiaid cryfach yn amlwg yn gwerthfawrogi gwybodaeth a phrofiad y Cynghorydd ac yn ymddangos fel petaent yn fwy agored i'w gyfraniad.

- **Cynghori ar reoli perfformiad**: Dywedodd hanner yr ysgolion LlLl bod hon yn rôl bwysig ar gyfer y Cynghorydd ac roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn ysgolion Grŵp B. Yn aml dywedwyd bod Cynghorwyr yn hollbwysig i gynllunio systemau rheoli perfformiad newydd a hyfforddi staff ynglŷn â sut i'w defnyddio a thrin data'n effeithiol.

- **Cefnogi gyda materion staffio** megis recriwtio neu symud staff o'u swyddi. Cyfyngwyd hyn yn bennaf i ysgolion mewn amgylchiadau mwy heriol a dim ond ychydig o Gynghorwyr oedd yn rhan o hyn. Mewn sefyllfa o'r fath, teimlwyd bod eu mewnbwn yn werthfawr. Dywedodd un Pennaeth ei fod yn gwerthfawrogi, "cael ail farn ar faterion staffio mwy anodd."

- **Cynnal prosiectau penodol**: Arweiniodd Cynghorwyr ar ystod eang o brosiectau a gweithgareddau penodol megis sicrhau ansawdd craffu ar lyfrau, cynnal teithiau dysgu ac arsylwi ar wersi, cynnal adolygiadau o

adrannau, delio â materion ymddygiad, hyfforddi llywodraethwyr a broceru partneriaethau gydag ysgolion eraill. Yn nodweddiadol cynhaliodd y Cynghorwyr brosiectau diffiniedig yn unol â'u profiad eu hunain a gofynion penodol yr ysgol. Er enghraifft, adolygodd un Cynghorydd, oedd â phrofiad fel athro mathemateg, yr adran fathemateg mewn un ysgol ac yna gwneud argymhellion ar ffyrdd y gellid ei gwella. Roedd gweithgareddau o'r fath yn aml yn fwy ymarferol mewn ysgolion lle'r aed (neu yr eir) i'r afael â heriau strwythurol, nac mewn ysgolion a oedd eisoes yn gwneud cynnydd.

**Rhesymau dros amrywiaeth mewn dulliau**

5.11 Ar y cyfan, roedd gan Gynghorwyr lawer o ddisgresiwn ynglŷn â sut yr oeddent yn ymgysylltu â'u hysgol. Gwnaethant ddefnyddio'r disgresiwn hwn i nodi'r heriau allweddol a oedd yn dal perfformiad yr ysgol yn ôl ac yna gweithredu i fynd i'r afael â'r problemau hyn. O gofio bod llawer o ysgolion yn wynebu problemau tebyg, nid yw'n syndod bod nifer o Gynghorwyr wedi defnyddio dulliau tebyg. Y flaenoriaeth gyntaf ar gyfer y rhan fwyaf o Gynghorwyr oedd sicrhau cryfder Penaethiaid ac UDA, a'i ddilyn yn agos gan ffocws ar hunanwerthuso a rheoli perfformiad, ac yna ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

5.12 Roedd gan Gynghorwyr hefyd gasgliad tebyg o adnoddau a llwybrau i ddylanwadu, sef mandad i ymgysylltu â'r Pennaeth, y BGC, a chadarnhau'n ffurfiol y cais am gyllid HYC. Mae hyn yn esbonio ymhellach pam y cynhaliodd nifer ohonynt weithgareddau tebyg.

5.13 Yn olaf, roedd hi'n amlwg bod dulliau Cynghorwyr yn amrywio ar draws ysgolion yn dibynnu ar drywydd y gwelliant. Er enghraifft, roeddent yn dueddol o ddarparu cefnogaeth fwy dwys ar arweinyddiaeth i'r ysgolion hynny a oedd yn yr amgylchiadau mwyaf heriol (ysgolion Grŵp A). Fodd bynnag, roedd hi hefyd yn bwysig i nodi bod dulliau'n gwahaniaethu yn ôl personoliaeth y Cynghorydd, y Pennaeth ac yna eu perthynas Er enghraifft, roedd hi'n well gan rai Penaethiaid gyfyngu rhyngweithio gyda'r Cynghorydd iddynt hwy eu hunain (a/neu eu UDA), lle'r oedd eraill yn hapus i'r Cynghorydd ryngweithio gyda'r corff staff ehangach a chymryd rhan mewn prosiectau penodol yn yr ysgol.

5.14 Yn y bôn, gweithiodd Cynghorwyr yn fwy mewn partneriaeth gydag ysgolion a oedd yn perfformio'n well ac yn fwy cyfeiriol gydag ysgolion a oedd yn cael trafferthion. Erbyn 2015/16, roedd nifer o ysgolion LlLl yn ymgysylltu mewn ystod eang o weithgareddau yn ymwneud ag agweddau mwyaf allweddol gwella ysgol. Roedd y broses a ddefnyddiodd y Cynghorydd i helpu i nodi'r her a chynllunio a rhoi'r gefnogaeth ar waith yn amrywio'n sylweddol yn

dibynnu ar yr angen a pha mor dderbyngar oedd yr ysgol. Er bod gan bob ysgol fynediad at gefnogaeth ar gyfer arweinyddiaeth, roedd hyn yn amrywio o'r sylfaenol (megis recriwtio Pennaeth newydd) i gefnogi arweinyddiaeth ddatganoledig (yn cynnwys adolygu cyfrifoldebau rheolwyr canol).

**Y graddau y mae Cynghorwyr wedi cefnogi newidiadau mewn ysgolion LlLl ac effaith y newidiadau hynny ar berfformiad yr ysgol**

5.15 Soniodd nifer o ysgolion LlLl yn ffafriol am werth eu Cynghorydd mewn cefnogi gwelliant ym mherfformiad yr ysgol, er bod dyrnaid ohonynt yn teimlo nad oedd y Cynghorydd wedi gwneud cyfraniad amlwg. Fodd bynnag, mynegodd y mwyafrif rywfaint o amheuon ynglŷn â sut y gellid ymwahanu gwerth y Cynghorydd oddi wrth ffactorau eraill sydd ar waith oddi mewn a thu hwnt i'r ysgol. Roedd hyn yn fwyaf amlwg o ran ansawdd y Pennaeth a'r UDA yr oeddent yn gweithio gyda hwy. Lle nad oedd arweinyddiaeth yn gryf, gallai effaith y Cynghorydd ar yr ysgol ehangach gael ei chyfyngu'n sylweddol, oni bai a hyd nes y gallent symud neu gryfhau'r Pennaeth neu'r UDA annigonol.

5.16 Lle'r oedd arweinyddiaeth yn gryfach, neu o leiaf yn barod i wella, roedd gan y Cynghorydd well cyfle i gynorthwyo ysgolion i nodi'n gywir y prif heriau a chynllunio ymyriadau priodol. Yn wir, rhoddwyd clod i Gynghorwyr am roi gallu ychwanegol, safbwynt annibynnol, syniadau ffres a chysylltiadau allanol i ysgolion (ac yn arbennig Penaethiaid). Disgrifiwyd rôl y Cynghorydd fel: "*Mae'r Cynghorydd Her wedi rhoi bwrdd seinio i'r Pennaeth; gall bod yn arweinydd fod yn rôl unig, felly rwy'n teimlo bod y Pennaeth wedi gwerthfawrogi cael rhywun i drafod syniadau*" (Cadeirydd Llywodraethwyr, ysgol LlLl). Yn rhai o'r ysgolion mwy heriol, dywedwyd bod presenoldeb Cynghorydd yn ffynhonnell o sefydlogrwydd a chefnogaeth, a'u cynorthwyodd i ddod drwy gyfnod anodd.

5.17 Cafodd y Cynghorwyr effaith pan oeddent yn gallu dylanwadu ar newidiadau strwythurol mewn ysgolion, er enghraifft drwy gryfhau hunanwerthuso a rheoli perfformiad, yn arbennig drwy drin data yn well. Gallai'r gwaith hwn roi mewnwelediadau gwirioneddol i staff i sut yr oedd eu hysgol yn gweithio a bod yn gatalydd ar gyfer newid mewn diwylliant. Fel y nodwyd ym Mhennod 3, amlygodd adolygiad allanol o addysgu mewn un ysgol (a sbardunwyd gan Gynghorydd Her) y bwlch rhwng canfyddiadau'r ysgol a'r sefyllfa mewn gwirionedd gan hybu adolygiad mewnol mwy trylwyr.

5.18 Ar gyfer nifer o ysgolion, roedd ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn fater pwysig. Fodd bynnag, nid oedd Cynghorwyr mewn gwirionedd mewn sefyllfa i effeithio'n uniongyrchol ar newid mewn perfformiad ysgol yn hyn o beth. Golygodd natur rôl y Cynghorydd ei fod wedi cynorthwyo'r ysgol i fod mewn sefyllfa lle gallai wella (neu barhau i wella) yn hytrach na dylanwadu'n

bersonol ar welliant uniongyrchol. Mewn geiriau eraill, gwnaethant gynorthwyo i wella ffactorau strwythurol megis arweinyddiaeth a rheolaeth neu ddull yr ysgol ar gyfer hunanwerthuso. Wedi dweud hynny, roedd amrywiol achosion lle rhoddwyd clod i Gynghorwyr am ddylanwadu ar welliannau'n ymwneud â phrosiectau penodol a'u harbenigedd eu hunain, er y gwelwyd y rhain fel arfer mewn ysgolion a oedd eisoes ar y llwybr i wella.

5.19 Roedd hefyd rai enghreifftiau nodedig o Gynghorwyr yn helpu ysgolion i ddatblygu diwylliant o rannu arfer da, er enghraifft drwy annog arddangosfeydd mewn ystafelloedd dosbarth a thrafodaethau mwy agored rhwng athrawon ac ar draws adrannau. Fe wnaeth un Cynghorydd fodelu'n benodol ymddygiadau cadarnhaol er mwyn annog uwch arweinwyr i fynd yn agosach i'r ystafell ddosbarth. Yn ystod ymweliadau â'r ysgol ni wnaeth chwarae '*rôl y goruchwyliwr*' ond yn hytrach treuliodd y boreau mewn ystafelloedd dosbarth gydag uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn arsylwi ar wersi. Roedd hyn er mwyn pwysleisio'r ffaith bod gwella safonau yn yr ystafell ddosbarth yn gyfrifoldeb a rennir, gydag arweinwyr yr ysgol yn arsylwi ar ymarfer ac yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â beth oedd angen ei wneud.

**Effeithiolrwydd dulliau penodol mewn cefnogi gwelliant ym mherfformiad ysgolion LlLl**

5.20 Os derbynnir bod Cynghorwyr wedi'u cyfyngu yn eu gallu i ddylanwadu ar newid a chreu effaith yn ôl cyflwr arweinyddiaeth mewn ysgol, mae hi felly'n hollbwysig bod Cynghorwyr, pan fod arweinyddiaeth resymol ar waith, yn gallu sefydlu perthynas weithio effeithiol gyda'r Pennaeth a'r UDA. Dywedodd ysgolion bod Cynghorwyr yn fwyaf gwerthfawr pan fo perthynas bersonol dda rhwng y Cynghorydd a'r Pennaeth ac roedd hyn yn berthnasol ym mhob math o ysgol. Fel y dywedodd un cyfwelai, mae'n "*hynod bwysig bod teimlad cryf o gyffredinedd rhwng Pennaeth a'r Cynghorydd Her… mae'n ymwneud yn rhannol â pharch*" (Pennaeth, ysgol LlLl).

5.21 Lle nad oedd y Cynghorydd a'r Pennaeth wedi datblygu perthynas dda, weithiau oherwydd yr hyn ddywedwyd oedd yn "wrthdaro personoliaethau", cafodd hyn effaith negyddol ar allu'r Cynghorydd i ddylanwadu ar wella ysgol. Er enghraifft, mewn un ysgol roedd y Pennaeth yn ystyried y Cynghorydd fel rhywun "nad oedd newid arno", ac nid oedd hyn yn ffafriol i'r rôl yr oedd yr ysgol yn teimlo yr oedd arnynt angen i'r Cynghorydd ei chwarae. Mewn achosion eraill dywedwyd na lwyddodd y Cynghorydd i feithrin perthynas gadarnhaol gyda rhanddeiliaid pwysig eraill megis cynrychiolwyr awdurdod lleol. Mewn un ysgol, teimlwyd bod gelyniaeth ganfyddedig rhwng y Cynghorydd a'r cynrychiolydd Awdurdod Lleol ar y BGC yn cael dylanwad negyddol ar y broses gwella ysgol gyfan.

5.22 Gallai perthynas wael hefyd ddeillio o ddryswch ynglŷn â rôl y Cynghorydd. Gwelwyd enghreifftiau lle dywedwyd bod Cynghorydd wedi rhoi cyngor i arweinwyr canol a oedd fel petai'n croesddweud y cyfarwyddiadau gan y Pennaeth, neu lle'r oedd cyfathrebu gwael rhwng y Pennaeth, athrawon a'r Cynghorydd. Mewn un achos roedd hyn yn cynnwys y Cynghorydd ac aelod o staff yn cytuno ar weithredu heb hysbysu'r Pennaeth

5.23 Mae deall yr ysgol, ei heriau a lle dylid cyfeirio adnoddau er mwyn cael yr effaith orau yn yr hirdymor hefyd yn berthnasol i effeithiolrwydd Cynghorydd. Dywedodd un cyfwelai, "*mae Cynghorydd Her da yn tynnu sylw at y materion sylfaenol ac yn helpu'r Ysgol i fynd i'r afael â nhw*" (Pennaeth, ysgol LlLl). Nid gosod '*plaster dros y clwyfau'* yw'r broses. Meddai un arall, "*Allwch chi ddim dim ond cael yr arian - mae angen i chi wybod sut i'w wario!*" (Cadeirydd Llywodraethwyr, ysgol LlLl).

5.24 Nid dim ond ymwneud â'r gallu i feithrin perthynas oedd datblygiad dealltwriaeth, mae'n ymwneud hefyd â hygyrchedd, gyda'r dymuniad i'r Cynghorydd fod wedi'i leoli'n lleol ac nid, fel mewn rhai ysgolion, yng Ngogledd Lloegr neu ymhellach yng Nghymru. Roedd argaeledd hefyd yn bwysig, gyda chyfweleion ysgol yn nodi ymatebolrwydd Cynghorwyr i alwadau ffôn symudol neu negeseuon e-bost a hefyd yn gwneud sylwadau am eu presenoldeb yn yr ysgol. Lle nad oedd Cynghorydd yn buddsoddi digon o amser yn yr ysgol, y canfyddiad oedd mai cyfyngedig oedd ei ddealltwriaeth o'r ysgol, ei heriau a'i hasedau ac felly gallu cyfyngedig oedd ganddo i ddylanwadu ar wella ysgol. Teimlai un Uwch Arweinydd nad oedd y Cynghorydd wedi treulio digon o amser yn yr ysgol i ddeall yn llawn beth oedd ei angen a chynnig y gefnogaeth oedd eu hangen ar y Pennaeth. Mewn achos arall, fodd bynnag, canmolwyd hygyrchedd ac argaeledd y Cynghorydd: "*[Mae'r Cynghorydd] fel arfer yn dod am ddiwrnod llawn pan fo cyfarfod BGC wedi'i drefnu a bydd yn treulio amser gyda nifer o aelodau staff oddi wrth y Pennaeth*" (Cadeirydd Llywodraethwyr, ysgol LlLl).

**Tabl 5-1: Ffactorau sy'n cyfrannu at gefnogaeth effeithiol**

| |
|---|
| **Ar y cyfan, mae Cynghorwyr fel petaent fwyaf effeithiol:** |
| Pan fo ganddynt ddealltwriaeth dda o'r ysgol a'i heriau |
| Pan fo ganddynt berthynas gadarnhaol â'r Pennaeth a'r UDA |
| Pan fo dealltwriaeth a pherthynas yn cael eu cryfhau drwy ddilyniant |
| Pan fyddant yn addasu eu dull er mwyn gweddu i heriau penodol yr ysgol |
| Pan eu bod yn hygyrch i'r Pennaeth a'r ysgol |
| **Mae Cynghorwyr fel petaent yn fwyaf effeithiol mewn ysgolion sy'n cael trafferthion:** |
| Pan fo'r Pennaeth yn barod i wneud newidiadau *neu* y gellir ei ddisodli. Os yw arweinyddiaeth a rheolaeth yn aneffeithiol, ychydig o ddylanwad y gall Cynghroydd ei gael |
| Pan fo'r arweinyddiaeth yn barod i wella ac yn gallu gwella:<br>• gall Cynghorydd gynorthwyo ysgol i fynd i'r afael â ffactorau strwythurol megis hunanwerthuso a rheoli perfformiad, sy'n rhoi'r ysgol mewn sefyllfa i wella<br>• gall Cynghorydd gefnogi atebolrwydd drwy gynnal y BGC yn effeithiol |
| Os yw'r ysgol mewn sefyllfa anodd, gall Cynghorydd gynnig sefydlogrwydd a chefnogaeth |
| Gall y cyfuniad o brofiad uwch arwain a safbwynt rhywun o'r tu allan ganiatáu i Gynghorydd gefnogi ysgol sy'n delio â materion staffio anodd |
| **Mae Cynghorwyr fel petaent yn fwyaf effeithiol mewn ysgolion sy'n gwella:** |
| Pan fo arweinyddiaeth a rheolaeth yn broblem llai sylfaenol, gall Cynghorydd gefnogi ysgol i wella'r addysgu a'r dysgu |
| Mewn ysgolion lle mae'r amodau cyffredinol ar gyfer gwella ysgol ar waith, gall Cynghorydd gynnig gallu ychwanegol, safbwynt annibynnol, syniadau newydd a chysylltiadau allanol mewn perthynas â heriau mwy penodol |

## 6. Cyfraniad Byrddau Gwella Carlam

**Canfyddiadau allweddol**

Roedd canfyddiadau o rôl a gwerth BGC yn amrywio, er bod cytundeb cyffredinol ar draws ystod eang o gyfweleion ac ysgolion ynglŷn â gwerth a thryloywder y craffu a gynigiwyd gan BGC. Ystyriwyd hefyd eu bod yn gwneud y canlynol:

- cynnig teimlad o gyfrifoldeb ar y cyd
- hwyluso datrys problemau
- darparu her a chefnogaeth
- modd o ddatblygu uwch arweinwyr ac arweinwyr canol

Mae'r dystiolaeth yn dynodi bod BGC wedi cael swyddogaeth anuniongyrchol yn hytrach nac uniongyrchol mewn creu newid i ddylanwadu ar berfformiad ysgolion. Yn nodweddiadol mae BGC wedi gweithredu fel mecanwaith cefnogi ar gyfer y Pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn eu rôl hunanwerthuso ac ysgogi gwelliant ysgol.

Ar y cyfan bu BGC yn fwy effeithiol pan eu bod wedi eu lleoli mewn amgylchedd derbyngar. Felly, mae Pennaeth sy'n weithredol, galluog a brwd, sydd â pherthynas gadarnhaol â'r Cynghorydd, Uwch Dîm Arwain pryderus ac addawol, a system rheoli data gref, i gyd yn nodweddion ysgolion lle mae BGC wedi gallu gweithio'n fwy effeithiol.

Roedd BGC hefyd yn fwy effeithiol pan fyddai gan y mynychwyr brofiad perthnasol ac yn llai effeithiol pan gawsant eu gweld fel elfen ychwanegol o fiwrocratiaeth.

6.1 Roedd gofyn i bob ysgol LlLl sefydlu Bwrdd Gwella Carlam (BGC) fel amod ar gyfer cyfranogi yn HYC. Mae'r ddogfen ganllaw yn nodi mai prif dasg ar gyfer y BGC oedd '*sicrhau bod y strategaethau gwella yn cael eu gweithredu'n effeithiol a bod cynnydd cyflym yn cael ei wneud*'.

6.2 Wrth i'r BGC esblygu ac aeddfedu daethant yn gyd-destun lle'r oedd aelodau yn dal *ei gilydd* yn atebol am gyflawni tasgau a gytunwyd yn y cyfarfod blaenorol. Ar yr un pryd roeddent yn dal i gael eu gweld fel ffordd i ddal Uwch Arweinwyr yn yr holl ysgolion LlLl i gyfrif am weithredu eu strategaeth gwella ysgol ac i sicrhau bod unrhyw gyllid ychwanegol a gyrchwyd drwy HYC yn cael ei wario'n effeithiol. Roedd canllaw Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai BGC gynnwys cynrychiolaeth o Bennaeth yr ysgol LlLl, a ddylai hefyd gadeirio'r cyfarfod, Cadeirydd Llywodraethwyr yr ysgol, cynrychiolydd o'r

Awdurdod Lleol, y Cynghorydd, a Phennaeth ysgol gynradd o'r un clwstwr ysgolion.

6.3 Bydd yr adran hon yn ystyried cyfraniad BGC o ran cefnogi newidiadau mewn ysgolion LlLl, yn benodol:

- y dulliau a fabwysiadwyd gan BGC i gefnogi ysgolion LlLl
- y rhesymau dros amrywioldeb yn y dulliau a ddefnyddiwyd
- i ba raddau y teimlir bod BGC wedi cefnogi newidiadau mewn ysgolion LlLl
- effeithiolrwydd dulliau penodol mewn cefnogi gwelliant ym mherfformiad ysgolion LlLl.

**Dulliau a fabwysiadwyd gan BGC i gefnogi ysgolion LlLl**

6.4 Yn 2015/16, adroddodd bron pob un ysgol LlLl bod eu BGC wedi cynnal swyddogaeth gwirio a herio parthed perfformiad ysgol a gwella ysgol. Yn hyn o beth, gweithredodd y BGC fel y mae'r dogfennau canllaw yn ei amlinellu ar draws pob math o ysgol (Llywodraeth Cymru 2014). Fodd bynnag, roedd rhywfaint o amrywiaeth yn sut y dehonglodd LlLl ddiben y BGC, a ddylanwadodd ar weithgareddau'r BGC ac, yn rhannol, strwythur a chynrychioliad (neu ffurf) y grŵp.

6.5 O ran ffurf, roedd y BGC yn weddol debyg. Daeth eu haelodaeth o'r rhestr o fynychwyr craidd: y Pennaeth, Cynghorydd, Cadeirydd y Llywodraethwyr, cynrychiolydd ALl, cynrychiolydd Consortiwm, Pennaeth ysgol gynradd y clwstwr, ysgol bartner, aelodau o'r UDA a rheolwr data yr ysgol. Roedd BGC rhai ysgolion yn gyfyngedig iawn o ran eu haelodaeth a oedd yn cynnwys dim ond rhwng tri a phum aelod. Roedd eraill yn cynnwys llawer mwy o aelodau. Mae'n ymddangos y dylanwadwyd ar aelodaeth, a phresenoldeb, yn rhannol gan agwedd y Pennaeth tuag at y BGC, yn rhannol oherwydd y berthynas rhwng yr ysgol a'r mynychwyr posibl, ac yn rhannol gan drywydd gwella'r ysgol. Canfu ysgolion a oedd yn perfformio'n well hi'n fwy defnyddiol i gael aelodaeth eang ac roedd mynychwyr fel petaent yn fwy parod ac â'r gallu i gyfranogi.

6.6 Nid oedd fawr ddim dargyfeirio yn arweinyddiaeth y BGC: ymron pob achos y Pennaeth oedd cadeirydd ffurfiol y bwrdd. Mewn un achos lle mai'r Pennaeth Cynorthwyol oedd mewn gofal, teimlwyd bod hyn yn aflwyddiannus oherwydd nad oedd gan y Pennaeth Cynorthwyol, er ei fod yn gymwys, yr awdurdod i wneud y BGC yn gorff craffu effeithiol. Fodd bynnag, roedd i ba raddau yr oedd y Pennaeth yn ysgogi'r agenda ac yn llywio cyfarfodydd yn amrywio yn

ôl eu diddordeb a'u gallu yn ogystal â'r berthynas oedd ganddynt â'r Cynghorydd. Yn y mwyafrif o achosion lle'r oedd yr ysgol yn dangos gwelliant neu y dywedwyd bod ganddi'r ewyllys i wella, y Pennaeth oedd gan amlaf mewn gofal, yn cael ei gefnogi gan y Cynghorydd. Mewn rhai ysgolion lle'r oedd y Cynghorydd wedi arwain cyfarfodydd cynnar yn 2014/15, roedd arweinyddiaeth wedi trosglwyddo'n naturiol i'r Pennaeth wrth iddo/iddi fagu hyder. Lle'r oedd yr ysgol yn dal mewn trafferthion difrifol, neu wedi cael anhawster, fel arfer byddai'r Cynghorydd yn cynnal rôl fwy cyfeiriol. Ar y cyfan, teimlwyd ei bod hi'n fwy priodol i'r Pennaeth fod mewn gofal o'r cyfarfod, gyda'r Cynghorydd, yn ôl y disgwyl, yn chwarae rôl gynghori.

6.7 Y Pennaeth oedd yn aml yn rhoi'r cyfraniadau mwyaf sylweddol i'r cyfarfodydd, fel arfer yn ymwneud â diweddariadau perthnasol i'r CDY a data disgyblion ond defnyddiwyd aelodau eraill o staff i ymdrin â rhai materion a chyfrifoldebau penodol. Daeth hyn yn fwy cyffredin yn 2015/16, ac roedd hefyd yn fwy cyffredin ymhlith ysgolion oedd yn gwneud cynnydd. Roedd dau reswm dros gynnwys aelodau eraill o staff. Yn gyntaf roedd y Pennaeth, y Cynghorydd ac weithiau'r BGC yn cydnabod bod angen iddynt, er mwyn deall y mater yn llawn, gael mewnbwn gan rywun a oedd yn agosach i'r materion na'r Pennaeth. Yn ail, fe'i gwelwyd fel ffordd o ddatblygu uwch arweinwyr: "*Mae rhai aelodau o'n staff wedi cael profiad gweddol anghyfforddus yn y BGC, a bu'n rhaid iddynt fynd i ffwrdd, gwneud mwy o waith ac yna dychwelyd i roi cyfrif cywir o'u hunain. Cynhyrfwyd un aelod staff yn wael pan ofynnom iddi am safonau darllen, ac nid oedd yn gallu ateb. Gwnaethom fynnu ei bod yn dychwelyd y mis canlynol gydag ymateb llawn, ac roedd ganddi'r holl dystiolaeth bryd hynny. Y broblem oedd na ofynnwyd iddi roi cyfrif am hyn yn y gorffennol ac felly roedd hon yn ddisgyblaeth/sgil newydd yr oedd yn rhaid iddi ei dysgu*" (Cadeirydd Llywodraethwyr, ysgol LlLl).

6.8 Fel y nodwyd uchod, roedd diben y BGC wedi'i gysylltu i atebolrwydd am yr HYC a pherfformiad ysgol ac ar y cyfan dyna sut y cawsant eu defnyddio. Roedd ysgolion yn dehongli'r diben mewn gwahanol ffyrdd a gwelwyd hyn yn eu gweithgareddau.

6.9 Penderfynodd rhai ysgolion bod atebolrwydd yn golygu craffu, a olygodd bod y BGC yn derbyn adroddiadau manwl am ddata disgyblion er mwyn tracio cynnydd ar lefel ysgol a lefel y disgybl unigol. Fel y dywedodd un cyfwelai, roedd y BGC yn "*ddull fforensig, oedd hefyd yn ymarferol*" (Pennaeth, ysgol LlLl). Disgrifiodd un arall ef fel petai wedi ei gynllunio fel bod "*dim unman i guddio*" (Pennaeth, ysgol LlLl) ar gyfer arweinwyr yr ysgol. Roedd y cysyniad hwn o graffu yn weddol gyffredin ar draws yr holl fathau o ysgolion, ond roedd gwahaniaethau amlwg yn y farn a'r camau a gymerwyd gan y grwpiau ysgol a ddynodwyd yn 2014/15. Ymholiad data disgyblion oedd y prif ffocws yn aml ar

gyfer ysgolion Grŵp B, a oedd yn dal yn wyliadwrus am eu cyfradd wella. Roedd hi'n werth nodi mai ysgolion Grŵp C, a oedd yn ymddangos yn fwyaf hyderus am gyfradd eu gwelliant, oedd fwyaf tebygol i leihau amlder cyfarfodydd BGC i bob hanner tymor neu bob deufis ar y sail na ellid mesur newidiadau mewn perfformiadau disgyblion yn ystyrlon yn fisol. Roedd yr ysgolion hynny oedd â pherfformiad gwannach yn Grŵp A yn awyddus i gynnal amlder y craffu.

6.10 Mewn ysgolion eraill teimlwyd bod y BGC yn cynnig "*mwy o deimlad o gyfrifoldeb ar y cyd*" (Uwch Arweinydd, ysgol LlLl), gan "*ymwneud mwy â datrys problemau a darparu cefnogaeth*" na chyrff eraill. Aeth y BGC yn yr ysgolion hyn ymhellach nag archwilio data a nodi problemau i ystyried y materion, canfod atebion, cynllunio a siapio blaenoriaethau. Symudodd rhai BGC rhwng y ddau fodd hwn, yn dibynnu ar ddiddordebau a phrofiad eu mynychwyr. Er enghraifft, "*Mae'r BGC wedi siapio rhai gweithgareddau h.y. gwaith clwstwr ond fe'u defnyddiwyd yn fwy ar gyfer adrodd ar weithgareddau*" (Uwch Arweinydd, ysgol LlLl).

6.11 Teimlai ysgolion eraill bod rôl ar gyfer y BGC mewn rhannu gwybodaeth am yr ysgol gyda rhanddeiliaid allweddol. Mewn rhai achosion roedd hyn yn ymwneud â thryloywder. Mewn eraill roedd yn ymwneud â dathlu llwyddiant yr ysgol. Roedd hyn yn rhannol ddibynnol ar y berthynas rhwng yr ysgol ac aelodau ei BGC: roedd rhai ysgolion yn gwerthfawrogi'r cyfle i gael sgwrs ddi-flewyn ar dafod gydag ysgolion cynradd y clwstwr, ac roedd eraill yn wyliadwrus ynglŷn â datgelu gormod am yr ysgol uwchradd i ysgolion cynradd y clwstwr. Roedd ysgolion Grŵp B yn dueddol o bwysleisio gwerth dwyn rhanddeiliaid ynghyd yn fwy aml nag ysgolion Grŵp A: "*mae cysylltiad wyneb yn wyneb yn werthfawr iawn ac mae'n helpu i feithrin/cryfhau perthynas bersonol*" (Cadeirydd Llywodraethwyr, ysgol LlLl).

6.12 Ar y cyfan, lle bynnag yr oedd y cydbwysedd rhwng craffu, herio a chefnogi, dilynodd y mwyafrif o BGC agenda strwythuredig a godwyd o restr weddol fer o themâu: perfformiad a data, hunanwerthuso, cynnydd yn erbyn y CDY, addysgu a dysgu, a blaenoriaethau allweddol eraill yr ysgol. Gwnaeth ysgolion hefyd ystyried argymhellion Estyn neu gynlluniau gweithredu, a chyllid lle bo hynny'n briodol. Gwnaeth rhai BGC ganolbwyntio'n drwm ar Gyfnod Allweddol 4, er bod rhai wedi symud i ganolbwyntio ar Gyfnod Allweddol 3 ac roedd rhai cyfweleion o'r farn y byddai budd mewn ymestyn y ffocws i lawr i Gyfnod Allweddol 2.

**Y graddau y mae'r dulliau a fabwysiadwyd gan BGC yn gyson â pherfformiad blaenorol ysgol LILI a'r rhesymau dros yr amrywioldeb yn y dulliau a fabwysiadwyd gan y BGC**

6.13 Mae BGC wedi esblygu wrth i ysgolion weithio'u ffordd drwy'r rhaglen. Adroddodd un ysgol bod y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd ar y dechrau wedi eu defnyddio i archwilio eu gwariant o gyllid HYC. Yn y diwedd daethant i'r farn bod hyn yn tanddefnyddio arbenigedd y BGC a'i allu i gefnogi'r ysgol. Diwygiwyd y cyfarfodydd BGC i fod yn fforwm mwy agored ar gyfer herio a chefnogi. Mewn achos arall gwelodd yr ysgol ei hun fel petai'n gweithredu dau fodel gwahanol ar gyfer BGC ar draws y ddwy flynedd y bu'n gysylltiedig â'r rhaglen. Yn y flwyddyn gyntaf (2014/15) roedd y BGC yn "*amgylchedd mwy gwarchodol*" ac fe'i defnyddiwyd "*fel siop ar gyfer danfon neges*". Fodd bynnag, yn yr ail flwyddyn (2015/16) fe'i defnyddiwyd fel cyfrwng i herio arfer presennol, gydag un aelod yn teimlo fel pe bai wedi "*cael caniatâd i herio*" yr ysgol uwchradd (Pennaeth, Ysgol Gynradd Clwstwr).

6.14 Fodd bynnag, mae tystiolaeth i awgrymu bod y BGC wedi cael eu siapio gan eu cyd-destun, yn hytrach na chael eu penderfynu dim ond gan berfformiad blaenorol ysgol. Roedd trywydd blaenorol yr ysgol yn aml yn berthnasol, ond nododd y cyfweleion ffactorau eraill a wnaeth hefyd ddylanwadu ar y BGC, yn arbennig personoliaethau ei aelodau. Roedd hi'n ymddangos bod y Penaethiaid mwyaf hyderus yn cymryd mwy o reolaeth o'r BGC, lle byddai Penaethiaid mwy newydd a llai hyderus yn ildio mwy o reolaeth i'r Cynghorydd. Ar y cyfan, daethpwyd o hyd i Benaethiaid mwy hyderus mewn ysgolion a oedd yn perfformio'n well, ond cafwyd enghreifftiau o Benaethiaid mewn ysgolion a oedd yn perfformio'n wael yn cymryd gofal o BGC a hynny yn ôl adroddiadau er anfantais iddo. Roedd perthynas hefyd yn bwysig mewn siapio'r BGC: teimlwyd bod rhai aelodau Consortia yn gyfranogwyr gwerthfawr, ac eraill ddim, yn dibynnu ar hanes y rhyngweithio rhwng yr ysgol a'i Chonsortiwm. Roedd hyn hefyd yn wir am ysgolion cynradd y clwstwr a'r Awdurdodau Lleol.

6.15 Yn ogystal, roedd BGC yn dibynnu ar fewnbynnau eraill megis ansawdd y data oedd ar gael ac arweinyddiaeth yr ysgol: "*Dydy BGC ond cystal â'r wybodaeth*" (Pennaeth, Ysgol Gynradd Clwstwr). Ni allai ysgolion oedd â rheolaeth data wael wneud hyn yn ganolbwynt ar gyfer eu cyfarfod BGC hyd nes bod y systemau ar waith ar gyfer tracio perfformiad disgyblion. Daeth y cyfarfodydd yn llawer mwy pwrpasol i un ysgol unwaith yr oedd y tracio data wedi gwella.

6.16 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y BGC ar y cyfan yn effeithiol mewn ysgogi rhai newidiadau sylweddol, ond bod eu heffeithiolrwydd yn rhannol yn adlewyrchiad ar ba mor agored oedd yr UDA i gefnogi newid. Lle'r oedd

ysgolion yn llai agored i dderbyn neu eu bod yn gwadu difrifoldeb argyfwng yr ysgol, roedd y BGC yn llai effeithiol.

**Y graddau y mae'r BGC wedi cefnogi newidiadau mewn ysgolion LlLl ac effaith y newidiadau hynny ar berfformiad yr ysgol**

6.17 Roedd gwahaniaeth barn rhwng ysgolion ynglŷn â gwerth y BGC, gydag un cyfwelai, er enghraifft, yn dweud bod y BGC yn "*wastraff amser llwyr!*" (Pennaeth, ysgol LlLl) gan ei fod yn dyblygu mecanweithiau presennol, ond gwelwyd barn gwbl wahanol mewn ysgol arall, gydag un cyfwelai'n teimlo bod y BGC yn lleihau dyblygiad o'r fath. Roedd uwch arweinydd arall yn teimlo bod gormod o bobl yn rhan yn y BGC, er y teimlai rhai bod hyn yn rhywbeth cadarnhaol: "*gwerthfawr iawn gan ei fod yn dwyn yr holl chwaraewyr allweddol ynghyd o amgylch y bwrdd ar yr un pryd*" (Cadeirydd Llywodraethwyr, ysgol LlLl).

6.18 Gallai safbwyntiau fod yn wahanol iawn hyd yn oed o fewn un sefydliad. Er enghraifft, mewn un ysgol dywedodd gwahanol gyfweleion bod y BGC: wedi mireinio'r ffocws ar hunanwerthuso; wedi gwella ansawdd arweinyddiaeth; yn ddefnyddiol dim ond ar gyfer rhannu gwybodaeth gydag ystod o gynulleidfaoedd; yn rhoi her adeiladol; dim yn cynnig syniadau gwahanol; roedd ei ffocws yn rhy gul ar ganlyniadau; ac nad oedd wedi cyfrannu at wella ysgol.

6.19 Fodd bynnag, roedd cytundeb cyffredinol ar draws ystod o gyfweleion oedd â swyddi gwahanol mewn gwahanol ysgolion ynglŷn â gwerth y craffu a gynigiwyd gan BGC. Rhoddodd un cyfwelai enghraifft o gyfarfod BGC lle rhoddodd y Pennaeth gyflwyniad ar raglen llythrennedd a gynhaliwyd drwy HYC a gallai egluro'n glir a manwl pam nad oedd y cynllun wedi gweithio. Yn yr achos hwn, "roedd y craffu wedi bod bron mor bwysig â'r arian ei hun" (Pennaeth, ysgol gynradd clwstwr).

6.20 Dywedodd rhai cyfweleion bod y BGC wedi rhoi ffurf fwy dwys o graffu nag a wnaed gan lywodraethwyr a gwerthfawrogwyd tryloywder o'r fath. Dywedodd rhai cyfweleion bod Estyn hefyd yn gweld gwerth mewn BGC fel mecanwaith atebolrwydd. Sylwodd un Pennaeth fod y profiad o gael cefnogaeth a chraffu allanol yn ddefnyddiol, gan "*y gallwch deimlo wedi'ch ynysu ac mewn cors fel rheolwr, ac mae'n dda cael rhywun allanol i'ch gwthio*" (Pennaeth, ysgol LlLl). Dywedwyd bod BGC wedi cynorthwyo i wella perfformiad ysgol drwy ddal uwch arweinwyr i gyfrif a chodi lefel yr her y maent yn ei wynebu. Rhoddodd y BGC gyfle i dynnu sylw at arfer gwael, "*Roedd y sesiwn BGC gyntaf y gwnes ei mynychu fel cartŵn a gwnaeth hyn i mi sylweddoli bod angen gwneud newidiadau mawr*" (Cadeirydd Llywodraethwyr, ysgol LlLl).

6.21 Felly, teimlwyd bod y BGC wedi creu newid ac wedi cefnogi gwelliant ysgol drwy wella ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion, gan sicrhau bod arweinwyr yn deall ac yn gweithredu ar wybodaeth am berfformiad eu hysgol.

6.22 Roedd cyfraniadau eraill y BGC yn cynnwys:

- meithrin gallu ymhlith aelodau i gefnogi'r ysgol: roedd cynnwys Cadeirydd y Llywodraethwyr ar un BGC wedi gwella perfformiad y corff llywodraethu, a'i ddealltwriaeth o'r ysgol
- nodi problemau o fewn yr ysgol
- cynnig canllaw i'r ysgol
- gweithredu fel "melin drafod" drwy gynnig syniadau newydd i fynd i'r afael â phroblemau'r ysgol
- cefnogi datblygiad perthynas gyda'r ALl ac ysgolion cynradd clwstwr
- tracio cynnydd yn erbyn Cynllun Gweithredu a gynhyrchwyd i gefnogi buddsoddiad cyllido HYC.

6.23 Yn y bôn, roedd gan y BGC swyddogaeth anuniongyrchol yn hytrach nac uniongyrchol i greu newid er mwyn dylanwadu ar berfformiad ysgolion. Yn nodweddiadol mae BGC wedi gweithredu fel mecanwaith cefnogi ar gyfer y Pennaeth a'r uwch dîm arwain yn eu rôl o hunanwerthuso ac ysgogi gwelliannau yn yr ysgol. Awgrymodd un cyfwelai bod yr her a gynigiwyd gan y Cynghorydd yn cael ei ailadrodd gan y BGC, er i raddau llai. Er gwaethaf hyn, roedd y negeseuon a atgyfnerthwyd wedi gorfodi'r ysgol i wynebu ei methiannau ac ailasesu ei blaenoriaethau a'i dyheadau.

**Effeithiolrwydd dulliau penodol mewn cefnogi gwelliant ym mherfformiad ysgolion LILI**

6.24 O fewn y rôl gyfyngedig a chefnogol a chwaraewyd gan y BGC, maent ar y cyfan wedi bod yn fwy effeithiol pan eu bod wedi'u lleoli mewn amgylchedd derbyngar yn hytrach nac o ganlyniad i ryw ddull penodol. Felly mae Pennaeth sy'n weithredol, galluog a brwd, gyda pherthynas gadarnhaol â'r Cynghorydd, UDA addawol a phryderus, a system rheoli data gref, i gyd yn nodweddion o ysgol y mae BGC wedi gallu gweithio'n fwy effeithiol ynddi. Gwelwyd hefyd bod BGC yn fwy effeithiol pan fo gan y mynychwyr brofiad perthnasol.

6.25 Mae BGC wedi tueddu i fod yn llai effeithiol pan gânt eu gweld fel elfen ychwanegol o fiwrocratiaeth. Dywedodd un Pennaeth bod gormod o waith

gweinyddol yn gysylltiedig â threfnu cyfarfodydd BGC, gyda fawr o fudd i'w gael, yn ei farn ef. Teimlwyd bod rhai hefyd yn dyblygu swyddogaethau craffu; roedd rhai ysgolion, er enghraifft, yn teimlo bod data ar berfformiad ysgol yn cael ei rannu'n ddigon rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol, heb gael ei drafod eto mewn BGC. Roedd perygl hefyd, pan na fyddai cyfarfodydd yn cael eu harwain yn dda, eu bod yn cael eu gweld yn fawr ddim mwy na siop siarad '*Mae hi bob amser yn braf i eistedd i lawr a chael sgwrs ond roedd gormod o bwyso a mesur heb weithredu'* (Pennaeth, ysgol LlLl).

6.26 Nid y sefyllfa oedd bod BGC ar y cyfan yn cael eu croesawu'n fwy mewn ysgolion a oedd yn gwneud cynnydd. Roedd rhai ysgolion yn Grŵp B, lle'r oedd y dystiolaeth ansoddol yn awgrymu bod BGC yn tueddu i chwarae rhan fwy arwyddocaol, yn sôn yn amlach am brofiad neu argraff negyddol o'u BGC nac ysgolion eraill. Ar y llaw arall, soniodd tair ysgol yn benodol eu bod eisiau parhau neu gopïo eu BGC, hyd yn oed pe byddai'r cyllid yn cael ei atal. Roedd un ysgol Grŵp A (a oedd yn flaenorol mewn perygl o ddirywio) mor frwdfrydig ynglŷn â'i BGC fel ei bod wedi sefydlu rhag-BGC, a oedd yn gweithredu fel rhyw fath o rihyrsal ar gyfer y BGC ac a ganiataodd i lywodraethwyr fynychu a gweld y data a fyddai'n cael ei gyflwyno. Roedd rhai o nodweddion amlwg ysgolion a oedd eisiau parhau gyda'r BGC yn cynnwys: dull fforensig ar gyfer craffu ar ddata yn y cyfarfodydd; gwahodd aelodau eraill o'r UDA i fynychu a chyflwyno; cynnwys Pennaeth ysgol gynradd clwstwr; a theithiau o amgylch yr ysgol ar gyfer ar gyfer aelodau'r BGC.

**Tabl 6-1: Ffactorau sy'n cyfrannu at BGC effeithiol**

| **Pryd mae BGC yn fwyaf effeithiol…** |
|---|
| **…yn gyffredinol?** |
| Pan eu bod yn bwrpasol ac wedi'u harwain yn dda gan Bennaeth sy'n weithredol, galluog a brwd ac wedi'i gefnogi gan y Cynghorydd ac UDA pryderus a blaengar |
| Pan deimlir eu bod yn gwasanaethu pwrpas penodol yn hytrach na dyblygu trefniadau eraill |
| Pan gânt eu gweld fel rhywbeth effeithlon yn hytrach na biwrocrataidd |
| Pan fo gan fynychwyr, megis Cadeirydd y Llywodraethwyr, brofiad perthnasol |
| Pan fyddant yn meithrin gallu ymhlith yr UDA, staff eraill ac aelodau'r Corff Llywodraethu |
| **…mewn ysgolion sy'n cael trafferthion?** |
| Pan fo'r ysgol o leiaf yn sefydlog yn hytrach nag mewn helbul |
| Pan fo'r BGC yn cwrdd yn rheolaidd (hynny yw, yn fisol o leiaf) |
| Pan fod rheolaeth data yn weddol gryf fel y gellid cyflawni'r swyddogaeth o ran atebolrwydd |
| Pan gafodd ei ddefnyddio i sicrhau bod arweinwyr yn deall ac yn gweithredu ar wybodaeth am berfformiad eu hysgol |
| **…mewn ysgolion sy'n gwella?** |
| Pan barodd BGC gydgyfrifoldeb ymhlith Uwch Arweinwyr ar gyfer ystyried materion, nodi blaenoriaethau a chanfod atebion |
| Pan wnaethant ddatblygu i fod yn fforwm mwy agored ar gyfer herio, gan fynd y tu hwnt i faterion data disgyblion |
| Pan oedd aelodaeth eangach yn helpu i wella tryloywder ar gyfer rhanddeiliaid eraill megis y clwstwr cynradd |
| Pan oeddent yn cyfarfod bob hanner tymor neu bob deufis, gyda digon o amser rhwng cyfarfodydd i weld newidiadau yn y data |

Ffynhonnell: SQW

## 7. Cyfraniad cyllido Her Ysgolion Cymru

**Canfyddiadau allweddol**

Roedd llawer o amrywiaeth o ran yr ymyriadau penodol y defnyddiodd ysgolion LlLl gyllid HYC ar eu cyfer, gan adlewyrchu cyd-destunau a heriau unigol ysgolion. Roedd ysgolion LlLl yn cynnwys rhai a oedd yn gweithredu gyda diffyg yn eu cyllideb; seilwaith ysgol a oedd wedi'i esgeuluso'n ddifrifol; hanes o arweinyddiaeth wael gan arwain at y corff staff yn teimlo wedi'i neilltuo ac yn isel ei ysbryd; carfan cinio am ddim uwch na'r cyfartaledd; bod mewn mesurau arbennig ac yn wynebu cyfres o argymhellion Estyn; neu berthynas negyddol gyda (neu gefnogaeth amhriodol gan) eu Consortiwm neu ALl.

Dangosodd dadansoddiad o ddefnydd cyllido HYC ymhlith ysgolion LlLl yn 2014/15 bod pedwar categori cyffredinol ar gyfer y mwyafrif o'r gwariant (cefnogi ymyriadau ar gyfer disgyblion wedi'u targedu; cyrsiau DPP ar gyfer athrawon; buddsoddiad cyfalaf i wella amgylchedd dysgu ysgol a recriwtio staff cymorth ychwanegol).

Yn 2015/16 roedd y gwariant wedi'i ganolbwyntio mewn meysydd tebyg ond dylanwadwyd arno hefyd gan y cynnydd yr oedd ysgolion wedi ei wneud:

- Roedd ysgolion a oedd yn gallu nodi heriau yn gywir a chynhyrchu cynigion addas ar gyfer mynd i'r afael â hwy, wedi defnyddio cyllid ar gyfer ymyriadau disgyblion a gweithgareddau cyfoethogi yr oeddent yn disgwyl iddynt arwain at ganlyniad tymor hwy.
- Wrth ddechrau mynd i'r afael ag arweinyddiaeth a rheolaeth, daeth ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn flaenoriaeth uwch a rhoddodd ysgolion fwy o adnoddau ar gyfer DPP athrawon ac ymyriadau oedd wedi'u cynllunio i wella addysgu a dysgu.
- Gwelodd nifer o'r Penaethiaid y cyllido fel cyfle i fod yn fwy arbrofol nag y byddent wedi bod fel arall, yn cynnwys treialu mentrau newydd. Fodd bynnag, credai rhai bod y dull hwn yn mynd yn groes i ffocws Llywodraeth Cymru ar gynaliadwyedd.
- Parhaodd ychydig o ysgolion i ddioddef o ansefydlogrwydd difrifol a oedd wedi llesteirio eu gallu i gynhyrchu cynllun neu gais am gyllid effeithiol.

Cydnabu'r mwyafrif o ysgolion na fyddent wedi gallu ariannu eu CDY yn llawn heb gyllid HYC, er mai cymysg oedd y farn ynglŷn ag i ba raddau yr oedd y cyllid yn gyfrifol am ysgogi gwelliant ysgol. Roedd i ba raddau yr oedd yn cyfrannu at gyflawniad yn erbyn amcanion gwella yr ysgol yn dibynnu ar ansawdd yr hunanwerthuso a oedd yn tanategu'r Cynllun Datblygu Ysgol, pa mor briodol oedd amcanion y cynllun, pa mor addas oedd yr ymyriadau a gynlluniwyd a chymhwysedd y Pennaeth a'r UDA.

7.1 Cynigodd Her Ysgolion Cymru gyfle i ysgolion LlLl wneud cais am gyllid ychwanegol i gefnogi gwaith tuag at gyflawni eu hamcanion gwella ysgol. Cyrchwyd cyllid drwy broses gais flynyddol. Yn eu ceisiadau roedd yn rhaid i ysgolion ddangos sut y byddai cyllid HYC yn cyfrannu at eu cynllun datblygu cyffredinol (heb ddyblygu gweithgaredd a gynlluniwyd) ac i ystyried cynaliadwyedd gweithgareddau a gyllidir. Ni osodwyd nenfwd ar y ceisiadau am gyllid, er y cyflwynwyd dyraniadau dangosol yn 2015/16. Y Bwrdd Gwella Carlam ym mhob ysgol oedd â'r cyfrifoldeb uniongyrchol am fonitro gwariant cyllid HYC a'r Consortia oedd yn goruchwylio taliad priodol cyllid HYC.

7.2 Mae'r adran hon yn ystyried cyfraniad cyllido HYC i welliannau mewn ysgolion LlLl, yn benodol:

- y ffyrdd y cafodd cyllid HYC ei ddefnyddio gan ysgolion LlLl
- rhesymau dros yr amrywioldeb yn y ffyrdd y cafodd cyllido HYC ei ddefnyddio
- y graddau y mae cyllido HYC wedi cyfrannu at weithrediad gwella ysgol a chyflawniad amcanion gwella ysgol
- effeithiolrwydd gwahanol ddulliau mewn cefnogi gwelliant ym mherfformiad ysgolion LlLl

**Y ffyrdd y cafodd cyllid HYC ei ddefnyddio gan ysgolion LlLl**

7.3 Dangosodd dadansoddiad o ddefnydd cyllid HYC ymhlith ysgolion LlLl yn 2014/15 bod pedwar categori bras ar gyfer y rhan fwyaf o'r gwariant: cefnogi ymyriadau ar gyfer disgyblion wedi'u targedu; cyrsiau DPP ar gyfer athrawon; buddsoddiad cyfalaf i wella amgylchedd dysgu'r ysgol a recriwtio staff cymorth ychwanegol.

7.4 Datgelodd ymgynghoriad ag ysgolion yn 2015/16 bod y categorïau hyn yn dal yn ffordd briodol i grwpio gwahanol fathau o wariant. Roedd y tair eitem gyntaf ar y rhestr (ymyriadau disgyblion, DPP a staff ychwanegol) yn cyfrif am bedair rhan o bump o gyfanswm y gyllideb a wariwyd gan ysgolion LlLl o dan HYC:

- roedd **ymyriadau disgyblion** yn cwmpasu ystod o weithgareddau, gyda rhai ohonynt yn canolbwyntio'n gul ar nifer fechan o ddisgyblion a nodwyd tra bod eraill yn mynd i'r afael ag anghenion carfan gyfan neu grwpiau penodol (megis disgyblion prydau bwyd am ddim). Targedwyd ymyriadau ar berfformiad academaidd neu ar gefnogaeth fugeiliol
- roedd **DPP** ar gyfer athrawon hefyd yn cynnwys amrywiaeth sylweddol. Mynychodd rai athrawon gyrsiau allanol, yn cynnwys Rhaglenni

Athrawon Rhagorol. Roedd eraill, y mwyafrif o bell ffordd, yn cyrchu DPP o fewn yr ysgol gyda chefnogaeth y Cynghorydd, drwy gael amser rhydd i gynnal prosiectau penodol neu i ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol, drwy secondiad i'r UDA neu drwy ymweld â gwahanol ysgolion i arsylwi ar arfer da

- **recriwtio staff cymorth ychwanegol**: defnyddiodd ysgolion gyllid HYC i dalu am staff academaidd ychwanegol a/neu er mwyn recriwtio staff i wneud rolau a oedd yn canolbwyntio ar gyfrifoldebau bugeiliol, megis Swyddog Ymgysylltu Teuluoedd neu Swyddog Presenoldeb. Mewn un ysgol, defnyddiwyd cyllid i recriwtio '*hyrwyddwr cymunedol'* i hyrwyddo cynnwys y gymuned a chynyddu ymgysylltiad â rhieni, gyda'r nod o wella presenoldeb ac ymddygiad disgyblion.
- defnyddiwyd **buddsoddiad cyfalaf** (a oedd yn cyfrif am tua un rhan o bump o'r cyllid HYC a ddyrannwyd i ysgolion LILI) i wella amgylchedd dysgu'r ysgol ac roedd yn cwmpasu eitemau megis uwchraddio'r cyfleusterau presennol, datblygu cyfleusterau newydd (megis hyb cymdeithasol a dysgu ar gyfer disgyblion prydau bwyd am ddim), a buddsoddiad mewn offer TG megis caledwedd cyfrifiadurol newydd

7.5 Daeth un is-gategori ychwanegol, **TG ar gyfer gwella ysgol**, yn fwy pwysig yn yr ail flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad mewn meddalwedd tracio disgyblion neu feddalwedd rheoli perfformiad yn ogystal ag IRIS a rhaglenni tebyg i gefnogi gwelliannau mewn addysgu a dysgu.

7.6 Mae'n werth nodi nad oedd rhai cyfweleion, yn cynnwys rhai Penaethiaid, bob amser yn glir ynglŷn â pha weithgareddau gwella oedd wedi cael ei ariannu gan HYC. Nid oedd un rheswm penodol am y diffyg eglurder hwn. I rai ysgolion roedd yr arian a dderbyniasant (cyfartaledd o £199,000 y flwyddyn dros dair blynedd, er mai tua £130,000 a gawsant yn 2015/16) yn bwysig er nad bob amser yn gyllideb ychwanegol sylweddol; yn y bôn roedd yn cyfateb i'r arian ar gyfer wyth disgybl ychwanegol ym mhob grŵp blwyddyn mewn ysgol 11-16. Derbyniodd ysgolion hefyd ystod o wahanol gyllidebau (yn cynnwys cronfeydd AAA a chronfeydd nad oedd yn rhai ISB) ac yn aml nid oedd cyfweleion yn gallu datglymu ymyriadau a gyllidwyd gan HYC oddi wrth ymyriadau eraill. Mewn rhai achosion, yn syml nid oedd y cyfweleion yn gwybod digon am ffynonellau'r cyllido a ddefnyddiwyd ar gyfer gwella ysgol.

### Y rhesymau am yr amrywioldeb yn y ffyrdd y cafodd cyllido HYC ei ddefnyddio

7.7 Defnyddiwyd cyllido HYC, yn y bôn, i gefnogi cyflawniad nodau gwella ysgol ac felly gweithrediad cynlluniau datblygu ysgol. Mae hyn yn egluro pan fod

nodweddion tebyg allweddol yn y ffyrdd y dewisodd ysgolion wario eu harian: wynebodd yr ysgolion LlLl rai heriau cyffredin yn ymwneud â pherfformiad disgyblion, arweinyddiaeth a rheolaeth ac ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae ymyriadau wedi'u targedu ar ddisgyblion a DPP ar gyfer athrawon a'r UDA yn fathau amlwg o weithgaredd sy'n mynd i'r afael â'r heriau hyn.

7.8 Mae hyn hefyd yn esbonio pam fod cymaint o amrywiaeth yn yr ymyriadau a gynhaliwyd: roedd ysgolion yn gweithredu yn eu cyd-destun penodol eu hunain gyda'u hanes, cyrff staff a disgyblion, cymunedau lleol a'u heriau eu hunain. Roedd amgylchiadau penodol yn cynnwys: ysgolion a oedd yn gweithredu gyda diffyg yn eu cyllideb; seilwaith ysgol a oedd wedi ei esgeuluso'n ddifrifol; hanes o arweinyddiaeth wael yn arwain at gorff staff wedi'i esgeuluso ac wedi digalonni; carfan uwch na'r cyfartaledd o ddisgyblion prydau ysgol am ddim; bod mewn mesurau arbennig ac yn wynebu cyfres o argymhellion Estyn; neu roedd ganddynt berthynas negyddol gyda (neu gefnogaeth amhriodol gan) eu Consortiwm neu ALl. Felly, er y gallai nodau gwella ysgol cyffredinol fod wedi bod yn weddol debyg (er enghraifft cynyddu canlyniad L2C yr ysgol) roedd y llwybrau ar gyfer cyflawni hyn yn amrywio'n sylweddol rhwng ysgolion. O ganlyniad, roedd cynnwys y cynlluniau datblygu ysgol yn amrywio'n sylweddol.

7.9 Roedd profiad blwyddyn flaenorol yr HYC hefyd yn rhan o gyd-destun yr ysgol a'r cefndir i ddatblygiad cais am gyllid HYC 2015/16. Roedd rhai ysgolion wedi gweld datblygiad sylweddol yn eu dealltwriaeth o wella ysgol a'u gallu i hunanwerthuso. Roedd eraill wedi gwneud llai o gynnydd ond, er hynny, roeddent yn fwy abl i nodi'n gywir heriau a chynhyrchu cynigion addas ar gyfer mynd i'r afael â hwy. Yn gyffredinol, defnyddiodd yr ysgolion hyn gyllid ar gyfer ymyriadau disgyblion a gweithgareddau cyfoethogi yr oeddent yn disgwyl iddynt roi canlyniad tymor hwy. Wrth i arweinyddiaeth a rheolaeth ddechrau cael sylw, daeth ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn flaenoriaeth uwch a chlustnododd ysgolion fwy o adnoddau i DPP athrawon ac ymyriadau a gynlluniwyd i wella addysgu a dysgu. Fodd bynnag, parhaodd ychydig o ysgolion i ddioddef o ansefydlogrwydd difrifol a oedd wedi llesteirio eu gallu i gynhyrchu cynllun neu gais cyllido effeithiol.

7.10 Yr hyn oedd fwyaf amlwg, fodd bynnag, oedd gwahanol agweddau unigolion at gyllido HYC. Roedd hyn wedi'i siapio'n rhannol gan gyd-destun eu hysgol ond roedd hefyd yn adlewyrchu eu profiadau a'u dewisiadau eu hunain. Yn aml gwelwyd gwahanol agweddau gan Benaethiaid tuag at arloesedd a chynaliadwyedd, gyda rhai'n blaenoriaethu'r naill ac eraill y llall; ni ystyriwyd y ddau ddull bob amser yn gydnaws.

7.11 Gwelodd nifer o'r Penaethiaid y cyllid fel cyfle i fod yn fwy arbrofol nag y byddent wedi bod fel arall: "*Galluogodd HYC ni i feddwl y tu allan i'r bocs*"

(Uwch Arweinydd, ysgol LILI). Roedd un Pennaeth yn teimlo bod ei fwriad i ddefnyddio cyllid HYC i dreialu mentrau newydd yn mynd rhywfaint yn groes i nodau Llywodraeth Cymru, yr oedd e'n teimlo oedd ag "*obsesiwn â chynaliadwyedd*" (Pennaeth, ysgol LILI). Roedd eraill yn poeni mwy am gynaliadwyedd ac felly roeddent wedi siapio eu cais o amgylch gweithgareddau oedd â'r bwriad i adael etifeddiaeth heb fod angen cyllido parhaus. Dywedodd un Pennaeth eu bod wedi bod yn ofalus i beidio â gofyn am ormod o arian fel na fydd yr ysgol yn ddibynnol ar gyllido grant tymor byr a sicrhau bod yr holl geisiadau wedi'u cyfeirio'n llwyr at gyflawni'r Cynllun Datblygu Ysgol. Mae rhoi ystyriaeth i oblygiadau'r gwahanol agweddau hyn yn bwysig. Gall pwyslais ar gynaliadwyedd weithredu'n groes i arloesedd, er efallai y bydd angen arloesedd pan wynebir nifer o heriau gwahanol.

**Y graddau y mae cyllido HYC wedi cyfrannu at weithrediad gwella ysgol a chyflawniad amcanion gwella ysgol**

7.12 Roedd mwyafrif yr ysgolion yn cydnabod na fyddent wedi gallu ariannu eu CDY yn llawn heb gyllid HYC ac felly chwaraeodd y cyllid rôl arwyddocaol mewn cyflawni'r cynllun. Felly, roedd y graddau y gwnaeth y cyllid gyfrannu at gyflawni yn erbyn amcanion gwella'r ysgol yn dibynnu ar ansawdd yr hunanwerthuso a oedd yn tanategu'r cynllun, pa mor briodol oedd yr amcanion hynny wedyn a pha mor addas oedd yr ymyriadau a gynlluniwyd. Chwaraeodd lefel uchelgais yr ysgol, y gallu i ddarparu ymyriadau ac amgylchiadau allanol yr ysgol hefyd ran yng nghyflawniad gwella ysgol.

7.13 Roedd hi'n ymddangos bod cyllid yn cyfrannu'n glir iawn at gyflawniad amcanion gwella pan ddiffiniwyd yr amcanion yn dynn, pan oeddent yn fwy atebol i ymyrraeth, ac mewn cyd-destun a oedd yn ffafriol. Adroddwyd yn aml bod yr ymyriadau oedd wedi'u targedu at ddisgyblion oedd ar y ffin C/D mewn Saesneg a mathemateg wedi galluogi'r disgyblion i godi eu gradd. Dywedwyd hefyd bod cyllid a wariwyd ar wella'r amgylchedd dysgu yn gyffredinol wedi cyflawni ei nod er iddo weithiau, wrth wneud hynny, ddangos yn glir ddadfeiliadau mewn rhannau eraill o amgylchedd yr ysgol.

7.14 Dylanwadwyd ar amcanion eraill, megis gwella ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth neu addysgu a dysgu, gan ymyriadau a gyllidwyd gan HYC. Er enghraifft, gwnaeth rhai ysgolion sylwadau ar werth cyllido secondiadau ar gyfer arweinwyr canol i'r UDA neu ganiatáu amser iddynt ddilyn prosiectau penodol neu ymgymryd â chyfrifoldebau newydd. Soniodd y cyfweleion hefyd am bwysigrwydd DPP ar gyfer athrawon, a ariannwyd mewn llu o wahanol ffyrdd. Priodolwyd gwelliannau ar gyfer yr unigolion penodol dan sylw i'r ymyriadau hyn yn ogystal â, mewn rhai achosion, newidiadau ehangach

ymhlith diwylliant saff, megis mwy o ddiddordeb mewn dysgu am arfer addysgu da gan ysgolion eraill.

7.15 Fodd bynnag, roedd achosion lle na wnaeth ymyriadau roi'r canlyniadau a ddymunwyd. Roedd y rhain yn cynnwys amgylchiadau lle'r oedd athrawon wedi dewis peidio ag ymgysylltu â thriadau (rhwydweithiau cefnogi cymar i gymar - gweler Pennod 4), neu ddefnyddio meddalwedd IRIS ar gyfer rhannu gwahanol ddulliau. Dywedodd un Pennaeth nad oedd cyllido yn fecanwaith a allai addasu arferion na diwylliant gweithio ar ei ben ei hun. Roedd yna'n amlwg rwystrau i wella ysgol nad oedd yn atebol i newid drwy ymyriadau a gyllidwyd yn gymedrol, megis materion perfformiad gydag aelodau staff penodol. Fel y nododd cyfweleion oedd yn gysylltiedig ag un ysgol, golygodd y diffyg arweinyddiaeth gref ym mlwyddyn gyntaf HYC nad oedd fawr wedi'i gyflawni gyda chyllid HYC. Cawsant well canlyniadau yn 2015/16 pan oedd yr arweinyddiaeth wedi'i chryfhau.

7.16 Mewn nifer o achosion roedd recriwtio staff cymorth ychwanegol wedi bod yn llwyddiannus, gydag athrawon mathemateg neu Saesneg ychwanegol yn rhoi'r cymorth oedd ei angen ar rai disgyblion, Swyddogion Ymgysylltu Theuluoedd yn gwneud gwahaniaeth amlwg i lefelau presenoldeb a rhai plant a Mentoriaid Dysgu yn cynorthwyo disgyblion i ymdopi'n fwy llwyddiannus â bywyd ysgol. Eto, roedd ymyriadau mewn rhai ysgolion yn aneffeithiol gyda Phenaethiaid yn dweud bod eu recriwtiaid Teach First wedi tynnu allan yn gynnar ac ni chafodd gweithgareddau i wella cyfraddau presenoldeb unrhyw effaith. Gwelwyd y canlyniadau cymysg hyn mewn ymyriadau disgyblion. Soniwyd yn ganmoliaethus iawn am rai ohonynt a oedd y canolbwyntio ar faterion megis presenoldeb neu weithgareddau cyfoethogi, fel rhai a oedd yn ysbrydoli disgyblion, codi eu golygon ac yn rhoi hwb i'w hyder. Mewn achosion eraill mynegodd staff eu siom na welwyd unrhyw effaith wirioneddol, er gwaethaf ymdrechion gorau'r ysgol.

7.17 Mae'r cynnydd dargyfeiriol yn erbyn yr amcanion hyn yn ymwneud yn rhannol â'r ffaith bod ymddygiadau blaenorol yn aml wedi'u gwreiddio ac er bod ysgolion wedi gosod nodau uchelgeisiol, roedd gwelliannau cynyddraddol yn aml yn fychan ac yn anodd eu mesur. Roedd yr amcanion hefyd yn agored i gael eu dylanwadu gan lu o ffactorau y tu hwnt i gyllido un ymyrraeth. Disgrifiodd un o'r cyfweleion ymdrechion yr ysgol a oedd wedi'u cyfeirio at wella presenoldeb, yn cynnwys ariannu staff ychwanegol a gwella gallu staff presennol, gan ddefnyddio cyllid HYC a PDG[16], ond eto'n nodi nad oeddent wedi llwyddo i godi cyfraddau presenoldeb dros 90%: "*Rydym bron â digalonni gyda hyn*" (Cadeirydd Llywodraethwyr, ysgol LILI).

[16] Caiff y Grant Amddifadedd Disgyblion ei adnabod nawr fel y Grant Datblygu Disgyblion

7.18 Felly mae gallu cyllid i gyfrannu at amcanion gwella ysgol yn waith nifer o ffactorau rhyngberthynol. Un o'r ffactorau mwyaf perthnasol yw ansawdd y cynllun gwella ysgol ac mae hwn wedi'i briodoli i arweinyddiaeth a rheolaeth gref, gyda'r gallu i hunanwerthuso, yn gywir, berfformiad a heriau'r ysgol. O ganlyniad, roedd yr ysgolion oedd â gwell arweinyddiaeth a rheolaeth mewn sefyllfa well i ddefnyddio cyllid yn effeithiol. Dehonglodd un ysgol hyn fel cyllid yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gwella ysgol yn hytrach na'i arwain.

7.19 Fodd bynnag, mae'r angen i wella a'r potensial ar gyfer gwella hefyd yn berthnasol ac weithiau gwnaeth y cyllido gyfraniad sylweddol i ysgolion yn yr amgylchiadau mwyaf cyfyngus yn syml oherwydd eu bod mewn cymaint o angen. Dywedodd un ysgol na fyddai wedi gallu gwneud y buddsoddiadau angenrheidiol yn y systemau a'r prosesau a fyddai'n caniatáu iddi "*gamu'n ôl o'r dibyn*" (Uwch Arweinydd, ysgol LILI) heb fynediad at gyllid HYC. Disgrifiodd un arall y cyllid fel rhywbeth a gynorthwyodd i sefydlogi'r ysgol yn ystod cyfnod anodd.

7.20 Cymysg oedd y farn ynglŷn ag i ba raddau yr oedd y cyllid yn gyfrifol am *ysgogi* gwelliant ysgol o gymharu â mewnbynnau eraill. Dywedodd rhai ysgolion bod cyllid HYC yn aml yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â ffynonellau cyllido eraill, ac felly nid oedd arian HYC yn cyflawni dim ar ei ben ei hun. Mewn gwrthgyferbyniad, roedd cyfweleion eraill yn teimlo bod yr adnodd ychwanegol yn '*newid popeth'* (Cadeirydd Llywodraethwyr, ysgol LILI), gan ei fod yn caniatáu iddynt fynd ati i wella'r ysgol ar adeg pan oedd y sefyllfa ariannol yn dynn.

7.21 Dylanwadwyd ar ganfyddiadau pwysigrwydd cyllido gan sefyllfa ariannol yr ysgol a'i thrywydd gwella. Roedd ysgolion a oedd yn y coch yn teimlo bod y cyllido ychwanegol yn arbennig o briodol, ond er mwyn osgoi argyfwng yn hytrach na gwella'r ysgol. Mewn ysgolion lle nad oedd cymaint o bwysau ariannol, lle tybiwyd bod gwella ysgol yn bosibl neu ei fod wedi'i ddechrau'n barod, y farn fwyaf cyffredin oedd bod y cyllid wedi caniatáu i'r ysgol gyflymu ei daith ar gyfer gwella. Dywedodd un Pennaeth ei fod yn credu bod gwella ysgol "*o leiaf 18 mis ar y blaen i lle y byddai wedi bod heb y cyllid*". Mewn rhai achosion, teimlwyd bod y cyllid wedi cael effaith cwbl ychwanegol.

### Effeithiolrwydd gwahanol ddulliau mewn cefnogi gwelliant ym mherfformiad ysgolion LILI

7.22 Ym mhob ysgol, mae cyllido wedi bod yn fwyaf effeithiol pan y'i defnyddiwyd i gefnogi Cynllun Datblygu Ysgol cadarn a'i ddefnyddio mewn amgylchedd ffafriol, er enghraifft gyda Phennaeth ac UDA cymwys a chorff staff brwd. Yr ymyriadau sydd ar y cyfan wedi bod yn fwyaf dylanwadol yw'r rheini a ychwanegodd yn sylweddol at allu'r ysgol; recriwtio staff addysgu a staff

bugeiliol ychwanegol; DPP priodol; buddsoddiadau mewn TG megis systemau rheoli perfformiad; a chyfleusterau newydd neu wedi eu huwchraddio'n sylweddol megis hyb dysgu.

7.23 Fodd bynnag, dywedodd lleiafrif y cyfweleion bod effaith y cyllido yn gyfyngedig oherwydd ei faint. Teimlwyd hyn yn arbennig gan ysgolion oedd ag amgylchedd dysgu gwael ond hefyd gan ysgolion a allai weld budd ymyriadau penodol megis y Rhaglen Athrawon Rhagorol ond nad oeddent yn gallu fforddio'u cyflwyno'n fwy eang.

7.24 Mae hyn yn arwain at y cwestiwn hollbwysig o gynaliadwyedd. Er bod rhai ymyriadau yn gadael etifeddiaeth, megis hyfforddiant a buddsoddiadau cyfalaf, roedd pryder sylweddol ynglŷn â sut y gellid cynnal y gallu a grëwyd drwy recriwtio staff ychwanegol. Amlygodd un ysgol bwysigrwydd y tîm lles yr oeddent wedi ei greu er mwyn cefnogi disgyblion mewn modd na allai'r gymuned ehangach ei wneud. "*Mae ymddygiad wedi gwella'n sylweddol yn ystod y rhaglen hon oherwydd y tîm lles*" (Cadeirydd Llywodraethwyr, ysgol LlLl). Ond eto, roedd yr ysgol yn teimlo y byddai'r tîm mwy na thebyg yn anfforddiadwy wedi HYC. Roedd enghreifftiau eraill o ysgolion yn ariannu gweithgareddau nad oedd disgwyl iddynt ddwyn ffrwyth ar unwaith, yn cynnwys, er enghraifft, gweithio mewn clwstwr. Mewn rhai achosion roedd gan ysgolion gynlluniau i barhau i ariannu'r gweithgareddau hyn, ond mewn eraill ni ellid dod o hyd i'r adnoddau.

**Tabl 7-1: Ffactorau sy’n cyfrannu at ddefnydd effeithiol cyllido**

| Pryd mae cyllido yn fwyaf effeithiol… |
| --- |
| **…yn gyffredinol?** |
| Pan fo’r Cynllun Datblygu Ysgol wedi nodi’n gywir heriau a blaenoriaethau allweddol yr ysgol ac wedi cynllunio cynigion priodol i fynd i’r afael â hwy |
| Pan ei fod wedi’i dargedu ar broblem benodol sy’n barod i dderbyn ymyrraeth a bod canlyniad diffiniedig yn ddisgwyliedig ac yn fesuradwy |
| Pan fo pryder ynglŷn â chynaliadwyedd neu etifeddiaeth neu’r cyfle ar gyfer cyllido parhaus |
| Pan fo gan yr ysgol y gallu a’r cymhwysedd i gyflawni ymyriadau, yn arbennig o ran arweinyddiaeth |
| Pan fo staff yn barod i dderbyn i ymyriadau, yn arbennig DPP, cyfrifoldebau newydd a gweithgareddau Addysgu a Dysgu |
| Pan nad yw ffactorau allanol yn peri rhwystrau i newid |
| Mewn rhai achosion, pan y’i cyfunir â ffynonellau cyllido eraill |
| Pan ei fod yn ddigon mawr |
| Pan fo’r ymyrraeth yn ychwanegu’n sylweddol at allu’r ysgol, er enghraifft: recriwtio staff ychwanegol; DPP; buddsoddiadau mewn TG; a chyfleusterau newydd neu wedi eu huwchraddio’n fawr. |
| **… mewn ysgolion sy’n cael trafferthion?** |
| Pan nad yw diffyg mewn cyllideb mor ddifrifol fel ei fod yn amsugno swmp yr arian |
| Pan nad yw’r seilwaith wedi’i esgeuluso cymaint fel bod yr arian fel pe petai’n cael dim effaith |
| Pan fo’r ysgol yn gallu canolbwyntio ar wella ysgol yn hytrach na dod allan o Fesurau Arbennig |
| Mewn angen difrifol, efallai y bydd cyllido yn cefnogi sefydlogiad |
| Mewn llai o angen, gall cyllido arwain at wella ysgol |
| **…mewn ysgolion sy’n gwella?** |
| Pan fo’r amodau strwythurol ar gyfer gwella ysgol yn eu lle, megis arweinyddiaeth a rheolaeth dda, gall cyllido gyflymu gwelliant |

# 8. Cyfraniad Her Ysgolion Cymru i'r newidiadau ym mherfformiad ysgolion LlLl

**Canfyddiadau allweddol**

Yn gryno, mae'n ymddangos bod HYC wedi cefnogi llawer o welliannau mewn ysgolion LlLl, er bod ystod o ffactorau mewnol ac allanol eraill (yn cynnwys arweinyddiaeth) wedi chwarae eu rhan.

Nid oes digon o flynyddoedd o HYC wedi bod er mwyn asesu ei effaith ar 'ganlyniadau caled' (cyrhaeddiad a chynnydd) ar gyfer disgyblion mewn ysgolion LlLl. Mae'r dystiolaeth gan gyfweleion ac mewn deunyddiau dogfennol (yn cynnwys adroddiadau Estyn) yn awgrymu'r canlynol:

- roedd ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth wedi gwella yn y mwyafrif o ysgolion LlLl yn dilyn cyfranogi yn HYC
- roedd cynnydd mewn gallu'r systemau a phrosesau hunanwerthuso yn amrywiol. Y teimlad cyffredinol yw bod gallu ysgol i hunanwerthuso yn dibynnu yn y pen draw ar gryfder arweinwyr yr ysgol
- yn gyffredinol cafodd mynediad at gyllid HYC y clod am gefnogi newidiadau mewn perfformiad addysgu, gan gyfrannu at gyflwyniad DPP ac, mewn rhai achosion, ei ehangu. Yn ymarferol, yn aml teimlwyd bod buddsoddiadau o'r fath yn cyfrannu mwy i'r newidiadau mewn ysgolion a oedd cyn hyn wedi bod yn dirywio (Grŵp A) neu'n sefyll yn ei hunfan (Grŵp B) yn hytrach nag ysgolion a oedd eisoes wedi dechrau gwella (ysgolion Grŵp C)
- mewn dwy o bob pump o'r holl ysgolion LlLl ystyriwyd bod mewnbynnau HYC yn bennaf neu'n gyfan gwbl gyfrifol am y newidiadau mewn ymgysylltiad disgyblion, gyda recriwtio staff cymorth yn ganolog i'w dull ar gyfer gwella ymgysylltiad disgyblion. Roedd rhai ysgolion yn optimistaidd ynglŷn â chynaliadwyedd y gwelliannau canfyddedig mewn presenoldeb disgyblion, gan obeithio sicrhau bod presenoldeb da yn dod yn rhywbeth arferol. Roedd eraill yn llai hyderus ynglŷn â'r posibilrwydd o gynnal cynnydd unwaith y byddai cyllido HYC yn dod i ben
- Roedd HYC wedi cyfrannu at gyflwyno DPP mewn ysgolion LlLl ac, mewn rhai achosion, wedi ei ymestyn. Nid yw'n glir eto pa mor weddnewidiol fu hyn. Mae'n bosibl nad yw'r rhaglen wedi bod ar waith yn ddigon hir i fod wedi arwain at newid yn niwylliant yr ysgol gyfan o ran dulliau addysgu a dysgu, er ei bod wedi bod o fudd i'r rheini sydd wedi cyfranogi mewn gweithgareddau DPP a gweithgareddau cysylltiedig â pherfformiad

8.1 Yn yr adran hon byddwn yn asesu cyfraniad HYC mewn cefnogi newidiadau ym mherfformiad ysgolion LlLl. Fel y trafodwyd ym Mhennod 1, mae diffyg sefyllfa wrthffeithiol gwirioneddol y gellid ei ddefnyddio i fesur beth fyddai wedi digwydd pe bai HYC heb gael ei gyflwyno yn golygu bod barn yn cael ei seilio ar gyfuniad o ddata meintiol ac ansoddol. Llywiwyd ein hasesiad gan y cysyniad Dadansoddiad Cyfraniad (gweler Mayne, 2011). Fe'i cynhaliwyd drwy ddefnyddio proses systematig yn canolbwyntio ar:

- ystyriaeth o berfformiad pob ysgol LlLl yn dilyn cyfranogiad yn HYC
- cryfder y dystiolaeth ar gyfer unrhyw newidiadau mewn perfformiad
- i ba raddau y mae mewnbynnau cysylltiedig â'r rhaglen wedi cefnogi newidiadau o'r fath (ac ansawdd y dystiolaeth ar gyfer hyn)
- cyfraniad ffactorau eraill mewn cefnogi neu'n wir lesteirio gwelliant.

**Asesu perfformiad cyffredinol ysgolion LlLl**

8.2 Fel y trafodwyd yn Adran 3, mae'n bwysig bod unrhyw asesiad o berfformiad ysgolion LlLl yn mynd y tu hwnt i gyrhaeddiad disgyblion ac yn ystyried ystod lawnach o fesurau sy'n adlewyrchu gwahanol fannau cychwyn ysgolion LlLl a blaenoriaethau cymharol gwahanol AGY, sef gwella ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth, ansawdd yr addysgu ac ymgysylltiad disgyblion. Wrth wneud hyn mae hi hefyd yn bwysig cydnabod y diffyg data ar y canlyniadau 'caled' i'w ddefnyddio er mwyn ystyried cynnydd yn rhai o'r meysydd hyn a'r angen i lunio barn yn seiliedig ar gyfuniad o dystiolaeth ansoddol a meintiol.

8.3 Mewn unrhyw drafodaeth ynglŷn â chyfraniad HYC o ran cefnogi newidiadau ym mherfformiad ysgolion LlLl, mae'n hollbwysig cadw dau beth mewn cof. Y cyntaf yw cyfradd y newid y gellid ei ddisgwyl a/neu sydd wedi ei weld. Yr ail yw dibynadwyedd y dystiolaeth y seilir unrhyw farn arni (a ydynt yn ganfyddiadau eang a thrionglog wedi'u cefnogi gan sylwadau a/neu ddata, neu'n ganfyddiadau un aelod o'r uwch dîm rheoli, er enghraifft?).

8.4 Mae hi hefyd yn bwysig ystyried cyfraniad mewnbynnau cysylltiedig â'r rhaglen mewn cefnogi newidiadau. Roedd nifer o'r meysydd yr oedd ysgolion LlLl yn ceisio gwneud gwelliannau ynddynt yn amodol ar ffactorau eraill (mewnol ac allanol) a wnaeth naill ai alluogi neu weithredu fel rhwystrau i gynnydd ac ystyrir y rhain yn y dadansoddiad sy'n dilyn.

**Cyfraniad HYC mewn cefnogi gwelliannau yn ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth**

8.5 Mae'r dystiolaeth gan gyfweleion ac o ddeunyddiau dogfennol (yn cynnwys adroddiadau Estyn pan eu bod ar gael) yn awgrymu bod ansawdd yr

arweinyddiaeth a rheolaeth wedi gwella yn y mwyafrif o ysgolion LlLl yn dilyn cyfranogi yn HYC. Nid oedd cyfradd y cynnydd yn gyson, gyda rhai ysgolion LlLl yn gwneud mwy o gynnydd nac eraill o ystyried eu man cychwyn. Roedd y gyfradd wella fel petai'n fwy ymhlith ysgolion Grŵp A (a oedd â mwy o ffordd i fynd, gan ei bod cyn hyn yn dirywio) nac mewn ysgolion Grŵp B (y rheini a oedd wedi bod yn sefydlog ond yn tanberfformio) a Grŵp C (lle'r oedd newid wedi dechrau cyn HYC).

8.6 Fodd bynnag, y cwestiwn sy'n dal i fodoli yw â oedd LlLl wedi cyfrannu at faint y cynnydd a wnaed - a sut oedd wedi gwneud hyn. Yn ymarferol, roedd cyfraniad mewnbynnau cysylltiedig â'r rhaglen er mwyn gwella ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn weddol amrywiol. Yn achos tua chwarter yr holl ysgolion LlLl, roedd hi'n ymddangos bod mewnbynnau cysylltiedig â'r rhaglen (yn arbennig drwy gyfarfodydd BGC rheolaidd, strwythuredig a chymorth gyda rheoli data ac atebolrwydd) yn gyfan gwbl gyfrifol am y newidiadau a nodwyd. Roedd hyn yn fwyaf amlwg mewn ysgolion a oedd cyn hyn wedi bod yn dirywio (Grŵp A), lle rhoddwyd clod i LlLl, bron yn gyfan gwbl, am y newidiadau a wnaed. Roedd effaith y rhaglen ar arweinyddiaeth yn yr ysgolion eraill yn llai amlwg a theimlwyd, yn achos tua chwarter ohonynt, bod ei chyfraniad yn gyfyngedig (os bu cyfraniad o gwbl).

8.7 Teimlwyd bod HYC wedi gwneud cyfraniad llai amlwg i wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion a oedd mewn amgylchiadau a oedd ychydig bach yn llai heriol ar y dechau. Efallai bod hyn yn adlewyrchu rhai'r o'r anawsterau cynhenid mewn datblygu model arweinyddiaeth fwy datganoledig. Mewn nifer o'r ysgolion Grŵp B a Grŵp C roedd cefnogi gwelliannau yn y tîm arwain canol ehangach wedi dod yn flaenoriaeth, yn arbennig yn 2015/16. Wrth roi enghreifftiau o rai o'r heriau a wynebwyd gan yr ysgolion hyn, nododd un Cadeirydd Llywodraethwyr sut yr oedd yr ysgol wedi defnyddio'r cyllid HYC i roi cyfle i benaethiaid adran gymryd mwy o gyfrifoldebau rheoli. Fodd bynnag, er bod rhai aelodau staff wedi manteisio ar y cyfle hwn a gyllidwyd gan LlLl, ac wedi datblygu eu sgiliau a'u gallu o ran arwain, roedd eraill wedi cael anhawster, felly roedd y cynnydd yn anwastad.

8.8 Amlygodd canllaw Llywodraeth Cymru rôl ganolog Cynghorwyr mewn cefnogi gwelliannau ym maes arweinyddiaeth a rheolaeth. Fodd bynnag, yn ôl cyfweleion mewn dros ddwy ran o dair o'r holl ysgolion LlLl, teimlwyd mai'r mewnbwn HYC a gyfrannodd fwyaf oedd argaeledd cyllid. Nid yw hyn yn syndod (fel y nodir yn Adran 7) gan fod y cyllid yn galluogi cynlluniau i gael eu rhoi ar waith.

8.9 Mewn cyfran debyg o ysgolion, teimlai cyfweleion mai'r tîm arwain presennol, yn arbennig y Pennaeth, yn hytrach na'r Cynghorydd, a oedd fel petai'n fwyaf dylanwadol mewn ysgogi gwelliannau yn yr ysgol. Mae hyn yn codi'r

cwestiwn, fodd bynnag, ynglŷn â faint o waith y Cynghorydd oedd yn hysbys (neu a wnaed yn hysbys) i'r corff staff ehangach. Rhan o'r rhesymeg ar gyfer ysgolion LlLl oedd meithrin gallu ymhlith yr UDA. Wrth gefnogi gwaith y Penaethiaid (yr oedd llawer ohonynt wedi eu recriwtio yn y flwyddyn cyn cyfranogi yn HYC, neu yn ystod y flwyddyn gyntaf) ceisiodd rai Cynghorwyr fod yn llai gweledol yn yr ysgol er mwyn gwneud yn siŵr bod yr UDA yn cael ei gydnabod am ei waith datblygu.

8.10 Fel y nodwyd ym Mhennod 5, efallai na fyddai rhai cyfweleion ysgol mewn sefyllfa i asesu'n ddigonol wir gyfranogiad Cynghorwyr, yn arbennig os treuliwyd eu hamser yn cefnogi Penaethiaid. Er hynny, mae'n bwysig ystyried gallu Cynghorwyr i ddylanwadu ar newid, yn arbennig yn yr ysgolion hynny lle'r oedd yr uwch arweinwyr yn llai effeithiol a bod posibilrwydd eu bod yn gweithredu fel rhwystr i welliant pellach. Amlygwyd y mater hwn gan un uwch arweinydd mewn ysgol gynradd clwstwr, a oedd yn aelod o BGC ar gyfer un ysgol LlLl. Sylwodd fod y cyfarfodydd wedi datgelu Pennaeth a oedd yn amharod i dderbyn yr angen i newid ac yn anfodlon i wneud y newidiadau a argymhellwyd gan ei Gynghorydd. Yn yr enghraifft hon, cwestiynodd a oedd gan y Cynghorydd ddigon o awdurdod i fynnu gweithredu lle'r oedd ei angen ac a oedd effaith yr HYC wedi ei leihau oherwydd hyn.

8.11 Yng ngoleuni'r canfyddiadau hyn, a chan gydnabod cyfraniad cadarnhaol HYC i gefnogi gwelliannau mewn ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion LlLl, mae'n bwysig ystyried sut y gellid adeiladu ar ganfyddiadau'r dull LlLl ar gyfer strategaethau gwella ysgol yn y dyfodol. Yn benodol, efallai y bydd Consortia Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried i ba raddau y gellid gwneud mwy i ddeall ansawdd a gallu arweinwyr a rheolwyr mewn ysgolion *cyn* eu cynnwys mewn unrhyw raglen gefnogi. Er y rhoddwyd clod i Gynghorwyr am alluogi gwelliannau ym maes arweinyddiaeth mewn ychydig dros hanner yr ysgolion LlLl, er enghraifft, gallai dadansoddiad cychwynnol a oedd yn dangos arweinwyr oedd â'r potensial i weithredu fel ffrwyn ar welliant fod wedi sicrhau y gellid cymryd camau i liniaru eu heffaith ar y cychwyn. Yn yr un modd, nododd y gwerthusiad rai ysgolion lle'r oedd arweinyddiaeth a rheolaeth eisoes yn gryfder (yn aml oherwydd newid diweddar mewn staff) ac efallai y byddai cydnabyddiaeth o hyn wedi arwain at ddyrannu mewnbynnau cysylltiedig â'r rhaglen gwahanol ar gyfer ysgolion o'r fath.

### Cyfraniad HYC mewn cefnogi gwelliannau hunanwerthuso

8.12 Yn y pen draw ystyrir gallu ysgol i gynnal hunanwerthusiad yn gyffredinol i fod yn ddibynnol ar gryfder arweinwyr ysgol ac nid yw'n syndod bod cynnydd mewn gwella systemau a phrosesau hunanwerthuso yn amrywio. Er hynny,

roedd y rhan fwyaf o ysgolion (tua thri chwarter) wedi gwneud rhywfaint o gynnydd amlwg wedi iddynt gael eu cynnwys yn HYC. Unwaith eto, ansoddol yn bennaf oedd y dystiolaeth i gefnogi hyn, er bod deunydd cefnogi yng nghaffaeliad a gofnodwyd systemau TG (megis meddalwedd tracio data ac IRIS) a hyfforddiant i gefnogi hunanwerthuso.

8.13 Mae'r dystiolaeth gan y cyfweleion yn awgrymu bod yr HYC, ar y cyfan, wedi gwneud mwy o gyfraniad i gefnogi gallu ysgolion i gynnal hunanwerthusiad nag a wnaeth mewn cyfoethogi arweinyddiaeth a rheolaeth. Efallai bod gweithgarwch yr ysgol mewn cychwyn a gweithredu strategaethau hunanwerthuso wedi bod yn fwy amlwg i staff na datblygiad sgiliau rheoli yn yr UDA. Dywedwyd bod cyflwyniad BGC yn ffactor gyfranogol benodol. Ystyrir y rhain yn gyffredinol fel rhywbeth a wnaeth gyfraniad gwerthfawr i wella ysgolion, yn arbennig o ran rhoi'r sail ar gyfer system reolaidd o adolygu a myfyrio ar berfformiad ysgol (rhywbeth y dywedodd cyfweleion nad oedd ar waith nac yn flaenoriaeth cyn hyn).

8.14 Teimlwyd bod y model BGC wedi bod yn fwyaf effeithiol, fodd bynnag, wrth gefnogi hunanwerthuso mewn ysgolion a oedd cyn hyn wedi bod yn sefydlog ond yn tanberfformio (Grŵp B). I'r gwrthwyneb, yn yr ysgolion a oedd cyn hyn wedi bod yn dirywio (Grŵp A) ac yn yr ysgolion a oedd wedi bod yn gwella (Grŵp C) teimlwyd bod BGC yn llai effeithiol mewn cefnogi hunanwerthuso. Yn hytrach, soniodd yr ysgolion hyn yn fwy mynych bod mynediad at gefnogaeth gan Gynghorydd (yn arbennig mewn ysgolion Grŵp A) a'r cyllid i gefnogi hyfforddiant arweinyddiaeth yn ysgogwyr allweddol cysylltiedig â'r rhaglen a oedd yn gyfrifol am welliant yn y maes hwn.

8.15 Mae canfyddiadau o'r fath yn codi'r cwestiwn a yw'r model BGC yn briodol i bob ysgol sydd angen gwella neu a fyddai dull mwy graddedig wedi cael mwy o effaith. Rhoddodd BGC offeryn gwerthfawr i gefnogi hunanwerthusiad ysgolion, ond roeddent yn dibynnu ar lefel o sefydlogrwydd mewn arweinyddiaeth ysgol, ac aeddfedrwydd mewn cynllunio datblygu ysgol nad oedd i'w gael mewn rhai ysgolion Grŵp A, er enghraifft, ar y dechrau.

### Cyfraniad HYC o ran cefnogi gwelliannau mewn ansawdd addysgu

8.16 Ym mhob un o'r 39 ysgol LILI, elfen allweddol o weithgareddau hunanwerthuso oedd ymrwymiad i fonitro ansawdd yr addysgu. Fel y trafodwyd ym Mhennod 3, roedd tystiolaeth bod rhaglenni'n cynnwys elfennau cyffredin ac yn eu plith arsylwi ar wersi, craffu ar lyfrau a monitro data cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, cafodd ei gydnabod yn eang y bu pryder, cyn HYC, nad oedd prosesau o'r fath yn rhoi gwybodaeth ddibynadwy. Fel y nododd un uwch arweinydd yn 2015/16: *'eleni mae cyfran y gwersi a aseswyd fel rhai da neu wael wedi disgyn ond credaf mai'r realiti yw efallai bod*

*ansawdd y gwersi a asesir nawr yn rhai anfoddhaol wedi cael eu hasesu fel da yn flaenorol'* (Uwch Arweinydd mewn ysgol LlLl).

8.17 Yn gyffredinol, roedd cyfraniad mewnbynnau cysylltiedig â'r rhaglen LlLl o ran cefnogi gwelliannau mewn ansawdd athrawon hefyd fel petai ychydig yn fwy nac arweinyddiaeth a rheolaeth. Fodd bynnag, golyga'r amrywioldeb a welir yn lefel y cyfraniad mewn ysgolion unigol y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli hyn. Er enghraifft, mewn ychydig dan un rhan o bump o'r holl ysgolion LlLl roedd hi'n ymddangos bod cyfraniad HYC yn ddibwys. I'r gwrthwyneb, mewn dwy ran o bump o'r holl ysgolion LlLl teimlwyd bod mewnbynnau cysylltiedig â'r rhaglen yn bennaf gyfrifol am unrhyw newid a welwyd mewn perfformiad.

8.18 Er mwyn egluro rhywfaint o'r amrywioldeb hyn, mae'n ddefnyddiol ystyried y mewnbynnau hynny oedd yn cael eu cysylltu'n fwyaf cyffredin â chefnogi newidiadau mewn perfformiad ochr yn ochr â thrywydd perfformiad hanesyddol ysgolion cyn iddynt gael eu cynnwys yn HYC. Mae'n werth nodi, mewn tri chwarter o'r holl ysgolion LlLl, cafodd mynediad at gyllid HYC (a alluogodd ysgolion i ryddhau athrawon i fynychu cyrsiau DPP, er enghraifft) glod yn gyffredinol am gefnogi newidiadau mewn perfformiad addysgu. Yn ymarferol, yn aml ystyriwyd buddsoddiadau o'r fath fel rhai a oedd yn cyfrannu mwy at y newidiadau mewn ysgolion a oedd cyn hynny wedi bod yn dirywio (Grŵp A) neu'n sefyll yn ei hunfan (Grŵp B) yn hytrach nag ysgolion a oedd eisoes wedi dechrau gwella (Grŵp C). Roedd nifer o ffactorau fel petaent yn tanategu'r canfyddiad hwn:

- Mewn rhai ysgolion Grŵp A a Grŵp B roedd tystiolaeth na fyddai uwch arweinwyr, heb gyllid HYC, wedi bod mewn sefyllfa i wario arian ar DPP neu weithgareddau eraill o'r fath. Mewn cyferbyniad, mewn rhai ysgolion Grŵp C roedd tystiolaeth bod gweithgareddau o'r fath eisoes yn cael eu hadnoddu ond bod cyllid HYC wedi galluogi uwch arweinwyr i gynyddu eu hargaeledd neu amlder. O ganlyniad, ystyriwyd bod cyllid HYC mewn ysgolion Grŵp A a Grŵp B yn bwysicach er mwyn egluro'r newidiadau yn eu perfformiad nag mewn ysgolion Grŵp C.

- Roedd tystiolaeth i awgrymu bod sut y cafodd cyllid HYC ei ddefnyddio mewn ysgolion Grŵp A a Grŵp B ychydig yn wahanol i sut y cafodd cyllid o'r fath ei ddefnyddio mewn ysgolion Grŵp C. Mae'n werth nodi, mewn ysgolion Grŵp A a Grŵp B roedd hi'n ymddangos bod y pwyslais yn aml ar gefnogi arweinwyr canol i roi systemau a phrosesau priodol ar waith er mwyn cefnogi addysgu effeithiol. Mewn ysgolion Grŵp C roedd hi'n llawer mwy cyffredin i'r cyllid gael ei ddefnyddio i gefnogi athrawon dosbarth i weithredu dulliau addysgeg yr oedd arweinwyr canol yn eu hystyried yn ddymunol. Yn yr ysgolion hyn, lle croesawyd cyllid HYC, cydnabuwyd bod yn rhaid i lwyddiant hyfforddiant i gefnogi

newidiadau mewn ymarfer yn yr ystafell ddosbarth gael ei ystyried yng nghyd-destun datblygu arweinyddiaeth ganol effeithiol.

8.19 Mae tystiolaeth bod HYC mewn ysgolion LlLl wedi cyfrannu at gyflwyniad DPP ac, mewn rhai achosion, ei ymestyn. Y cwestiwn sy'n parhau yw pa mor weddnewidiol a fu. Nid yw'n amlwg a yw'r rhaglen wedi bod yn rhedeg yn ddigon hir i fod wedi creu newid mewn diwylliant ysgol gyfan yn y dulliau ar gyfer addysgu a dysgu, er enghraifft, neu a yw'n bennaf wedi bod o fudd dim ond i'r rheini sydd wedi cyfranogi mewn gweithgareddau DPP a gweithgareddau cysylltiedig â'r rhaglen.

**Cyfraniad HYC mewn cefnogi gwelliannau yn lefelau ymgysylltiad disgyblion**

8.20 Roedd peth tystiolaeth o gynnydd diweddar (dros flwyddyn academaidd 2015/16) mewn presenoldeb yn yr ysgolion a oedd cyn hyn wedi bod yn cael trafferthion (Grŵp A) a hefyd mewn ysgolion a oedd wedi bod yn gwneud cynnydd (Grŵp C). Fodd bynnag, nid oedd presenoldeb mewn ysgolion a oedd wedi bod yn sefydlog ond yn gwneud fawr ddim neu ddim cynnydd cyn LlLl (Grŵp B) wedi gwella ar y gyfradd y gellid bod wedi'i disgwyl. Roedd mwyafrif y cyfweleion, fodd bynnag, yn pwysleisio nad gwell presenoldeb (er ei fod yn fesuradwy) oedd y dangosydd gorau ar gyfer gwelliannau mewn ymgysylltiad disgyblion, gan bwysleisio'r amser rhagarweiniol hir rhwng cyflwyno ymyriadau (yn arbennig ar gyfer disgyblion wedi dadrithio) a gweld gwelliannau mewn yn yr holl ddata (yn hytrach na data ar unigolion penodol).

8.21 Er gwaethaf nifer fechan o allbwyntiau nodedig, roedd llai o amrywioldeb yn y cyfraniad a aseswyd ar gyfer mewnbynnau cysylltiedig â'r rhaglen o ran cefnogi gwelliannau yn lefelau ymgysylltiad disgyblion mewn ysgolion LlLl. Aseswyd bod cyfraniad cyffredinol HYC i newidiadau ym mherfformiad ysgolion LlLl yn weddol gryf (ac ychydig yn uwch nag mewn meysydd megis ansawdd athrawon ac arweinyddiaeth a rheolaeth). Mewn dwy o bob pump o'r holl ysgolion LlLl teimlwyd bod mewnbynnau yn bennaf neu'n gyfan gwbl gyfrifol am y newid a welwyd mewn ymgysylltiad disgyblion. Mewn chwarter arall o'r holl ysgolion LlLl, teimlwyd bod mewnbynnau cysylltiedig â'r rhaglen yn un o'r prif ysgogwyr

8.22 Yn ddiddorol, mewn bron i ddwy o bob tair o'r holl ysgolion LlLl, yr *unig* fewnbwn cysylltiedig â'r rhaglen a gysylltwyd gyda newidiadau mewn perfformiad oedd cyllido HYC. Nid yw hyn yn syndod o gofio'r graddau yr oedd hi'n ymddangos bod ysgolion LlLl wedi rhoi recriwtio staff cymorth (megis swyddogion presenoldeb) fel mater canolog i'w dull ar gyfer gwella ymgysylltiad disgyblion. Mae hi fodd bynnag yn bwysig cwestiynau cynaliadwyedd gwelliannau canfyddedig unwaith y bydd y ffynhonnell cyllid

hon ddim ar gael mwyach. Roedd rhai ysgolion yn fwy optimistaidd nag eraill gan nodi os oedd yr ysgol yn llwyddiannus o ran gwella presenoldeb a sicrhau bod presenoldeb da yn dod yn rhywbeth arferol, yna ni fyddai angen lefelau buddsoddiad o'r fath yn y dyfodol. Roedd eraill yn llai gobeithiol. Fel y dywedodd un uwch arweinydd, os mai dim ond drwy waith swyddogion presenoldeb a staff cymorth arall y gellid cynnal hyn, yna *'bydd angen iddynt wneud penderfyniad anodd ynglŷn â beth arall ddylid peidio ei ariannu* (Uwch Arweinydd mewn ysgol LlLl).

**Cyfraniad HYC mewn cefnogi gwelliannau yng nghanlyniadau dysgu disgyblion**

8.23 Dangosodd ddadansoddiad o ddata disgyblion dros amser bod pob ysgol LlLl wedi gwneud rhywfaint o gynnydd mewn codi cyrhaeddiad disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 a Chyfnod Allweddol 3, er bod hyn yn arbennig o amlwg mewn ysgolion lle'r oedd rhywfaint o gynnydd i'w weld cyn cyflwyno HYC (Grŵp C). Fodd bynnag, roedd i ba raddau yr oedd y cynnydd hwnnw mewn cyrhaeddiad yn cyfateb i'r (neu'n well na'r) hyn y gellid fod wedi ei ddisgwyl, o gofio nodweddion y disgyblion yn yr ysgolion, yn amrywio.

8.24 Wrth asesu cyfraniad mewnbynnau cysylltiedig â'r rhaglen i gefnogi canlyniadau ar lefel disgyblion, roedd llai o amrywioldeb yn lefel y cyfraniad nac mewn meysydd eraill (megis arweinyddiaeth a rheolaeth). Er gwaethaf y ffaith mai dim ond ychydig o ysgolion oedd wedi canolbwyntio ar ymyriadau uniongyrchol gyda disgyblion, ar y cyfan teimlwyd bod yr HYC wedi cael mwy o effaith ar ganlyniadau dysgu disgyblion nac ar gefnogi gwelliannau mewn ansawdd athrawon, ond llai o effaith nac a gafodd ar gefnogi gwelliannau mewn ymgysylltiad disgyblion.

8.25 Efallai bod hwn yn effaith llai clir yr HYC nac yn adlewyrchiad bod ychydig o gyfweleion mewn ysgolion LlLl wedi nodi adnoddau gwella ysgol eraill yr oeddent yn eu neilltuo i gefnogi gweithgareddau a oedd wedi eu hanelu'n uniongyrchol at wella canlyniadau dysgu disgyblion. Roedd cyfweleion yn aml yn sôn am gymhlethdod cynhenid ceisio gwella cyrhaeddiad disgyblion a'r angen i roi ystyriaeth i newidiadau mewn ystod o wahanol feysydd o'r ysgol wrth geisio egluro neu briodoli unrhyw newidiadau mewn perfformiad (yn cynnwys newidiadau mewn ansawdd athrawon, a lefelau ymgysylltiad disgyblion). Er y teimlwyd bod buddsoddiadau mewn rhaglenni dal i fyny yn werth chweil, fe'u hystyriwyd ar y cyfan yn ffactor gyfranogol ar gyfer yr ychydig yn hytrach na rhywbeth canolog i wella cyrhaeddiad cyffredinol disgyblion.

**Cyfraniad HYC i welliannau cyffredinol mewn ysgolion LILI**

8.26 Yn gryno, mae'n ymddangos bod HYC wedi cefnogi nifer o welliannau mewn ysgolion LILI, er bod ystod o ffactorau mewnol ac allanol eraill (yn cynnwys arweinyddiaeth) wedi chwarae rôl bwysig. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod pob ysgol LILI wedi gwneud rhywfaint o gynnydd dros y ddwy flynedd a bod HYC wedi bod yn ffactor gyfranogol. Roedd hyn yn arbennig o amlwg o ran gwelliannau mewn ymgysylltiad disgyblion (gyda'r cyfweleion yn amlygu'n arbennig gyfraniad cyllid HYC mewn hwyluso rolau staff cymorth) ac yn rhannol mewn gwelliannau i arweinyddiaeth a rheolaeth, datblygiad athrawon a chanlyniadau cyrhaeddiad disgyblion.

8.27 Yn yr holl ddatblygiadau hyn nodwyd mai cyllid HYC oedd y nodwedd alluogol bwysicaf, gan gefnogi gwelliannau mewn staffio, systemau rheoli data a hyfforddiant staff, er enghraifft. Mae'n bosibl, fodd bynnag, bod pwysigrwydd y Cynghorwyr (a gydnabuwyd fel ffactor cefnogi arweinyddiaeth a rheolaeth) wedi ei danddatgan gan nifer o'r cyfweleion; roedd staff y tu allan i dimau arwain ysgolion fel petaent yn llai ymwybodol o waith y Cynghorwyr a oedd yn aml yn llai gweledol i'r corff staff ehangach.

8.28 Mae rhai o'r gwelliannau a nodwyd, megis y rheini mewn ansawdd cyffredinol athrawon ac mewn agweddau o arweinyddiaeth a rheolaeth (yn arbennig systemau data) yn debygol o barhau wedi i'r cyllid ddod i ben, yn arbennig os bydd staff yn parhau yn eu swyddi. Gallai rhai, fodd bynnag, fel swyddi staff penodol i helpu disgyblion a oedd mewn perygl dadrithio, fod yn fwy bregus pan fydd y cyllid yn dod i ben, gan godi cwestiynau ynglŷn â chynaliadwyedd tymor hwy y gwelliannau a nodwyd.

8.29 Archwilir goblygiadau canfyddiadau'r astudiaeth ym Mhennod 9.

## 9. Casgliadau a goblygiadau

9.1 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y dull a fabwysiadwyd ar gyfer LlLl yn briodol ar gyfer y 39 ysgol, yn y ffaith ei fod wedi ceisio teilwra cefnogaeth yn benodol i fodloni anghenion sefydliadau unigol. Er bod ysgolion yn tueddu i deimlo mai cyllid HYC oedd y prif ffactor mewn galluogi gwelliannau, roedd arwyddion bod gan Gynghorwyr a BGC, yn dibynnu ar y meysydd i'w datblygu, rôl amlwg i'w chwarae (er na chydnabuwyd hyn bob amser). Hwylusodd y model LlLl lefelau newidiol o gefnogaeth wrth i'r rhaglen ddatblygu, gan sicrhau bod ysgolion wedi eu cefnogi i gymryd perchnogaeth o'u taith gwella ysgol. Yn benodol:

- Roedd rôl y Cynghorwyr Her yn amrywio o fod yn gyfeiriol i fod yn un fwy cynghorol wrth i ysgolion wneud cynnydd.
- Esblygodd y BGC yn gyrff lle'r oedd atebolrwydd o'r ddwy ochr a rhoesant sgôp ar gyfer datblygiad staff ehangach.

9.2 Ochr yn ochr â'r gefnogaeth allanol oedd ar gael (drwy gyllido, Cynghorwyr Her a BGC) cyfrannodd nifer o ffactorau mewnol i lefel y llwyddiant a gyflawnwyd ar draws y 39 ysgol LlLl. Roedd y rhain yn cynnwys:

- cryfderau, sgiliau a gallu cymharol yr UDA
- gallu ysgol i gynnal hunanwerthusiad manwl (ac i nodi'r camau oedd eu hangen i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd oedd angen eu gwella)
- y graddau y gwelodd yr holl staff (nid dim ond yr UDA) wella ysgol fel rhywbeth yr oedd angen iddynt gymryd cyfrifoldeb amdano.

9.3 Wrth ddatblygu rhaglen gwella ysgol, mae angen ystyried nid yn unig ffurf a maint y mewnbynnau oedd ar gael, ond hefyd y cyd-destunau y mae'r mewnbynnau hyn yn mynd iddynt. Mae hyn yn amlygu'r angen i ystyried, yn fanwl, anghenion ysgolion (ac a oes anghenion sy'n gyffredin ar draws yr holl ysgolion neu a oes amgylchiadau unigryw sydd angen dull wedi'i deilwra'n fwy penodol). Mae'n pwysleisio pwysigrwydd nodi'r ysgolion sydd angen cefnogaeth, penderfynu ar y math o gefnogaeth sydd ei hangen, ystyried lefel y gwelliant (boed hynny'n arweinyddiaeth, ansawdd athrawon neu ganlyniadau disgyblion) y gellid yn ymarferol ei disgwyl dros gyfnod yr ymyriad a rhoi cynllun gweithredu priodol ar waith.

### Goblygiadau ar gyfer gwella ysgol ehangach

9.4 Dysgwyd nifer o wersi, rhai strategol a gweithredol, o werthusiad yr ysgolion LlLl y gellir eu trosglwyddo i welliant ysgol ehangach. Ar lefel strategol:

- Mae angen adolygu'r synergedd rhwng cynllunio datblygu ysgol a chylchoedd cyllido. Pan fod cyfleoedd i wneud cais am gyllid yn digwydd yn hwyr yn y flwyddyn ysgol, gall ysgolion gael anhawster i integreiddio gweithgareddau i'r cynllun datblygu ysgol neu i recriwtio staff i gefnogi'r gweithgareddau hynny. Gall cadarnhad hwyr bod cyllid ar gael hefyd atal cynllunio da.

- Nododd ein dadansoddiad gyfradd uchel o gyfnewidioldeb ym mhatrymau cyrhaeddiad y 39 ysgol yn y pum mlynedd cyn cael eu dynodi'n ysgolion LlLl. I rai ysgolion roedd y cyfnewidioldeb hwn yn cuddio tuedd hirdymor o ddirywiad mewn cyrhaeddiad, i eraill roedd yn cuddio gwelliant graddol mwy diweddar. Ar gyfer strategaethau gwella ysgol effeithiol, gallai eglurder ynglŷn â thueddiadau tymor hwy helpu i gefnogi'r broses o nodi'r ysgolion oedd â'r mwyaf o angen cefnogaeth.

- Hefyd, byddai'n werthfawr rhoi ystyriaeth bellach i sut y gellid defnyddio data yn y modd gorau i asesu cynnydd ysgol. Roedd y model rhagfynegi a ddefnyddiwyd yn y gwerthusiad hwn yn offeryn effeithiol i ddatblygu dull ar gyfer ystyried y ffordd orau i asesu cynnydd rhwng gwahanol ysgolion, mewn amgylchiadau gwahanol, a lle'r oedd yr ymyriad wedi'i deilwra i'r angen, nid yn un safonedig. Drwy ystyried nid yn unig y cyrhaeddiad blaenorol, ond ei drywydd, ac yn cynnwys archwiliad o nodweddion proffil carfan y disgyblion, hwyluswyd dull mwy gwahanol ar gyfer asesu cynnydd mewn ysgolion LlLl a gallai hysbysu gwerthusiadau yn y dyfodol.

- Roedd nifer o ysgolion LlLl angen cymorth allanol i nodi eu hanghenion penodol, eu man cychwyn ar gyfer datblygu a/neu greu camau priodol ar gyfer gweithgareddau gwella ysgol. Ar gyfer rhai ysgolion, roedd angen i bwyslais y gefnogaeth fod yn bennaf ar wella arweinyddiaeth a rheolaeth, yn cynnwys datblygu cynlluniau gweithredu ysgol gyfan a phwyslais ar well defnydd a rheolaeth data. I eraill, roedd angen mwy o bwyslais ar wella'r addysgu a'r dysgu yn yr ysgol, ehangu'r amrywiaeth o ddulliau addysgeg a ddefnyddir a dwysau maint yr her ar gyfer disgyblion. Ar gyfer eraill, roedd angen i'r pwyslais fod yn bennaf ar weithredu strategaethau a oedd yn cynorthwyo disgyblion i ymgysylltu mwy â'r ysgol a'u haddysg. Roedd y rhwydwaith o Gynghorwyr Her a BGC yn ganolog i ddarpariaeth y gefnogaeth hon, yn cynnwys datblygu gallu ysgolion i hunanwerthuso, a byddai'n fuddiol rhoi ystyriaeth tymor hwy i fecanweithiau cefnogi o'r fath.

9.5 Ar lefel weithredol:

- Mae nodi'n glir yr anghenion mewnol penodol mewn ysgolion, nid dim ond eu cyd-destun neu eu lefelau perfformiad, yn hollbwysig i ddatblygiad cynllun gweithredu cynhwysfawr a phriodol. Roedd rôl y Cynghorydd Her yn hollbwysig yng ngwelliant cymharol nifer o'r ysgolion LlLl, gan eu cynorthwyo i gysyniadu eu hanghenion a rhoi cynllun gweithredu ar waith a allai gael ei weithredu yn yr ysgol
- Pan ddeuir â chefnogaeth allanol i mewn, mae'n hollbwysig y caiff perthynas gynhyrchiol ei datblygu gyda'r UDA, fel eu bod yn barod i ystyried gweithredu gweddnewidiol
- Mae perthynas dda yn fwy tebygol o ddigwydd pan fo gan y cynghorydd allanol sgiliau a phrofiad perthnasol; mae cynghorydd sydd â phrofiad uwchradd yn fwy tebygol o fod â hygrededd gydag UDA mewn ysgol uwchradd nag un sydd â chefndir addysg gynradd
- Mae angen i gynghorwyr allanol allu treulio digon o amser mewn ysgolion, a gyda'r staff perthnasol, os yw eu cyfraniad am gael ei werthfawrogi a'i weithredu
- Mae cynnwys arweinwyr canol, yn ogystal ag uwch arweinwyr, yn hanfodol er mwyn datblygu perchnogaeth o'r dull ac er mwyn cefnogi cynllunio dilyniannol
- Er bod datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth dda yn bwysig, mae gallu ysgol i gynnal hunanwerthusiad (a gweithredu arno) yn dyngedfennol ar gyfer gwella
- Mae angen gweld gwella ysgol fel taith ar y cyd, sy'n cynnwys nid dim ond yr UDA, ond hefyd arweinwyr canol a'r aelodau eraill o'r staff, er mwyn datblygu teimlad o berchnogaeth a rennir a gweithgarwch a gytunir
- Mae gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion eraill yn cymryd amser i ddatblygu ac esblygu'n berthynas weithredol. Cefnogodd gyflwyniad y BGC y dull cydweithredu, gan esblygu i fod yn fan o atebolrwydd o'r ddwy ochr. Roedd cydweithredu gydag ysgolion eraill, ar faterion neu feysydd o'r cwricwlwm yr oedd pawb yn cytuno arnynt yn dod yn fwy cyffredin, ond yn bell o fod yn digwydd ym mhobman, tuag at ddiwedd y ddwy flynedd
- Efallai y bydd gan ddisgyblion nifer o resymau dros bresenoldeb gwael yn yr ysgol neu ddiffyg cynnydd. Efallai y gallai goresgyn eu rhwystrau i

ddysgu fod yn hollbwysig er mwyn gwella eu hymgysylltiad yn yr ysgol, ac efallai y bydd angen i ddefnydd creadigol o staff cymorth fynd law yn llaw â gweithgareddau seiliedig ar y cwricwlwm.

## Cyfeiriadau


Carr C & Morris M, (2016). Gwerthusiad o Her Ysgolion Cymru: Gweithrediad mewn ysgolion Llwybrau Llwyddiant (2014/15). [Ar-lein] Ar gael: http://llyw.cymru/docs/caecd/research/2016/160720-evaluation-schools-challenge-cymru-year-1-cy.pdf (Cyrchwyd 3 Gorffennaf 2017)

Crawford, C., Macmillan, L., a Vignoles, A., (2014). High Attaining Pupils from Disadvantaged Backgrounds. Social Mobility and Poverty Commission. [Ar-lein] Ar gael: https://www.ifs.org.uk/publications/7256 (Cyrchwyd 3 Gorffennaf 2017)

Crudas L (2015) Leading the Way: Blueprint for a Self-Improving System in Wales. [Ar-lein] Ar gael: **https://www.ascl.org.uk/download.D8DE6841-171F-4F65-A527A51F20416CD6.html**. (Cyrchwyd 3 Gorffennaf 2017)

Estyn, (2014). Canllaw Hunanrafarnu ar gyfer Ysgolion Uwchradd 2014. [Ar-lein] Ar gael: https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Secondary%20manual%20en.pdf (Cyrchwyd 3 Gorffennaf 2017)

Llywodraethwyr Cymru (2013) Beth ydy Consortia Rhanbarthol? Cwestiynau a Ofynnir Amlaf Llywodraethwyr Cymru. [Ar-lein] Ar gael: http://www.governorswales.org.uk/faqs/2013/10/17/what-are-regional-consortia/ (Cyrchwyd 3 Gorffennaf 2017)

Hutchings, M., Greenwood, C., Hollingworth, S., Mansaray, A., and Rose, A., with Minty, S., a Glass, K., (2012). "Evaluation of the City Challenge Programme". [Ar-lein] Ar gael: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/184093/DFE-RR215.pdf (Cyrchwyd 3 Gorffennaf 2017)

Mayne, J., (2011). 'Addressing Cause and Effect in Simple and Complex Settings through Contribution Analysis'. In Evaluating the Complex, R. Schwartz, K. Forss, a M. Marra (Eds.), Transaction Publishers. Piscataway, New Jersey

Llywodraeth Cymru, (2014a). "Her Ysgolion Cymru: Cyflwyniad ar gyfer Ysgolion Llwybrau Llwyddiant" [Ar-lein] Ar gael: http://llyw.cymru/docs/dcells/publications/140620-schools-challenge-cymru-introduction-brochure-cy.pdf (Cyrchwyd 3 Gorffennaf 2017)

Llywodraeth Cymru, (2014b). “Cynlluniau Datblygu Ysgol” [Ar-lein] Ar gael: http://llyw.cymru/docs/dcells/publications/141023-school-development-plans.pdf (Cyrchwyd 3 Gorffennaf 2017)

Llywodraeth Cymru, (2014c). “Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio’n Rhanbarthol” [Ar-lein] Ar gael: http://llyw.cymru/topics/educationandskills/publications/guidance/national-model-for-regional-working/?lang=cy (Cyrchwyd 3 Gorffennaf 2017)